

Darlun ystadegol o sefyllfa'r Gymraeg

Hywel M Jones



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD



© Hawlfraint Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2012

Dyddiad Cyhoeddi: Chwefror 2012

Cyhoeddwr:

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Siambrau'r Farchnad

5-7 Heol Eglwys Fair

CAERDYDD

CF10 1AT

Ffôn: 029 2087 8000

www.byig-wlb.org.uk

Dyluniwyd y clawr gan:

Celf Creative

Argraffwyd gan:

Stephens and George Print Group

ISBN: 978095353348-0



Darlun ystadegol o sefyllfa'r Gymraeg

Hywel M. Jones

Cynnwys

Rhagair	ix
1 Crynodeb	1
2 Cyflwyniad	2
3 Trosolwg	4
3.1 Nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth	4
3.2 Daearyddiaeth	5
3.3 Cartrefi a throsglwyddo'r iaith.....	6
3.4 Defnydd	8
4 Y cyfrifiad	10
4.1 Hanes y Gymraeg yn y cyfrifiad	10
4.2 'Cymry' Cyfrifiad 2001	10
4.3 Canlyniadau o 1891 at 2001	11
4.4 Y newidiadau rhwng 1991 a 2001	13
4.4.1 Yn ôl oed	13
4.4.2 Yn ôl daearyddiaeth	15
5 Sgiliau, yn ôl Cyfrifiad 2001	23
5.1 Cefndir	23
5.2 Yn ôl rhyw	24
5.3 Grwpiau ethnig.....	24
5.4 Deall	26
5.5 Llythrennedd, yn ôl awdurdod lleol.....	27
5.6 Mapio llythrennedd.....	39
5.7 Llythrennedd, yn ôl diwydiant.....	42
6 Sgiliau: tystiolaeth arall	44
6.1 Rhuglder siarad	44
6.2 Llythrennedd	49
6.3 Ysgrifennu	50
6.4 Darllen	52
7 Cartrefi	54
8 Trosglwyddo/iaith y plant	59
9 Athreuliad ieithyddol (Colli'r iaith)	63

10	Addysg	64
10.1	Cyn-ysgol.....	64
10.2	Cynradd.....	66
10.2.1	Disgyblion.....	66
10.2.2	Trefniadaeth ysgolion cynradd.....	71
10.3	Uwchradd.....	74
10.3.1	Dilyniant o'r sector cynradd.....	74
10.3.2	Dilyniant trwy'r sector uwchradd.....	76
10.3.3	Trefniadaeth ysgolion uwchradd.....	79
10.4	Addysg bellach.....	80
10.5	Addysg uwch.....	81
10.5.1	Myfyrwyr.....	81
10.5.2	Hyfforddi cychwynnol athrawon.....	82
10.6	Cymraeg i Oedolion.....	82
11	Gweithlu	84
11.1	Dosbarthiad siaradwyr Cymraeg.....	84
11.2	Gweithlu'r sector addysg.....	88
11.2.1	Athrawon ysgol.....	88
11.2.2	Addysg bellach.....	90
11.2.3	Addysg uwch.....	91
12	Defnydd Iaith.....	92
12.1	Defnydd unigolion.....	92
12.1.1	Amllder siarad Cymraeg.....	92
12.1.2	Siarad.....	95
12.1.3	Darllen.....	98
12.1.4	Ysgrifennu.....	101
12.2	Defnydd sefydliadau.....	103
12.2.1	Yn eu hymwneud â'r cyhoedd.....	103
12.2.2	Yn eu gweithgareddau eu hunain.....	107
13	Demograffi	108
13.1	Y model demograffig.....	108
13.2	Genedigaethau.....	108
13.3	Marwolaethau.....	110
13.4	Mewnfudo.....	110
13.5	Allfudo.....	113
13.5.1	Y diaspora Cymraeg.....	114
13.5.1.1	Patagonia.....	114
13.5.1.2	UDA.....	114
13.5.1.3	Awstralia.....	115
13.5.1.4	Canada.....	115
13.5.1.5	Seland Newydd.....	115
13.5.1.6	Lloegr.....	115

14	Edrych tua'r dyfodol.....	116
14.1	Tystiolaeth arolygon diweddar.....	116
14.2	Amcanestyniadau	116
14.3	Crynodeb	119
15	Diwedd glo	120
16	Llyfryddiaeth.....	121
17	Atodiad: Methodoleg cyfrifo amcanestyniadau.....	126

Rhestr ffigurau

Ffigur 1:	% y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, 1911–2001.....	11
Ffigur 2:	% y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, 1911–2001, yn ôl grŵp oed.....	12
Ffigur 3:	% yn siarad Cymraeg yn ôl oed, 1911–2001: pobl o dan 25 oed.....	12
Ffigur 4:	% yn siarad Cymraeg yn ôl oed, 1911–2001: pobl 25 oed a throsodd.....	13
Ffigur 5:	Cymharu niferoedd y siaradwyr yn 1981, 1991 a 2001 yn ôl oed	14
Ffigur 6:	Newid rhwng 1991 a 2001: % yn siarad Cymraeg yn ôl ardal (pawb 3 oed a throsodd).....	15
Ffigur 7:	Y tebygolrwydd y bydd siaradwr Cymraeg yn cwrdd â siaradwr Cymraeg ar hap (y mynegrif arwahanrwydd) a'r ganran yn gallu siarad Cymraeg, 1991 a 2001, yn ôl oed	19
Ffigur 8:	Cymru: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001.....	24
Ffigur 9:	Cymru: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl rhyw ac oed, 2001.....	25
Ffigur 10:	% yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl grŵp ethnigrwydd, 2001.....	25
Ffigur 11:	Ynys Môn: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001	28
Ffigur 12:	Gwynedd: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001	28
Ffigur 13:	Conwy: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001	29
Ffigur 14:	Sir Ddinbych: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001	29
Ffigur 15:	Sir y Fflint: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001	30
Ffigur 16:	Wrecsam: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001	30
Ffigur 17:	Powys: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001	31
Ffigur 18:	Ceredigion: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001	31
Ffigur 19:	Sir Benfro: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001	32
Ffigur 20:	Sir Gaerfyrddin: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001.....	32
Ffigur 21:	Abertawe: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001	33
Ffigur 22:	Castell-nedd Port Talbot: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001.....	33
Ffigur 23:	Pen-y-bont ar Ogwr: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001.....	34
Ffigur 24:	Bro Morgannwg: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001.....	34
Ffigur 25:	Rhondda Cynon Taf: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001.....	35

Ffigur 26: Merthyr Tudful: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001.....	35
Ffigur 27: Caerffili: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001	36
Ffigur 28: Blaenau Gwent: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001.....	36
Ffigur 29: Torfaen: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001	37
Ffigur 30: Sir Fynwy: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001 .	37
Ffigur 31: Casnewydd: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001	38
Ffigur 32: Caerdydd: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001 .	38
Ffigur 33: Cyfradd lythrennedd siaradwyr Cymraeg, yn ôl diwydiant, 2001.....	43
Ffigur 34: % y siaradwyr sy'n rhugl, yn ôl awdurdod lleol, amcangyfrifon 2004–06.....	45
Ffigur 35: Cartogramau: y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg a'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl, Cyfrifiad 2001 ac amcangyfrifon 2004–06.....	45
Ffigur 36: % y siaradwyr Cymraeg sy'n rhugl, yn ôl rhyw a grŵp oedran, amcangyfrifon 2004–06.....	47
Ffigur 37: Gallu ysgrifennu Cymraeg, yn ôl rhuglder: cymharu amcangyfrifon 2004–10	51
Ffigur 38: Lefel llythrennedd Gymraeg, yn ôl gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg, 2004 a 2010.....	52
Ffigur 39: Gallu darllen Cymraeg, yn ôl rhuglder: cymharu amcangyfrifon 2004–10.....	53
Ffigur 40: Gallu darllen ac ysgrifennu, Cymraeg a Saesneg, yn ôl gallu siarad Cymraeg, 2010.....	53
Ffigur 41: Niferoedd cylchoedd a grwpiau Ti a Fi Mudiad Meithrin, 1970–2011	65
Ffigur 42: % a aseswyd mewn Cymraeg ar ddiwedd CA1/2/3, ac yn astudio Cymraeg iaith gyntaf, 1999–2011	66
Ffigur 43: % y disgyblion cynradd yn ôl iaith/cefndir, yn ôl grŵp blwyddyn, Ionawr 2010.....	67
Ffigur 44: % y disgyblion cynradd yn ôl iaith/cefndir, 1986/87–2010/11.....	68
Ffigur 45: Niferoedd y disgyblion cynradd yn ôl iaith/cefndir, 1986/87–2010/11.....	68
Ffigur 46: Nifer o ysgolion cynradd, 1975/76–2010/11, yn ôl canran y plant rhugl ynddynt..	69
Ffigur 47: % yr ysgolion cynradd, 1975/76–2010/11, yn ôl canran y plant rhugl ynddynt	70
Ffigur 48: Nifer o ddisgyblion cynradd, 1991/92–2010/11, yn ôl cyfrwng dysgu'r dosbarth ..	70
Ffigur 49: % o'r holl ddisgyblion cynradd, 1991/92–2010/11, yn ôl cyfrwng dysgu'r dosbarth	71
Ffigur 50: % o ddisgyblion cynradd mewn dosbarth prif gyfrwng Cymraeg, 1998/99–2010/11, yn ôl ardal	72
Ffigur 51: Nifer o ysgolion cynradd, 1993/94–2010/11, yn ôl categori iaith.....	73
Ffigur 52: % o ysgolion cynradd, 1993/94–2010/11, yn ôl categori iaith	74
Ffigur 53: % y disgyblion a aseswyd mewn Cymraeg, yn ôl Cyfnod Allweddol, 1996–2011 a thargedau 2015 a 2020	75
Ffigur 54: % disgyblion uwchradd, blynyddoedd 7–11, yn ôl math o gwrs Cymraeg, 1977/78–2010/11	76
Ffigur 55: Nifer y disgyblion 15 oed a safodd arholiad TGAU Cymraeg, yn ôl math o arholiad, 1989–2011	77
Ffigur 56: % disgyblion 15 oed, yn ôl math o TGAU Cymraeg, 1995/96–2009/10	78
Ffigur 57: Nifer y disgyblion a safodd arholiad Safon Uwch Cymraeg, yn ôl pwnc, 1975–2011	78
Ffigur 58: Dilyniant o TGAU Cymraeg i arholiad Safon Uwch, 1991–2011, a thargedau 2015	79

Ffigur 59: Nifer o ysgolion uwchradd, yn ôl categori iaith, 1989/90–2010/11	80
Ffigur 60: Arholiadau Cymraeg i Oedolion, nifer ymgeiswyr, 1996–2010	83
Ffigur 61: Dosbarthiad siaradwyr Cymraeg yn ôl diwydiant, yn ôl rhyw, Cyfrifiad 2001.....	85
Ffigur 62: % yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl rhyw a diwydiant, Cyfrifiad 2001	85
Ffigur 63: Dosbarthiad siaradwyr Cymraeg yn ôl galwedigaeth, yn ôl rhyw, Cyfrifiad 2001 .	86
Ffigur 64: % yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl rhyw a galwedigaeth, Cyfrifiad 2001	87
Ffigur 65: % o staff yn dysgu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, yn ôl sefydliad addysg bellach 2008/09.....	91
Ffigur 66: % o'r siaradwyr Cymraeg sy'n siarad Cymraeg bob dydd, yn ôl Arolygon Defnydd Iaith 2004–06.....	93
Ffigur 67: Y berthynas rhwng y canrannau sy'n gallu siarad Cymraeg, sy'n rhugl, sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac a siaradodd Cymraeg yn eu sgwrs ddiweddaraf, 2004–06.....	94
Ffigur 68: Iaith y sgwrs ddiweddaraf yn ôl grŵp oedran a rhuglder, 2004–06	96
Ffigur 69: Nifer y cynlluniau iaith a gymeradwywyd ac a oedd yn weithredol ar ddiwedd y flwyddyn, yn ôl sector.....	104
Ffigur 70: Cyfran y gwasanaethau Cymraeg neu ddwyieithog, yn ôl sector a thref, 2005..	106
Ffigur 71: % o gofrestrïadau, yn ôl digwyddiad bywyd, 1993–2010	109
Ffigur 72: % o'r boblogaeth, yn ôl gwlad enedigol, 1951–2001.....	111
Ffigur 73: Mudo trawsffiniol rhwng Cymru a gweddill y DU, 1975–2010	112
Ffigur 74: % yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl ardal, 2001–10, yn ôl ffynhonnell yr ystadegau	117
Ffigur 75: Amcanestyniadau: nifer yn gallu siarad Cymraeg, 2001–33.....	118
Ffigur 76: Amcanestyniadau: % yn gallu siarad Cymraeg, 2001–33.....	119

Rhestr tablau

Tabl 1: % yn gallu siarad Cymraeg, 1991 a 2001, yn ôl awdurdod lleol.....	16
Tabl 2: Newid yn y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg, 1991 i 2001, yn ôl sir (2003) ac yn ôl oedran.....	18
Tabl 3: Dosbarthiad y Cymunedau yn ôl y ganran oedd yn siarad Cymraeg, 1991.....	20
Tabl 4: Dosbarthiad y Cymunedau yn ôl y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg, 2001	20
Tabl 5: Plant ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1, 2 a 3: % rhugl, cymhariaeth o amcangyfrifon 2001.....	48
Tabl 6: Cyfrifiad 2001: cartrefi, yn ôl ardal awdurdod llywodraeth leol	57
Tabl 7: Cyfrifiad 2001: cartrefi a siaradwyr Cymraeg, yn ôl ardal awdurdod llywodraeth leol	58
Tabl 8: Plant 3 a 4 oed yn gallu siarad Cymraeg yn byw mewn teuluoedd	60
Tabl 9: Cyfraddau trosglwyddo, yn ôl math o deulu ac oedran y plentyn: Cymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon	62
Tabl 10: % y siaradwyr rhugl fyddai'n defnyddio Cymraeg, pe bai'r opsiwn ar gael, yn ôl sefyllfa, 2000.....	98
Tabl 11: % y siaradwyr Cymraeg yn ysgrifennu Cymraeg, yn ôl sefyllfa a gallu siarad ac ysgrifennu, 2000	101
Tabl 12: % yn ysgrifennu Cymraeg bob amser, siaradwyr rhugl ac ysgrifennwyr da, 2000..	102
Tabl 13: % o gwmnïoedd yn defnyddio'r Gymraeg, yn ôl eitem, 2007	105
Tabl 14: Siaradwyr Cymraeg 15 oed: allfudo i Loegr rhwng 1971–81, 1981–91, 1991–01	114
Tabl 15: Amcanestyniadau: % a nifer yn gallu siarad Cymraeg, 2011, 2021, 2031	118

Rhestr mapiau

Map 1: Y newid rhwng Cyfrifiad 1991 a 2001 yn y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg, pawb 3 oed a throsodd.....	17
Map 2: % yn gallu siarad Cymraeg, 2001.....	21
Map 3: Nifer yn gallu siarad Cymraeg, 2001	22
Map 4: % yn deall Cymraeg llafar yn unig: pawb 3 oed a throsodd, Cyfrifiad 2001.....	26
Map 5: % y siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd yn gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg .	39
Map 6: % y siaradwyr Cymraeg 5 i 19 oed yn gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg	40
Map 7: % y siaradwyr Cymraeg 20 i 34 oed yn gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg	40
Map 8: % y siaradwyr Cymraeg 35 i 59 oed yn gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg	41
Map 9: % y siaradwyr Cymraeg 60 oed a throsodd yn gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg	41
Map 10: % y siaradwyr Cymraeg sy'n rhugl, amcangyfrifon 2004–06.....	46
Map 11: Disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (14 oed), 2006–08, % yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl.....	48
Map 12: Plant 3 i 4 oed cyplau un oedolyn Cymraeg: % yn gallu siarad Cymraeg, 2001.....	59
Map 13: Pobl a anwyd yng Nghymru: % yn gallu siarad Cymraeg (3 oed a throsodd), 2001	113

Rhagair

Seiliwyd y rhan helaeth o weithgareddau Bwrdd yr Iaith Gymraeg dros y ddegawd ddiwethaf ar dystiolaeth a gribiniwyd o ganlyniadau Cyfrifiad 2001, wedi eu dadansoddi gan ein hystadegydd hynod fedrus, Hywel Jones. Comisiynodd y Bwrdd gryn dipyn o ymchwil arall hefyd i roi mwy o wybodaeth lle roedd ystadegau'n brin a thynnwyd ar ffynonellau data cyhoeddus eraill er mwyn meddu ar ddarlun mor gyflawn â phosibl. Nod hyn oll oedd sicrhau bod gwaith y Bwrdd yn canolbwyntio ar bethau a fyddai'n gwneud gwahaniaeth i ddyfodol y Gymraeg. Mae'r gyfrol hon yn tynnu llawer o'r ystadegau hynny a gafwyd sylw gennym at ei gilydd am y tro cyntaf erioed.

Mae'n amheus gennyf a oes llawer o wledydd eraill yn meddu ar y fath ystorfa gyfoethog o wybodaeth a data manwl am yr iaith frodorol. Golyga hyn ein bod mewn sefyllfa arbennig o ffafriol wrth fynd ati i gynllunio ar gyfer delio â'r amrywiaeth o sefyllfaoedd ieithyddol cymhleth sy'n wynebu'r Gymraeg. Bellach, mae toreth o ddata yn ein meddiant; mae hyn yn ein galluogi i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r iaith ar sail ffeithiau. Ni ellir bellach guddio y tu ôl i anwybodaeth am wir sefyllfa'r Gymraeg yn ei chymunedau ac yng nghartrefi Cymru.

Daw oes Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ben ym Mawrth 2012, a bydd y cyfrifoldeb llawn am y Gymraeg yn trosglwyddo i'r Llywodraeth. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yno hefyd i warchod y Gymraeg ac i amddiffyn y cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r iaith. Bydd y gyfrol hon yn gofnod o'r sefyllfa ystadegol ar ddechrau cyfnod newydd a bydd yn darparu meincnod y gellir ei ddefnyddio i fesur cynnydd o hyn allan. Fel y gwelir wrth ddarllen y gyfrol mae'r Gymraeg yma o hyd; dylid ymfalchïo'n fawr yn hynny a'r twf y mae'n ei brofi yn enwedig ym maes addysg. Ond nid oes lle i laesu dwylo—mae her enfawr o hyd i sicrhau lle canolog iddi ym mywyd y genedl.

MEIRION PRYS JONES
Prif Weithredwr

1 Crynodeb

Mae'r gyfrol hon yn bwrw golwg dros ystod eang o ystadegau yn ymwneud â'r Gymraeg. Eir i fanylion mewn sawl maes ond nid yw'n holl gynhwysfawr. Penderfynwyd canolbwyntio ar nifer a chanran y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg, eu sgiliau llythrennedd, a'r defnydd gweithredol a wneir o'r iaith. Ni chyffyrddir â maes y cyfryngau o gwbl. Cynladwyedd y sefyllfa bresennol a'r rhagolygon am y dyfodol yw'r brif ystyriaeth.

Dyma rai o'r casgliadau pwysicaf.

Cynyddodd y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg rhwng 1991 a 2001 yn bennaf oherwydd twf mewn dysgu Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgolion dros y cyfnod hwnnw.

Mae nifer a chanran y siaradwyr iaith gyntaf yn dal i gynyddu ymhlith yr ifainc o ganlyniad i dwf addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae allfudo yn effeithio'n sylweddol ar y *nifer* sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghymru.

Mae mewnfudo'n effeithio'n sylweddol ar y *ganran* sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghymru. Adeg Cyfrifiad 2001, roedd 20% o'r boblogaeth wedi eu geni yn Lloegr (Ffigur 72). Gellir disgwyl bod y ganran yn uwch erbyn hyn ac yn parhau i gynyddu.

O ran siaradwyr Cymraeg rhugl ymddengys fod allfudiad net o Gymru. Awgryma'r ffigurau bod nifer y siaradwyr rhugl yng Nghymru yn gostwng yn flynyddol.

Newidiodd dosbarthiad daearyddol y siaradwyr Cymraeg rhwng 1991 a 2001. Golygai hynny fod y tebygolrwydd y byddai siaradwr Cymraeg yn cwrdd ag un arall ar hap wedi lleihau dros y cyfnod hwnnw. Mae goblygiadau o ran defnydd yr iaith a ffurfiant cartrefi lle defnyddir y Gymraeg yn deillio o'r fath newid.

Nid yw canlyniadau arolygon diweddar na'r amcanestyniadau a gyfrifwyd yn awgrymu y gwelir cynnydd sylweddol yn y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn y dyfodol agos.

2 Cyflwyniad

Bwriad yr adroddiad hwn yw crynhoi'r amryfal ystadegau am y Gymraeg sydd wedi cael sylw gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg dros y blynyddoedd at ei gilydd mewn un ddogfen ac, wrth wneud hynny, tynnu darlun ystadegol o sefyllfa gyfredol y Gymraeg.

Maes o law bydd canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn cael eu cyhoeddi. Er bod canlyniadau Cyfrifiad 2001 yn hen erbyn hyn, wrth eu gosod gyfochr ag ystadegau o nifer o ffynonellau eraill, daw'r tueddiadau'n weddol glir. Bydd Cyfrifiad 2011 yn rhoi darlun manylach, yn enwedig o ran daearyddiaeth y sefyllfa, ond ni ddylai ei ganlyniadau ddod fel syndod. Mae'r dyfodol i'w weld yn y presennol. Gyda'r holl ddata sydd ar gael eisoes gallwn fod yn weddol hyderus ein bod yn deall sut mae hi yn gyffredinol ar yr iaith heddiw. Fe ddylai'r ymwybyddiaeth honno ein galluogi i ddehongli canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn gytbwys pan gânt eu cyhoeddi.

Mae maint y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn cael ei phennu gan ddemograffi a ffactorau cysylltiedig, a'r gyfundrefn addysg. Newidiadau demograffig sy'n pennu a yw'r boblogaeth yn cynyddu neu'n lleihau yn ei maint: faint sy'n cael eu geni, faint sy'n marw a faint sy'n symud i mewn ac allan o'r wlad. Mae'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg yn amrywio hefyd yn ôl y graddau y mae'r iaith yn cael ei throsglwyddo o un genhedlaeth i'r llall ar yr aelwyd neu o ganlyniad i'r gyfundrefn addysg. Rhaid cofio hefyd nad yw gallu unigolyn i siarad yr iaith yn ddigyfnewid. Gall unigolyn anghofio'r iaith i ryw raddau, neu wella ei feistrolaeth ohoni, trwy'i fywyd, nid yn unig pan fydd yn derbyn addysg fel plentyn. Nid ffactorau demograffig mo'r rhain ond cânt eu heffeithio gan ffactorau cysylltiedig fel dosbarthiad daearyddol siaradwyr y Gymraeg.

Y ffactorau hyn yw'r rhai allweddol i gynnaladwyedd yr iaith a'r rhain sy'n sail i'r ddogfen hon.

Mae'r **drydedd bennod** yn rhoi gorolwg, gan dynnu sylw at oblygiadau posibl yr ystadegau a geir yng ngweddill y ddogfen.

Mae'r **bedwaredd bennod** yn canolbwyntio ar ganlyniadau cyfrifiad y boblogaeth, y ffynhonnell ddata fwyaf cyfarwydd. Dyma'r ffynhonnell a ddefnyddir yn y ddogfen hon i ystyried rhai o brif elfennau'r model demograffig estynedig a amlinellwyd uchod, gan gynnwys cartrefi a throsglwyddo'r iaith. Yn ogystal â'r sgil o siarad Cymraeg, mae'r cyfrifiad yn rhoi manylion am y gallu i ddeall, i ddarllen ac i ysgrifennu. Cawn olwg ar ddsbarthiad daearyddol y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg a dosbarthiad y sgiliau darllen ac ysgrifennu yn ôl oed y boblogaeth. Rhoddir sylw penodol i sgiliau fel y'u cofnodwyd gan Gyfrifiad 2001 ym **mhennod 5** a thystiolaeth eraill yn eu cylch ym **mhennod 6**.

Mae **pennod 7** yn talu sylw i gyfansoddiad ieithyddol cartrefi Cymru ac mae **pennod 8** yn edrych ar ystadegau am drosglwyddo'r iaith ar yr

aelwyd. Mae **pennod 9** yn cyflwyno tystiolaeth ystadegol am faint sy'n colli'r iaith.

Am 'atgynhyrchu' y Gymraeg y byddwn yn sôn wrth drafod trosglwyddo'r iaith yn y cartref: un genhedlaeth o siaradwyr Cymraeg yn magu'r genhedlaeth nesaf yn Gymraeg. Addysg, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, yw'r unig fodd o 'gynhyrchu' siaradwyr Cymraeg o ddeunydd crai y rheini—plant ran amlaf ond oedolion hefyd—nad ydynt wedi dysgu Cymraeg ar yr aelwyd. Bwriwn olwg ar yr ystadegau sydd ar gael o'r holl sectorau yn eu tro ym **mhennod 10**. Bydd hwn yn cynnwys eu cymharu ag ystadegau cyfrifiad y boblogaeth ac yn ceisio dangos sut mae cysoni'r ffynonellau gwahanol hyn.

Lle siaradwyr Cymraeg o fewn y gweithlu fydd prif ffocws **pennod 11**. Mae presenoldeb pobl sy'n gallu siarad Cymraeg o fewn y gweithlu'n gallu effeithio ar y ddarpariaeth o wasanaethau trwy'r Gymraeg a'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith y gweithle.

Y dystiolaeth am y defnydd o'r iaith fydd yn cael sylw ym **mhennod 12**. Ystyrir demograffi yn benodol ym **mhennod 13** cyn ceisio edrych i'r dyfodol ym **mhennod 14**.

Cymeraf gyfrifoldeb personol am unrhyw gamgymeriadau. Mae'n anochel y bydd rhai mewn cyfrol fel hon. Ceisiais fod yn wrthrychol drwy'r amser ond fi a ddewisodd pa ffeithiau i'w cyflwyno ac weithiau mae modd dehongli'r ffeithiau mewn ffyrdd gwahanol. Adlewyrchu fy marn bersonol y mae'r dewisiadau a'r dehongliadau hynny, nid safbwynt Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

HYWEL M. JONES, CStat, CSci
Ystadegydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg

3 Trosolwg

Mae'r bennod hon yn ceisio crynhoi rhai o'r ystadegau allweddol. Mae'r penodau eraill yn rhoi mwy o fanylion.

3.1 *Nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth*

Gwyddom faint o bobl sy'n byw yng Nghymru, mwy neu lai. Gwyddom hefyd mai cynyddu mae maint poblogaeth Cymru, yn bennaf oherwydd mewnfudo ers 2001/02, er bod nifer y genedigaethau wedi bod yn fwy na nifer y marwolaethau yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf hefyd. Gwyddom nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad gan niferoedd mawr yn unman arall yn y byd a chan hynny, gallwn fod yn sicr mai ychydig iawn o bobl sy'n symud i Gymru fydd yn gallu siarad Cymraeg cyn iddynt ddod yma.

Ychydig o oedolion sy'n mewnfudo i Gymru sy'n llwyddo dysgu Cymraeg. O'r bobl 45 i 64 oed yng Nghymru yn 2001 a oedd wedi eu geni y tu allan i Gymru dim ond 5% a allai siarad Cymraeg.¹ Ni wyddom ble dysgon nhw siarad Cymraeg ond teg tybio y byddai'r rhan fwyaf wedi ei dysgu wedi dod i Gymru er gallai rhai ohonynt fod yn blant i siaradwyr Cymraeg a oedd yn byw y tu allan i'r wlad.

Dywedodd Cyfrifiad 2001 wrthym fod 40.8% o blant 5 i 15 oed Cymru'n gallu siarad Cymraeg. Mae'n amlwg mai adlewyrchu'r twf mewn dysgu Cymraeg fel ail iaith yn sgîl Deddf Diwygio Addysg 1988 y mae ystadegau Cyfrifiad 2001 am bobl ifanc. 13.8% gafodd eu hasesu mewn Cymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol, yn 14 oed yn fras, yn 2001. Er bod y ganran yn codi'n raddol, hyd yn oed yn 2011 cafodd lai nag un ymhob chwech o'r disgyblion (16.3%) eu hasesu mewn Cymraeg (iaith gyntaf).

Gallwn fod yn sicr mai ychydig yn is eto fyddai'r ganran a oedd yn gallu siarad Cymraeg ymhlith y garfan honno a oedd yn gadael yr ysgol. Gan mai pobl oed coleg, o gwmpas eu hugeiniau cynnar, yw'r grŵp mwyaf i allfudo (a llawer ddim yn dychwelyd byth), ni fydd y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghymru o bob oed yn cynyddu hyd nes y bydd canran lawer yn uwch yn gallu siarad Cymraeg ymhlith y plant nag sydd yn y boblogaeth gyfan. Yn 2001, 20.8% o bawb 3 oed a throsodd oedd yn gallu siarad Cymraeg. Er bod addysg Gymraeg yn dod yn fwy poblogaidd o hyd, dim ond er 2008 y mae canran uwch na hynny o'r plant 7 oed wedi cael eu hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1. Amcangyfrifir bod o gwmpas traean y siaradwyr Cymraeg 15 oed yn 1991 wedi symud i ffwrdd erbyn eu bod yn 25 yn 2001. Mae hynny'n awgrymu y byddai angen i'r ganran o ddisgyblion sy'n gallu siarad Cymraeg godi'n nes at 30% cyn y byddai'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg ymhlith y boblogaeth o bob oed sefydlogi o gwmpas 20%. Sylwer mai dim ond anelu at asesu 25% o'r plant 7 oed mewn Cymraeg

¹ Cyfrifiad 2001, tabl T39. Sylwer: mae holl dablau Cyfrifiad 2001 y cyfeirir atynt fel hyn ar gael o NOMIS.

(iaith gyntaf) erbyn 2015 y mae Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru.

Gwyddom fod o gwmpas 5,000 o blant 3 oed yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl eu rhieni, yn 2001 a bod 30% o'r rheini'n byw mewn cartref lle nad oedd yr un o'r rhieni'n gallu siarad Cymraeg. 2,300 o'r plant 3 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg a oedd yn byw mewn cartref lle roedd pawb yn gallu siarad Cymraeg a'r rheini'n cyfrif am 6.6% o'r holl blant 3 oed. Byddai plant 3 blwydd oed 2001 wedi cyrraedd diwedd Cyfnod Allweddol 2 yr ysgol yn 2009. Aseswyd 6,635 o blant mewn Cymraeg iaith gyntaf bryd hynny, 19.1% o'r holl blant. O roi'r ffigurau at ei gilydd, gallwn amcangyfrif nad oedd y Gymraeg yn brif iaith y cartref i ddwy ran o dair o'r rhain. Mae i hyn oblygiadau o ran y defnydd y gellir disgwyl i'r rhain wneud o'r iaith yn y dyfodol.

Trown at y genhedlaeth hŷn. Adeg Cyfrifiad 2001 roedd 17% o'r boblogaeth yn 65 mlwydd oed neu'n hŷn. Roedd 19.5% ohonynt yn gallu siarad Cymraeg, 98 mil o bobl. Erbyn 2023 rhagwelir y bydd 729 mil o bobl 65 mlwydd oed neu'n hŷn, 23% o'r cyfan.² Gellid disgwyl y bydd o gwmpas 114 mil (16%) o'r rhain yn gallu siarad Cymraeg.³ Eto, mae i hyn oblygiadau o ran y galw tebygol am wasanaethau Cymraeg.

Mae'r canrannau o blant sy'n gallu siarad Cymraeg a adroddir gan y cyfrifiad yn adlewyrchu i raddau y canrannau sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith yn hytrach na'r canrannau sydd â gallu sylweddol. O ganlyniad, mae cyfrifo amcanestyniadau o'r niferoedd a'r canrannau ar sail y cyfrifiad yn anodd a gallent fod yn gamarweiniol. Er hynny, gan y byddant o ddiddordeb, rhoddir rhai ym mhennod 14. O ran ffyniant yr iaith yn y dyfodol, mae nifer a'r ganran sydd â gallu sylweddol ynddi—y rhai fyddai'n disgrifio eu hunain fel siaradwyr rhugl—yn bwysicach.

3.2 Daeryddiaeth

Yn fras, os bydd canran y siaradwyr yn gostwng yn y boblogaeth, bydd y ganran o gyplau lle mae'r ddau'n gallu siarad Cymraeg yn gostwng yn gyflymach oherwydd ei bod yn mynd yn llai tebygol y bydd dau sy'n gallu Cymraeg yn cwrdd â'i gilydd. Er bod y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg ymhlith ein pobl ifainc yn codi'n genedlaethol mae'r darlun yn amrywio o ardal i ardal. Erbyn 2001 cafwyd canrannau is mewn llawer o'r ardaloedd lle roedd y canrannau uchaf yn 1991 tra cynyddodd y canrannau lle nad oedd ond canrannau isel gynt. O ganlyniad, ar gyfartaledd ar draws Cymru aeth yn fwy annhebygol y byddai siaradwr Cymraeg yn dod ar draws un arall ar hap.⁴ Nid yn union fel yna y bydd cyplau'n ymffurfio wrth gwrs ond—er nad yw'n rhamantus—mae'r model

² StatsWales 010879. Sylwer: pan gyfeirir at StatsWales mae'r rhif sy'n ei ddilyn yn cyfeirio at rif y tabl sy'n ffynhonnell y data. Amcanestyniadau'r Llywodraeth, sail 2008, prif amcanestyniad a ddefnyddiwyd yn y testun. Cyhoeddwyd amcanestyniadau sail 2010 ar ôl i'r ddogfen hon gael ei llunio (StatsWales 034803). O ran y prif dueddiadau cymharol ychydig o wahaniaeth sydd rhwng yr amcanestyniadau. E.e. ar sail 2010, 716 mil o bobl 65 oed neu'n hŷn fydd yng Nghymru erbyn 2023.

³ Amcangyfrifon Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

⁴ H. Jones (2007).

mathemategol syml yna'n adlewyrchu'r broses yn y bôn.⁵ Mae daearyddiaeth felly'n effeithio ar ffurfiant y cartrefi a drafodwyd yn yr adran flaenorol.

Adeg Cyfrifiad 2001, lleiafrif—41%—o'r holl siaradwyr oedd yn byw yn y pedair sir lle roedd mwyafrif y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, sef Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Ymhlith y grwpiau oedran 40–49, 50–59, 60–64 a 65–74 roedd mwyafrif (prin) y siaradwyr Cymraeg yn byw yn y pedair sir. Lleiafrif y siaradwyr hynaf oedd yn byw ynddynt—47% o'r siaradwyr oedd yn 75 oed neu'n hŷn—gan adlewyrchu sut yr arferai dosbarthiad daearyddol y Gymraeg fod yn ehangach.

O'r plant 3 i 4 oed a allai siarad Cymraeg roedd 41% yn byw yn y pedair sir ac ymhlith y plant 10–14 oed, disgynnai'r ganran i 24% ond, wrth gwrs, y mae'r grŵp oedran hwnnw'n cynnwys llawer o rai oedd â gallu cyfyngedig iawn yn y Gymraeg.⁶ Roedd 56% o'r holl siaradwyr *rhugl*, o bob oed, yn byw yn y pedair sir yn ôl Arolygon Defnydd Iaith 2004–06⁷. O Gyfrifiad yr Ysgolion, 2011, gellir cyfrifo bod 62% o'r plant cynradd y dywedodd eu rhieni eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref yn byw yn y pedair sir.⁸ Fodd bynnag, o'r rhai a gafodd eu hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 yn 2011, yn 7 oed yn fras, mewn Cymraeg (iaith gyntaf) dim ond 45% oedd mewn ysgolion cynradd yn y pedair sir, ychydig yn llai na'r 51% o'r rhai oedd yno adeg eu hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, yn 11 oed.⁹ Mae'r gostyngiad bach wrth fynd i lawr trwy'r oeddrannau'n adlewyrchu twf graddol yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yng ngweddill Cymru. Yn 2011 cafodd mwy o blant 7 oed eu hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf yn Rhondda Cynon Taf (523) a Chaerdydd (536) nac yn Ynys Môn (469) a Cheredigion (445).

3.3 **Cartrefi a throsglwyddo'r iaith**

Yn 2001 roedd 1,209 mil o gartrefi yng Nghymru. Amcangyfrifwyd bod 135 mil o'r rheini, 11.1%, yn rhai cyfan gwbl Gymraeg yn yr ystyr bod pob un aelod o'r cartref yn gallu siarad Cymraeg. Roedd 341 mil o gartrefi, 28.2%, lle roedd o leiaf un aelod yn gallu siarad Cymraeg.¹⁰ Mae'n debyg mai plentyn yn y cartref yw'r aelod neu'r aelodau hynny ran amlaf ac mae hyn yn adlewyrchu'r canrannau uchel oedd yn gallu siarad Cymraeg ymhlith y rhai oed ysgol yn ôl Cyfrifiad 2001.

Pan ganolbwyntir ar gartrefi lle roedd cwpl â phlentyn dibynnol a'r plentyn hwnnw rhwng 0 a 4 oed yn 2001, gwelir mai 9 mil (9.2%) ohonynt oedd â'r ddau oedolyn yn gallu siarad Cymraeg.¹¹ Yn annibynnol o'r cyfrifiad, dangosodd Arolygon Defnydd Iaith 2004–06

⁵ José Luis Alvarez Enparantza, ('Txillardegí') (2001).

⁶ Cyfrifiad 2001, tabl CAS146.

⁷ Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2008).

⁸ Llywodraeth Cymru (2011c), tabl 11.55 yn y ddogfen gysylltiedig ar wefan y Llywodraeth.

⁹ StatsWales 10418 a 10419,

<http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=10418>.

¹⁰ Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2004) a Chyfrifiad 2001, tabl C0055 a gomisiynwyd. Sylwer: mae'r tablau a gomisiynwyd ar gael gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

¹¹ Cyfrifiad 2001, tabl S144.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg fod o gwmpas 8% o'r holl gyplau ifainc (a chymedr eu hoedran o dan 36) â'r ddau'n gallu siarad Cymraeg ac o'r rheini, llai na 60% oedd â'r ddau'n siarad Cymraeg yn rhugl. O ffynhonnell arall eto, cyfrifiad blynyddol yr ysgolion cynradd, cawn fod 6.3% o'r disgyblion cynradd yn rhugl ac yn siarad Cymraeg gartref yn ôl penaethiaid yr ysgolion yn 2000/01. (Ers newid dull casglu'r data yn Ionawr 2003, i ddibynnu ar ddatganiad rhieni yn hytrach na phenaethiaid ysgol mae'r ganran hon wedi bod yn uwch ond ei thuedd eto i'w gweld wedi cychwyn ar i lawr, gan ostwng o lefel o gwmpas 8.3% rhwng 2003 a 2006 i lefel o gwmpas 7.6% rhwng 2007 a 2011.)

Bydd pob plentyn yn dysgu iaith gartref ac mae dysgu iaith (neu ieithoedd) yn golygu fod gan y plentyn sgil yn yr iaith cyn dechrau gadael y cartref i dderbyn addysg. Dywedwn fod yr iaith yn cael ei throsglwyddo yn y cartref: mae'r iaith yn cael ei hatgynhyrchu. Wrth gael ei dysgu yn y cartref mae'r plentyn yn profi clywed a siarad yr iaith fel peth hollol normal. (Mae profiad y plentyn sy'n dechrau dysgu'r Gymraeg y tu allan i'r teulu braidd yn wahanol ran amlaf y dyddiau hyn. Hyd yn oed os bydd yn cael ei drochi yn y Gymraeg trwy fynychu cylch meithrin Cymraeg neu ysgol cyfrwng Cymraeg, yn y rhan fwyaf o leoedd bydd llawer o'i gymheiriaid, ei gyd-ddisgyblion, o gefndiroedd lle nad arferir y Gymraeg gartref ychwaith. Yn eu profiad hwy, nid peth normal fydd siarad Cymraeg.) Yn 2001, roedd 46% o'r plant 3 oed oedd yn gallu siarad Cymraeg yn byw mewn cartrefi lle roedd yr oedolion yn gallu siarad Cymraeg. Lle roedd dau riant oedd yn gallu siarad Cymraeg 79% o'r plant 3 oed oedd hefyd yn gallu siarad yr iaith gan olygu fod 481 o blant wedi eu magu'n ddi-Gymraeg mewn teuluoedd lle roedd y ddau riant yn gallu siarad Cymraeg. O'r plant 3 oed mewn teuluoedd lle dim ond un o'r ddau riant oedd yn gallu siarad Cymraeg, dim ond 33% o'r plant a oedd yn gallu siarad Cymraeg (37% lle siaradai'r fam Gymraeg, 29% lle'r tad oedd yn gallu ei siarad). Roedd 2,424 o blant y teuluoedd hyn wedi eu magu'n ddi-Gymraeg.¹² Mae'r niferoedd hyn yn sylweddol.

Gwyddom fod maint cartrefi wedi bod yn lleihau ers degawdau. Amcanestyniad Llywodraeth Cymru yw y bydd y cyfartaledd wedi gostwng o 2.36 o bobl mewn cartref yn 2001 i 2.23 erbyn 2011.¹³ Prif nodwedd y newid yw y bydd canran uwch o'r holl gartrefi yn rhai un person. Yn 2001 roedd 354 mil cartref un person, 29.2% o'r cyfan. Yr amcanestyniad ar gyfer 2011 yw y bydd 430 mil, 32.2% o'r cyfan, ac erbyn 2023 y bydd 543 mil, 36% o'r cyfan. Yn y flwyddyn honno rhagwelir y bydd 385 mil o gartrefi'n cynnwys plant, ychydig dros chwarter y cyfan. Yn 2001, roedd 10.9% o'r siaradwyr Cymraeg, 63 mil o bobl, yn byw ar eu pennau eu hunain.¹⁴ Os bydd 543 mil o gartrefi un person erbyn 2023 mae'n bosibl y gallai fod dros 100 mil o siaradwyr Cymraeg yn byw ar eu pennau eu hunain. I'r rheini nid yw 'iaith y cartref' yn golygu y bydd ganddynt gyfle i siarad yr iaith gartref. Bydd eu defnydd o'r iaith yn y cartref yn oddefol: bydd gwrando ar y radio a

¹² Cyfrifiad 2001, tabl C0863 a gomisiynwyd.

¹³ Llywodraeth Cymru (2010b).

¹⁴ Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2004) a Chyfrifiad 2001, tabl C0055 a gomisiynwyd.

gwyllo'r teledu'n bwysicach iddynt mae'n debyg, yn arbennig i'r rhai hŷn, er nid ymhlith yr henoed yn unig y bydd y duedd i fod yn byw ar eu pennau eu hunain yn cynyddu.

3.4 Defnydd

Gwyddom mai rhoi rhyw fesur o *allu* yn yr iaith y mae canrannau'r plant sy'n cael eu hasesu yn erbyn y maes llafur ar gyfer siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf—er nad yw'r Gymraeg yn iaith gyntaf i lawer heblaw yn yr ystyr ei bod yn iaith gyntaf addysg—neu'r canrannau o faint o blant sydd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Tyfu oherwydd dewis rhieni na allant, ran amlaf, siarad Cymraeg eu hunain y mae addysg cyfrwng Cymraeg. Saesneg yw cyfrwng cyfathrebu'r rhieni hynny rhyngddynt hwy eu hunain gartref a Saesneg felly fydd prif gyfrwng y cartref, hyd yn oed os bydd rhai amrywiadau yn y defnydd gydag, er enghraifft, un o'r rhieni'n siarad Cymraeg â'r plant. Yn naturiol, ran amlaf bydd gan y plant well afael ar y Saesneg nag ar y Gymraeg pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol (hyd yn oed os oedd y rhieni wedi sicrhau bod unrhyw rai oedd yn gofalu am y plant yn eu blynyddoedd cynnar yn medru'r Gymraeg, a'u bod wedi mynychu cylch Ti a Fi neu feithrin Cymraeg). Er y dônt i fedru siarad Cymraeg trwy eu trochi mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, Saesneg fydd yn parhau i fod yn iaith gyntaf iddynt ran amlaf. Bydd plentyn yn treulio'n agos at dri chwarter o'i amser y *tu allan* i'r ysgol.¹⁵ Mewn ardal heb ganran uchel yn siarad Cymraeg a heb deulu Cymraeg ni fyddai ganddo lawer o gyfle i siarad Cymraeg hyd yn oed pe caniateid hynny gan normau ei gyfoedion.

Gwyddom o Arolygon Defnydd Iaith 2004–06 fod canran is o bobl 16–29 oed yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg yn ddyddiol na'r un garfan oed arall. (Mae canran uwch o'r rhai iau'n siarad Cymraeg yn ddyddiol efallai oherwydd eu bod yn siarad Cymraeg yn yr ysgol—o leiaf gyda'r athrawon?) Yn ogystal ag oedran mae'r gallu i siarad Cymraeg yn rhugl, byw mewn ardal lle mae canran gymharol uchel yn gallu siarad Cymraeg, a byw mewn cartref lle mae pawb yn gallu siarad Cymraeg yn ffactorau eraill sy'n gysylltiedig â siarad Cymraeg bob dydd.¹⁶

Er bod y system addysg yn cynhyrchu mwy a mwy o siaradwyr rhugl, nid yw'r tueddiadau o ran y ffactorau cadarnhaol eraill yn galonogol. Fel y dangoswyd uchod, mae'r ganran o blant sy'n cael ei magu â'r Gymraeg yn iaith y cartref yn isel, gan adlewyrchu prinder cynyddol cartrefi lle mae'r rhieni'n gallu siarad Cymraeg a'r prinder hwnnw'n ganlyniad i ddemograffi'r iaith. Mae'r twf a ragwelir yn nifer y cartrefi un person yn mynd i gyfyngu ar y nifer o bobl fydd yn siarad Cymraeg bob dydd. Heb rywun arall yn y cartref bydd dylanwad y byd y tu allan i'r tŷ yn bwysicach iddynt, o ran defnydd gweithredol llafar o'r iaith (er hwyrach y

¹⁵ Yn ôl Arolwg Defnydd Amser 2000 y DU byddai plentyn 8 i 15 oed yn treulio 229 munud y dydd ar gyfartaledd ar ei astudiaethau, 28% o'i amser ar ddeffro. Byddai'n treulio 139 munud yn gwyllo'r teledu neu DVD, 17% o'i amser effro, a 25 munud yn chwarae gemau ar y cyfrifiadur (rhaid cofio bod hyn cyn dyfodiad Facebook, ac yn y blaen), a'r gweithgaredd hwnnw i raddau helaeth iawn yn Saesneg. Gweler Aldekoa a Gardner (2002) lle dyfynnir Zalbide (Artola et al, 1991) yn sôn am y sefyllfa debyg yng Ngwlad y Basg.

¹⁶ H. Jones (2008).

gellid meddwl y byddai argaeledd cyfryngau Cymraeg o fewn y cartref yn bwysicach nag o'r blaen i gynnal eu defnydd goddefol o'r iaith).

Gwyddom nad pawb sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl y cyfrifiad sy'n gallu ei siarad yn rhugl. Mae rhuglder plant eisoes wedi ei drafod yn adran 3.3 uchod. Yn ôl Arolygon Defnydd Iaith 2004–06 58% o'r holl siaradwyr Cymraeg oedd yn ystyried eu hunain yn siaradwyr rhugl. (Dim ond 47% o'r plant 3 i 15 oedd yn gallu siarad Cymraeg oedd yn rhugl.) Adroddodd Cyfrifiad 2001 fod 135 mil o gartrefi cyfan gwbl Cymraeg â 258 mil o bobl (3 oed a throsodd) yn byw ynddynt. Rhoddodd yr Arolygon Defnydd Iaith amcangyfrif bras tebyg am y cyfnod 2004–06 o 278 mil o bobl mewn cartrefi cyfan gwbl Gymraeg. Dangosodd hefyd fod 28% o'r unigolion yn y cartrefi hynny yn dweud eu bod naill ai'n siarad Saesneg yn bennaf neu bob amser, sy'n cyfateb i bron 78 mil. O'r 78 mil yna, roedd 25 mil o siaradwyr rhugl a 53 mil nad oeddent yn rhugl.¹⁷

Amcangyfrifir fod 184 mil o siaradwyr rhugl mewn cartrefi cyfan gwbl Gymraeg sy'n siarad o leiaf gymaint o Gymraeg â Saesneg gartref a 31 mil arall sy'n gwneud defnydd tebyg o'r iaith ond eu bod yn byw mewn cartrefi lle nad yw pawb yn gallu siarad Cymraeg.¹⁸ Gydag o gwmpas 2.3 o bobl ymhob cartref byddai'r ffigurau hyn yn awgrymu fod rhyw 94 mil o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad o leiaf gymaint â'r Saesneg *gan siaradwyr rhugl*. Ar ben hynny, mae 24 mil o siaradwyr nad ydynt yn rhugl sy'n siarad o leiaf gymaint o Gymraeg â Saesneg gartref (mewn cartrefi cyfan gwbl Gymraeg a rhai cymysg) a allai olygu 10 mil arall o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad o leiaf gymaint â'r Saesneg.¹⁹

¹⁷ Amcangyfrifodd S4C o'u panel BARB—sydd â sampl o 600 o gartrefi—ym Mai 2010 fod 58,000 o gartrefi ble mae pawb yn gallu siarad Cymraeg i ryw fath o ruglder, ond ble mai Saesneg yw iaith y cartref a bod hyn yn cyfateb i dros 100 mil o unigolion.

¹⁸ Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2008).

¹⁹ Ibid.

4 Y cyfrifiad

4.1 Hanes y Gymraeg yn y cyfrifiad

Gan mai am ystadegau'r cyfrifiad y bydd pobl gyffredin yn meddwl pan sonnir am ystadegau am y Gymraeg, cystal dechrau gydag e, a chystal dechrau yn y dechrau.

Cynhaliwyd y cyfrifiad cyntaf yng Nghymru yn 1801 ond ni ofynnwyd cwestiwn am y Gymraeg tan Gyfrifiad 1891.²⁰ Ers hynny, mae o leiaf un cwestiwn wedi ei gynnwys ymhob cyfrifiad.²¹ Cwestiynau am siarad Cymraeg neu Saesneg gynhwyswyd hyd at 1971 ond yng Nghyfrifiad 1971, cynhwyswyd cwestiwn am ddarllen ac ysgrifennu Cymraeg i'r rhai a ddywedodd eu bod yn siarad Cymraeg. Yn 1981 y gofynnwyd i'r siaradwyr Cymraeg am y tro olaf a oedden nhw'n siarad Saesneg. Yn 2001, newidiwyd ffurf y cwestiwn a gofyn yn ddiamwys am allu. Yr un pryd, gofynnwyd hefyd am y tro cyntaf a oedd pobl yn gallu deall Cymraeg llafar.

4.2 'Cymry' Cyfrifiad 2001

Cyfrifiad pwnc llosg y 'blwch ticio' oedd Cyfrifiad 2001²². Gofynnwyd am ethnigrwydd yn y cyfrifiad hwnnw. Roedd y cwestiwn yn cynnwys categori 'Gwyn' a gynhwysodd tri is-gategori: 'Prydeinig', 'Gwyddelig' a 'Unrhyw gefndir Gwyn arall'. Er nad oedd blwch ticio penodol ar gyfer 'Cymreig', yn sgîl ymgyrch a gafodd gyhoedduswyd mawr, ychwanegodd 418 mil o bobl (14% o'r boblogaeth) eu bod yn 'Gymry'.²³ Dychwelwyd 3,700 o ffurflenni â sticer yn cynnwys blwch ticio ychwanegol wedi ei glynu dros y cwestiwn am ethnigrwydd.²⁴ Roedd 15.7% wedi ysgrifennu ateb, y rhan fwyaf yn ymateb fel 'Cymreig' nad oedd wedi ei restru gyda blwch ticio.²⁵ Er nad oedd y pwnc hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cwestiynau am yr iaith, roedd yr ymgyrch cysylltiedig yn tynnu cyhoedduswyd at y cyfrifiad. Mae digwyddiadau o'r fath, yn ogystal â digwyddiadau eraill oedd yn gyfoes â'r cyfrifiad, yn gallu dylanwadu ar y ffordd y mae pobl yn ymateb. Mae'n bosibl y bydd rhai wedi ateb y cwestiynau am yr iaith mewn ffordd wahanol i sut y byddent wedi ymateb pe na bai'r pwnc wedi codi ond mae'n amhosibl gwybod beth oedd effaith hynny ar y canlyniadau.

²⁰ G. Jenkins (1999).

²¹ Vision of Britain: language spoken in Wales and Monmouthshire, http://www.visionofbritain.org.uk/text/chap_page.jsp?t_id=Cen_Guide&c_id=13&cpub_id=0, cyrchwyd 17 Tachwedd 2011.

²² G. Vidler (2001), t. 15–8.

²³ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol [SYG] (2004b), t. 6.


²⁴ Office for National Statistics (2004), t. 5.

²⁵ Office for National Statistics (2005), t. 65.

4.3 Canlyniadau o 1891 at 2001


Gellir disgrifio'r tueddiadau o 1891 at 1971 yn weddol syml: gydag ychydig o eithriadau, gostyngodd y ganran oedd yn siarad Cymraeg ymhob grŵp oedran o'r naill gyfrifiad i'r llall. Cynyddodd y nifer absoliwt o siaradwyr o 1891 i gyrraedd bron i filiwn (977,366) yn 1911.

Ffigur 1: % y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, 1911–2001




Mae'r ddau siart nesaf yn edrych ar sut y newidiodd y ganran mewn gwahanol garfannau oed penodol. Hyd at Gyfrifiad 1971, mae'r darlun eto yn weddol syml. Roedd y ganran oedd yn siarad Cymraeg ar ei huchaf ymhlith y grŵp oedran hynaf, a'r ganran yn gostwng wrth fynd trwy'r grwpiau oed nes cyrraedd yr isaf ymhlith y plant ieuengaf 3 i 4 oed. Gyda chanlyniadau Cyfrifiad 1971 y gwelir newid yn y patrwm am y tro cyntaf pan gododd y ganran a oedd yn siarad Cymraeg ymhlith y plant 10 i 14 oed i fod yn uwch na'r ganran yn y grŵp oedran nesaf atynt, sef y rhai 15 i 24 oed. Erbyn Cyfrifiad 1981 roedd y ganran ymhlith y plant 5 i 9 oed hefyd yn uwch na chanran y rhai 15 i 24 oed.

Ffigur 2: % y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, 1911–2001, yn ôl grŵp oed




Ffigur 3: % yn siarad Cymraeg yn ôl oed, 1911–2001: pobl o dan 25 oed



Mae'n werth nodi bod hwn yn awgrymu bod y rhod wedi troi, o ran y ganran yn gallu siarad Cymraeg ymhlith y plant 10 i 14, yn ystod y 1970au, cyn llawer o ddigwyddiadau sy'n cael eu hystyried yn bwysig yn

hanes yr iaith, er enghraifft sefydlu S4C yn 1982 a phasio Deddf Diwygio Addysg 1988. Sefydlwyd Mudiad Ysgolion Meithrin yn 1971: yn y flwyddyn honno cofnodwyd fod 67 cylch meithrin.^{26,27}

Ffigur 4: % yn siarad Cymraeg yn ôl oed, 1911-2001: pobl 25 oed a throsodd



Yn ddaearyddol, roedd canrannau sylweddol yn siarad Cymraeg ar draws y rhan fwyaf o'r wlad yn 1891, ond, gan symleiddio'n sylweddol, gyda phob cyfrifiad roedd yr ardaloedd yn crebachu tua'r gorllewin. Mae'r newidiadau daearyddol o 1961 i 2001 wedi eu dadansoddi'n helaeth, mewn cyhoeddiadau gan Aitchison a Carter yn arbennig, ac nid eir felly i fanylion y newidiadau yma.²⁸

4.4 Y newidiadau rhwng 1991 a 2001

4.4.1 Yn ôl oed

Am y tro cyntaf erioed, dangosodd Cyfrifiad 2001 fod y ganran a oedd yn siarad Cymraeg wedi cynyddu. Roedd 20.8% o'r boblogaeth 3 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg yn 2001, o'i chymharu â 18.7% oedd yn siarad Cymraeg yn 1991.²⁹ Newidiodd y cwestiwn a ofynnwyd am yr iaith rhwng 1991 a 2001. 'A yw'r person yn siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg?' oedd y cwestiwn yn 1991 ond 'Allwch chi ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?' a ofynnwyd yn 2001. Ni ellir ond dyfalu i ba raddau, os o gwbl, yr effeithiodd y newid hwn ar y

²⁶ Newidiodd ei enw i Mudiad Meithrin yn 2011.

²⁷ Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg (1993).


²⁸ J. Aitchison, J. a H. Carter (1985, 1994, 2004).

²⁹ OPCS (1994). Canran 1991 ar sail y boblogaeth breswyl. Ar sail y boblogaeth oedd yn bresennol, sef y sail a ddefnyddiwyd ar gyfer canrannau a ddangoswyd am y cyfrifiadau blaenorol, 18.5% oedd y ganran.

canlyniadau.³⁰ Mae'n annhebygol bod ei effaith yn fawr. Mae cymharu niferoedd yr oedolion a ddywedodd eu bod yn siarad Cymraeg yn 1991 â'r niferoedd yn yr un garfan oedran a ddywedodd eu bod yn *gallu* siarad Cymraeg yn 2001 yn gwneud hynny'n weddol amlwg. Yn Ffigur 5, er enghraifft, gellir gweld effaith yr Ail Ryfel Byd yng nghanlyniadau tri chyfrifiad. Yn 1981 gwelir ymchwydd yn niferoedd y siaradwyr o gwmpas y rhai 34 oed, sef pobl a anwyd yn 1947, ddwy flynedd ar ôl diwedd y rhyfel. Mae'r un ymchwydd i'w weld o gwmpas y rhai 44 oed yn 1991 a'r rhai 54 oed yn 2001. Nid union yr un bobl fydd wedi eu cyfrif wrth gwrs oherwydd rhwng y cyfrifiadau bydd rhai wedi marw, rhai wedi allfudo ac eraill wedi mewnfudo. Beth sy'n drawiadol, er gwaetha'r newidiadau yn y diffiniadau, yw cyn lleied o newid a fu yn eu niferoedd: roedd 6,329 yn 1981, 6,568 yn 1991 a 6,635 yn 2001.

Mewn gwrthgyferbyniad i sefydlogrwydd niferoedd y siaradwyr hŷn, mae dwy linell yn Ffigur 5 wedi eu hychwanegu er mwyn tynnu sylw at yr anghysondebau sydd i'w gweld o ran niferoedd y siaradwyr ifainc. Gellir priodoli'r cynnydd yn y niferoedd o 3 i 12 oed i effaith addysg. Y broblem, o ran dyfodol yr iaith, yw bod y niferoedd yn gostwng wedi i'r plant dyfu. Er enghraifft, er bod 10 mil o siaradwyr 12 oed yn 1991 nid oedd ond 6 mil o siaradwyr 22 oed ddeng mlynedd yn ddiweddarach yn 2001. Mae dau brif eglurhad am y gwahaniaeth: bydd rhai a gyfrifwyd fel siaradwyr yn 1991 wedi cofnodi nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2001, a bydd rhai wedi symud o Gymru. Mae dadansoddiadau'n awgrymu mai allfudo a gafodd yr effaith mwyaf.³¹

Ffigur 5: Cymharu niferoedd y siaradwyr yn 1981, 1991 a 2001 yn ôl oed




³⁰ G. Higgs, C. Williams a D. Dorling (2004).

³¹ H. Jones (2005, 2010).

4.4.2 Yn ôl daearyddiaeth

Mae Ffigur 6 yn dangos sut y newidiodd y ganran a oedd yn gallu siarad Cymraeg rhwng 1991 a 2001 yn ôl sir. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn awdurdodau de-ddwyrain Cymru'n arbennig ond gostwng wnaeth y canrannau yn y pedwar awdurdod oedd â'r canrannau uchaf yn siarad Cymraeg, sef Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin.³² Yn 2001 lleiafrif—41% (239 mil)—o'r holl siaradwyr oedd yn byw yn y pedair sir hynny lle roedd mwyafrif y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg o'i chymharu â 48% (245 mil) yn 1991 (Tabl 1). Mae dosbarthiad y siaradwyr yn amrywio'n ôl oed (fel y'i trafodwyd yn adran 3.2) ac os, yn lle ystyried siaradwyr o bob gallu, yr ystyriwn siaradwyr rhugl yn unig, cawn ddarlun ychydig yn wahanol. Dychwelwn at hynny pan drafodir rhuglder ymhellach ymlaen yn adran 6.1.

Ffigur 6: Newid rhwng 1991 a 2001: % yn siarad Cymraeg yn ôl ardal (pawb 3 oed a throsodd)



Mae Map 1 yn dangos sut y newidiodd y ganran oedd yn siarad Cymraeg rhwng 1991 a 2001 ar lefel adran etholiadol (yr enw swyddogol yng Nghymru am beth a oedd yn arfer cael ei alw'n ward).

³² Bu newid yn y ffordd yr ymdriniodd y cyfrifiad â myfyrwyr rhwng 1991 a 2001 a gallai hyn wneud i'r gostyngiad yng Ngheredigion ymddangos yn fwy na phe na bai newid.


Tabl 1: % yn gallu siarad Cymraeg, 1991 a 2001, yn ôl awdurdod lleol

Awdurdod lleol	Yn siarad Cymraeg		Yn gallu siarad Cymraeg ³³		Newid	
	1991		2001		Pwyntiau canran	
	Nifer ³⁴	Canran	Nifer	Canran	Nifer	
Ynys Môn	41,246	62.0	38,893	60.1	-2,353	-1.9
Gwynedd	78,719	72.1	77,846	69.0	-873	-3.1
Conwy	31,448	30.6	31,298	29.4	-150	-1.2
Sir Ddinbych	22,870	26.9	23,760	26.4	890	-0.5
Sir y Fflint	18,403	13.5	20,599	14.4	2,196	0.9
Wrecsam	16,360	13.8	18,105	14.6	1,745	0.8
Powys	23,770	20.7	25,814	21.1	2,044	0.4
Ceredigion	36,020	59.1	37,918	52.0	1,898	-7.1
Sir Benfro	19,729	18.3	23,967	21.8	4,238	3.5
Sir Gaerfyrddin	89,206	54.8	84,196	50.3	-5,010	-4.5
Abertawe	28,590	13.3	28,938	13.4	348	0.1
Castell-nedd Port Talbot	23,762	17.9	23,404	18.0	-358	0.1
Pen-y-bont ar Ogwr	10,282	8.3	13,397	10.8	3,115	2.5
Bro Morgannwg	7,674	6.8	12,994	11.3	5,320	4.5
Rhondda Cynon Taf	20,035	9.0	27,946	12.5	7,911	3.5
Merthyr Tudful	4,225	7.5	5,532	10.2	1,307	2.7
Caerffili	9,733	6.0	18,237	11.2	8,504	5.2
Blaenau Gwent	1,539	2.2	6,417	9.5	4,878	7.3
Torfaen	2,119	2.4	9,780	11.1	7,661	8.7
Sir Fynwy	1,666	2.2	7,688	9.3	6,022	7.1
Casnewydd	2,877	2.3	13,135	10.0	10,258	7.7
Caerdydd	18,071	6.6	32,504	11.0	14,433	4.4
Cymru	508,098	18.7	582,368	20.8	74,270	2.1

³³ SYG (2004a), t. 39.

³⁴ NOMIS, Cyfrifiad 1991 L67W.

Map 1: Y newid rhwng Cyfrifiad 1991 a 2001 yn y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg, pawb 3 oed a throsodd



Dangosodd Ffigur 5 sut y bu cynnydd mawr yn y niferoedd oedd yn siarad Cymraeg ymhlith y plant. Mae Tabl 2 yn rhoi'r newidiadau yn ôl grŵp oedran fesul awdurdod lleol. Fe welir mai yn awdurdodau'r de-ddwyrain y bu'r cynnydd mwyaf. Nid twf addysg cyfrwng Cymraeg oedd yn bennaf cyfrifol am hynny ond Deddf Diwygio Addysg 1988 gan i'r ddeddf honno arwain at ehangu mawr ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith, yn yr hen sir Gwent yn arbennig. Trafodir hynny ymhellach ymlaen pan drow'n i ystyried addysg.

Tabl 2: Newid yn y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg, 1991 i 2001, yn ôl sir (2003) ac yn ôl oedran

Awdurdod lleol	Pwyntiau canran					
	Grŵp oedran				40–64	65+
	3–4	5–15	16–24	25–39		
Ynys Môn	0.7	-2.4	6.7	1.1	-4.2	-3.2
Gwynedd	-1.0	1.2	-11.9	2.2	-4.2	-4.2
Conwy	0.4	1.5	5.6	0.4	-4.6	-2.6
Sir Ddinbych	-2.6	5.3	3.3	-0.1	-3.7	-1.9
Sir y Fflint	0.1	6.0	4.7	1.5	-1.1	-3.3
Wrecsam	1.8	10.9	6.2	-0.1	-2.7	-3.5
Powys	0.6	11.8	8.1	-0.7	-3.5	-3.9
Ceredigion	-3.3	2.4	-21.7	-3.4	-6.3	-6.1
Sir Benfro	5.8	20.2	7.7	0.2	-1.2	-1.7
Sir Gaerfyrddin	-2.7	5.2	-0.2	-5.0	-8.3	-7.7
Abertawe	1.5	11.4	3.5	-0.5	-2.8	-5.8
Castell-nedd Port Talbot	1.6	13.3	4.5	0.0	-3.3	-7.0
Pen-y-bont ar Ogwr	2.2	12.5	7.2	2.0	0.0	-3.7
Rhondda Cynon Taf	4.0	13.7	10.1	3.1	0.5	-4.4
Merthyr Tudful	1.9	12.3	8.6	2.3	0.3	-5.1
Caerffili	3.9	20.8	9.6	2.8	1.0	-1.0
Blaenau Gwent	5.3	33.0	10.1	1.2	0.9	0.5
Torfaen	7.7	40.8	11.4	1.7	0.7	0.4
Sir Fynwy	6.2	38.7	6.7	1.1	0.9	0.5
Casnewydd	6.7	37.2	7.8	1.0	0.7	0.3
Bro Morgannwg	3.6	17.6	7.3	2.2	1.0	0.4
Caerdydd	4.6	15.2	4.7	3.4	1.3	0.2
Cymru	2.6	14.9	5.1	1.0	-1.4	-3.1


Ffynhonnell: Tabl L67W Cyfrifiad 1991; Tabl CAS146 Cyfrifiad 2001. Ill dau o NOMIS.

Canlyniad y newidiadau hyn oedd bod llai o gymunedau lle roedd canrannau uchel yn gallu siarad Cymraeg er bod hefyd lai o gymunedau lle roedd canrannau isel iawn yn gallu siarad Cymraeg. Yn anffodus, o ran defnydd y Gymraeg, mae ardaloedd lle mae canran uchel yn gallu siarad yr iaith yn bwysicach nag ardaloedd sydd â chanrannau cymedrol neu'n isel. Mae'r mynegrif arwahanrwydd (Ffigur 7) yn adlewyrchu y tebygolrwydd y bydd siaradwr Cymraeg yn cwrdd â siaradwr Cymraeg arall ar hap.³⁵ Rhwng 1991 a 2001 gostyngodd y mynegrif (wedi ei gyfrifo ar sail wardiau/adrannau etholiadol) o 0.443 i 0.374.³⁶

³⁵ H. Jones (2007).

³⁶ Mae mynegrifau hyn wedi eu cyfrifo yng Ngogledd Iwerddon i gymharu dosbarthiad daearyddol Catholigion a Phrotestaniaid. Gwerth mynegrif y Catholigion oedd 0.723 yn 2001 a 1991. I. Shuttleworth, C. Lloyd, a D. Martin (2011).

Ffigur 7: Y tebygolrwydd y bydd siaradwr Cymraeg yn cwrdd â siaradwr Cymraeg ar hap (y mynegrif arwahanrwydd) a'r ganran yn gallu siarad Cymraeg, 1991 a 2001, yn ôl oed



Mae Tablau 3 a 4 yn defnyddio daearyddiaeth ffiniau Cynghorau Cymuned i gyflwyno'r sefyllfa yn 1991 a 2001 fel proffiliau crynhoed. Gan ganolbwyntio ar y Cymunedau lle roedd dros 70% yn siarad Cymraeg (a ddefnyddiwyd yn sail i darged strategaeth *laith Pawb* y Llywodraeth yn 2003), ceir y canlynol: yn 1991 roedd bron un o bob pedwar (22.7%, 115 mil) o'r siaradwyr Cymraeg yn byw mewn Cymunedau lle roedd dros 70% yn siarad Cymraeg; yn 2001, ychydig yn llai nag un mewn saith (13.8%, 80 mil) o'r siaradwyr oedd yn byw mewn Cymunedau o'r fath. Roedd 92 Cymuned lle roedd dros 70% yn siarad Cymraeg yn 1991; yn 2001 roedd 54.

Tabl 3: Dosbarthiad y Cymunedau yn ôl y ganran oedd yn siarad Cymraeg, 1991³⁷

% yn siarad Cymraeg (x,y] = yn fwy na x% ac yn llai neu'n hafal i y%	Nifer y Cymunedau	% o'r holl Gymunedau	Nifer yn siarad Cymraeg (miloedd)	% y cyfanswm yn siarad Cymraeg
[0,10]	345	39.9	85	16.7
(10,20]	118	13.7	65	12.8
(20,30]	52	6.0	34	6.7
(30,40]	39	4.5	29	5.7
(40,50]	42	4.9	48	9.4
(50,60]	80	9.3	54	10.6
(60,70]	96	11.1	78	15.4
(70,80]	67	7.8	72	14.1
(80,90]	25	2.9	44	8.6
Cyfanswm	864	100	508*	100

* Nid yw'n gyfanswm y cydrannau oherwydd talgrynnu.

Tabl 4: Dosbarthiad y Cymunedau yn ôl y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg, 2001³⁸


% yn gallu siarad Cymraeg (x,y] = yn fwy na x% ac yn llai neu'n hafal i y%	Nifer y Cymunedau	% o'r holl Gymunedau	Nifer yn gallu siarad Cymraeg (miloedd)	% y cyfanswm yn gallu siarad Cymraeg
[0,10]	139	16.1	53	9.1
(10,20]	328	37.9	187	32.2
(20,30]	59	6.8	39	6.7
(30,40]	47	5.4	43	7.5
(40,50]	55	6.4	45	7.7
(50,60]	96	11.1	66	11.3
(60,70]	87	10.1	68	11.8
(70,80]	40	4.6	51	8.8
(80,90]	14	1.6	29	5.0
Cyfanswm	865	100	582*	100

* Nid yw'n gyfanswm y cydrannau oherwydd talgrynnu.

³⁷ Cyfrifiad 1991. Wedi'i seilio ar ganrannau heb eu talgrynnu.


³⁸ Cyfrifiad 2001, tabl CAS146. Wedi'i seilio ar ganrannau heb eu talgrynnu.

Map 2: % yn gallu siarad Cymraeg, 2001



(Daw'r map o boster a ddarparodd y Bwrdd i ysgolion yn 2010.)

Map 3: Nifer yn gallu siarad Cymraeg, 2001



(Daw'r map o boster a ddarparodd y Bwrdd i ysgolion yn 2010).

5 Sgiliau, yn ôl Cyfrifiad 2001

5.1 Cefndir


Mae'r cyfrifiad yn holi am y gallu i ddeall Cymraeg llafar, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn ogystal â'r gallu i siarad. Gan mai tic syml roddodd pobl i ddweud eu bod naill ai'n gallu siarad Cymraeg neu ddim, mae 'gallu siarad', fel y'i mesurwyd gan y cyfrifiad, yn cwmpasu rhychwant eang o fedrusrwydd, fel y mae deall, darllen ac ysgrifennu. Ystyrir maes o law dystiolaeth am y lefelau gwahanol o allu sydd wedi eu cwmpasu ac wedyn ystyried y defnydd y mae pobl yn eu gwneud o'r sgiliau hyn.

Roedd 661,526 o bobl yn gallu deall Cymraeg llafar yn ôl Cyfrifiad 2001, 582,368 yn gallu siarad Cymraeg, 567,152 yn gallu ei darllen a 495,519 yn gallu ei hysgrifennu. Mae tuedd i feddwl bod y rhain yn ffurfio hierarchaeth, gyda'r gallu i ysgrifennu Cymraeg fel y sgil uchaf uwchben darllen, siarad a deall yn y drefn honno. Mae canlyniadau'r cyfrifiad yn awgrymu nad yw pobl yn ei gweld hi mor syml â hynny. Mae'n bosibl fod rhai sy'n gallu siarad Cymraeg yn neidio heibio i'r cwestiwn am eu gallu i ddeall Cymraeg gan gymryd nad yw hynny'n berthnasol iddynt. (O ddadansoddi manylion sampl 3% o'r cyfan ymatebodd i Gyfrifiad 2001, cawn fod bron 15%—sy'n trosi i roi amcangyfrif o 90,000—o'r rhai sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg hefyd yn dweud na allant ei deall.³⁹) Mae'r ganran sy'n gallu darllen Cymraeg yn debyg iawn i'r ganran sy'n gallu ei siarad ymhlith oedolion ond mae bwlch amlwg rhwng y canrannau hynny a chanran y rhai sy'n gallu ysgrifennu Cymraeg (Ffigur 8).

Mae'r siartiau'n amlygu cwmp yn y ganran sy'n meddu ar yr holl wahanol sgiliau rhwng y rhai 55 oed a'r rhai 54 oed, hynny yw rhwng y rhai a gafodd eu geni yn 1946 neu'n gynharach a'r rhai a gafodd eu geni wedyn. Gellir tybio mai effaith yr Ail Ryfel Byd yw hwn: cynnydd mewn priodasau cymysgiaith ar ôl y rhyfel, effaith symud poblogaeth, neu dyfudiad ieithyddol yn sgîl gwasanaethu yn y lluoedd arfog? (Yn 2001 roedd 35,592 o bobl 55 oed a 45,201 o rai 54 oed.)

³⁹ Cyfrifiad 2001, 'Sample of Anonymised Records' (SARs) unigolion.

Ffigur 8: Cymru: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001



5.2 Yn ôl rhyw


Un nodwedd werth sylwi arni yw'r gwahaniaeth rhwng dynion a merched (Ffigur 9). Mae canran uwch o ferched nag o ddynion yn honni eu bod yn meddu ar bob un o'r sgiliau unigol, ar draws yr oedrannau o 5 oed hyd at o gwmpas 55 i 65, gan ddibynnu ar ba sgil sydd dan sylw. Go brin bod y nodwedd hon yn amlygu gwahaniaeth yng ngallu gwrthrychol y ddau ryw. Haws meddwl ei fod yn adlewyrchu'n bennaf gwahaniaeth rhwng agweddau'r ddau ryw, yn arbennig pan ystyrir y gallu i siarad. Mae merched yn perfformio'n well mewn arholiadau Cymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith) a gellir meddwl bod hynny'n hwb i fwy ohonynt nag o ddynion i gofnodi eu hunain fel rhai sydd â gallu siarad Cymraeg. Mae tystiolaeth o arolygon yn dangos bod canran uwch o ddynion (o'r ganran is sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg) yn hawlio eu bod yn rhugl o'u cymharu â'r merched.

5.3 Grwpiau ethnig


Roedd gwahaniaethau mawr rhwng y grwpiau ethnig gwahanol o ran eu sgiliau yn y Gymraeg yn 2001 (Ffigur 10). Nifer fach o oedolion, 1,144 (20 oed neu drosodd), o'r grwpiau ethnig heblaw 'Gwyn' oedd yn gallu siarad Cymraeg.⁴⁰

⁴⁰ Cyfrifiad 2001, tabl T39.

Ffigur 9: Cymru: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl rhyw ac oed, 2001



Ffigur 10: % yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl grŵp ethnigrwydd, 2001



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, tabl T39


5.4 Deall

Dywedodd 661,526 (23.6%) eu bod yn gallu deall Cymraeg a 138,416 (4.9%) mai deall Cymraeg oedd eu hunig sgil yn yr iaith.⁴¹

O Ffigur 8 gwelir bod canran uwch yn gallu deall Cymraeg llafar na'r ganran sy'n gallu ei siarad, darllen neu'i hysgrifennu yn gyffredinol ac yn bendant ymhlith y rhai hŷn na 19 oed. Ymhlith plant oed ysgol ymddengys nad yr un yw'r patrwm. Mae'n debyg bod rhai plant—neu eu rhieni—wedi cofnodi eu bod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg er na allent ei deall. Nid oes tystiolaeth ar gael ynghylch y rheswm am hynny. Gan fod hyn i'w weld amlycaf yn yr awdurdodau lle nad oes canran uchel o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg gellid dyfalu bod y plant yn dysgu Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol. Efallai eu bod yn ystyried rywsut y dylent gofnodi eu bod yn gallu darllen Cymraeg—efallai eu bod yn gallu darllen cerdd neu emyn—ac yn ei siarad—gan eu bod yn gallu ynganu geiriau ac ymateb i rai cwestiynau—ond nad ydynt yn gyfforddus yn hawlio bod hynny'n golygu eu bod yn gallu deall Cymraeg llafar yn gyffredinol.

Mae Map 4 yn dangos dosbarthiad y rhai a ddywedodd mai deall Cymraeg llafar yn unig y gallent ei gwneud, yn ôl adran etholiadol. Mae'n drawiadol mai ar hyd ymyl yr ardaloedd Cymraeg traddodiadol y cafwyd y canrannau uchaf.

Map 4: % yn deall Cymraeg llafar yn unig: pawb 3 oed a throsodd, Cyfrifiad 2001



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, tabl S133

⁴¹ Cyfrifiad 2001, tabl KS25.

5.5 *Llythrennedd, yn ôl awdurdod lleol*

Er y meddylir am y gallu i ddarllen ac i ysgrifennu Cymraeg ran amlaf wrth sôn am lythrennedd, ymddengys fod y gallu i ysgrifennu Cymraeg yn brinnach o lawer na'r gallu i'w darllen. Yn genedlaethol, 20.8 y cant oedd yn gallu siarad Cymraeg, 20.2 y cant oedd yn gallu ei darllen a 17.7 y cant oedd yn gallu ei hysgrifennu. Roedd 16.3 y cant (457,946) yn meddu ar y tri sgil, 1.4 y cant (38,384) yn gallu ei siarad a'i darllen ond ddim yn gallu ei hysgrifennu a 2.8 y cant (79,310) yn siarad Cymraeg ond ddim yn ei darllen na'i hysgrifennu. Amrywiai'r sefyllfa gryn dipyn o awdurdod i awdurdod ac yn ôl oed o fewn awdurdod.


Mae'r bwllch rhwng y canrannau a oedd yn gallu deall Cymraeg ac a oedd yn gallu siarad Cymraeg ymhlith y rhai oed ysgol uwchradd i'w weld yn awdurdodau hen sir Gwent yn bennaf ac yng ngweddill y de-ddwyrain ac yn Sir y Fflint (Ffigur 15). Yn yr hen Went (Ffigur 28 i Ffigur 31), mae bwllch i'w weld ymhlith y rhai iau, o dan 10 oed, hefyd. Mae hyn oll yn awgrymu mai effaith dysgu Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol—oedd yn ddatblygiad lled ddiweddar yn 2001 i'r rhan fwyaf o Went—yw achos y bwllch.

Mae effaith tybiedig yr Ail Ryfel Byd a grybwyllwyd uchod (adran 5.1) i'w gweld yn Abertawe (Ffigur 21), Castell-nedd Port Talbot (Ffigur 22), Sir Gaerfyrddin (Ffigur 20) a Cheredigion (Ffigur 19)—ond ddim i'r fath raddau yn Ynys Môn (Ffigur 11) ac i'r gwrthwyneb yng Ngwynedd lle roedd y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg ymhlith y rhai 54 oed yn uwch nag ymhlith y rhai 55 oed (Ffigur 12).

Mae'n ddiddorol sylwi hefyd fod y bwllch rhwng y ganran oedd yn deall Cymraeg a'r sgiliau eraill yn dueddol o fod yn gulach ymhlith y rhai dros 55 oed mewn llawer o'r awdurdodau. Gweler, er enghraifft, Pen-y-bont ar Ogwr (Ffigur 23) a Rhondda Cynon Taf (Ffigur 25) lle mae'n drawiadol ond hefyd Merthyr Tudful (Ffigur 26), Caerffili (Ffigur 27), Bro Morgannwg (Ffigur 24) ac eraill. Weithiau, mewn rhai o'r awdurdodau lle roedd y canrannau ar eu huchaf, cafwyd, ymhlith y rhai hŷn, y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg yn uwch na'r ganran oedd yn ei deall eto. Gweler Gwynedd (Ffigur 12) er enghraifft. Mae'n debyg mai adlewyrchu problem â chwestiwn y cyfrifiad yw hwn, a bod pobl wedi tybio wrth dicio'r blwch eu bod yn gallu siarad Cymraeg nad oedd yn rhaid iddynt hefyd dicio'r blwch eu bod yn ei deall.

Ble mae'r canrannau wedi eu seilio ar niferoedd bach mae'r canrannau'n gallu dangos cryn amrywiant. Er mwyn gwneud y tueddiadau'n amlycach yn y siartiau canlynol, mae llinellau llyfn wedi eu hychwanegu at y canrannau gwreiddiol.


Ffigur 11: Ynys Môn: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001




Ffigur 12: Gwynedd: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001




Ffigur 13: Conwy: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001




Ffigur 14: Sir Ddinbych: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001




Ffigur 15: Sir y Fflint: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001




Ffigur 16: Wrecsam: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001




Ffigur 17: Powys: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001




Ffigur 18: Ceredigion: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001




Ffigur 19: Sir Benfro: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001




Ffigur 20: Sir Gaerfyrddin: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001




Ffigur 21: Abertawe: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001




Ffigur 22: Castell-nedd Port Talbot: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001




Ffigur 23: Pen-y-bont ar Ogwr: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001



Ffigur 24: Bro Morgannwg: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001




Ffigur 25: Rhondda Cynon Taf: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001




Ffigur 26: Merthyr Tudful: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001




Ffigur 27: Caerffili: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001




Ffigur 28: Blaenau Gwent: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001




Ffigur 29: Torfaen: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001




Ffigur 30: Sir Fynwy: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001



Ffigur 31: Casnewydd: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001




Ffigur 32: Caerdydd: % yn gallu deall/siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, yn ôl oed, 2001



5.6 Mapio llythrennedd

Ystyrir nesaf lefel daearyddol mwy manwl, sef adrannau etholiadol, yn y mapiau canlynol ac edrych ar ganran y siaradwyr Cymraeg oedd yn llythrennog yn y Gymraeg, yn yr ystyr eu bod yn gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Mae pum map, wedi'u seilio ar oedrannau gwahanol. Yn y cyntaf (Map 5), edrychir ar y boblogaeth gyfan o siaradwyr Cymraeg 3 oed neu drosodd. Mae craidd yr hen 'Fro'r Gymraeg' yn Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin i'w gweld â 85% neu ragor o'r siaradwyr yn llythrennog yn y Gymraeg. Mae'r craidd hwnnw wedi ei amgylchynu gan ymyl lle mae rhwng 75% ac 85% yn llythrennog ac mae'r ardal honno wedi ei ffinio ag ardal lle ceir canran is eto—rhwng 65% a 75%. Mae'r ardal honno'n strïbed sy'n rhedeg o ogledd Sir Benfro trwy dde Sir Gaerfyrddin cyn troi i'r gogledd trwy Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot i orllewin Powys. Mae'n cyfateb yn fras i'r ardal lle cafwyd canran uchel yn dweud eu bod yn deall Cymraeg llafar yn unig (Map 4). I'r de-ddwyrain, mae mwy o ardaloedd eto lle ceir rhwng 75% a 85% yn llythrennog.


Map 5: % y siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd yn gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, tabl S133


Y grwpiau oedran sydd wedi eu mapio yw 5 i 19 oed, 20 i 34, 35 i 59, a 60 oed a throsodd. Mae'r ardal lle ceir canrannau uchel yn llythrennog yn ehangach o lawer pan ystyrir y grŵp 5 i 19 oed (Map 6). Mae o leiaf 75% yn llythrennog yn rhan helaethaf y wlad.

Map 6: % y siaradwyr Cymraeg 5 i 19 oed yn gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, tabl S133

Map 7: % y siaradwyr Cymraeg 20 i 34 oed yn gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, tabl S133

Map 8: % y siaradwyr Cymraeg 35 i 59 oed yn gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg



Map 9: % y siaradwyr Cymraeg 60 oed a throsodd yn gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg



Mae'r sefyllfa'n fwy darniog pan ystyrir y rhai 20 i 34 oed (Map 7). Yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion mae'r ardaloedd sydd â rhwng 75% a 85% yn llythrennog yn fwy niferus o lawer tra pery rhan helaethaf o Wynedd a Môn i fod â'r ganran lythrennog dros 85%.

Ym map y rhai 35 i 59 oed (Map 8), mae'r ardal o fewn Sir Gaerfyrddin sydd â rhwng 75% a 85% yn llythrennog ym amlycach byth. Mae nifer o ardaloedd yng nghanolbarth Ceredigion lle mae'r ganran yn uwch nag ymhlith y rhai iau. Ym map y rhai 60 oed a throsodd (Map 9) mae llawer o ardaloedd i'w gweld â chanran isel, lle mae o dan 65% neu hyd yn oed o dan 50% yn llythrennog, gan gynnwys cymoedd Tawe, Nedd ac ardal Rhondda Cynon Taf.

5.7 Llythrennedd, yn ôl diwydiant


Ymhlith gweithwyr y diwydiannau trafndiaeth a gweithgynhyrchu y cafwyd y gyfradd lythrennedd isaf: o gwmpas 77% o'r rhai oedd yn gallu siarad Cymraeg oedd yn y diwydiannau hynny a oedd hefyd yn gallu ei darllen a'i ysgrifennu. Roedd y gyfradd uchaf yn y diwydiant amaeth (87%) ac addysg (86%).⁴²

Mae cysylltiad rhwng cymhwyster a diwydiant, er enghraifft, roedd gan 65% o'r bobl oedd yn gweithio yn y diwydiant addysg gymhwyster Lefel 3 neu'n uwch; 14% oedd â chymhwyster Lefel 3 neu'n uwch yn y diwydiant adeiladu).⁴³ Mae canrannau y siaradwyr Cymraeg sy'n llythrennog yn y Gymraeg yn adlewyrchu'r berthynas hon. Gwelir yn Ffigur 33, er enghraifft, fod y ganran sy'n llythrennog yn y diwydiant addysg yn uwch na'r canrannau sy'n llythrennog yn y diwydiannau eraill a ddangosir yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Y diwydiant adeiladu sydd â'r ganran isaf sy'n llythrennog mewn nifer fawr o awdurdodau.

⁴² Cyfrifiad 2001, tabl S140.

⁴³ Cyfrifiad 2001, tabl S131.

Ffigur 33: Cyfradd llythrennedd siaradwyr Cymraeg, yn ôl diwydiant, 2001



Dim ond rhai o'r prif ddiwydiannau (a chanrannau rhwng 50–100%) a ddangosir.

6 Sgiliau: tystiolaeth arall

Pa lefel o sgil sydd gan y rhai sy'n dweud yn y cyfrifiad eu bod yn gallu siarad Cymraeg, neu ei deall, darllen neu ysgrifennu? Rhaid troi at ffynonellau eraill i geisio ateb y cwestiwn. Ar gyfer y boblogaeth gyfan, gallwn droi at Arolygon Defnydd Iaith a gynhaliodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2004–06. Holwyd 7,700 o bobl a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr arolygon hynny. Cafwyd arolwg arall cyn hwnnw a gynhaliwyd yn sgîl Cyfrifiad 1991, sef Arolwg Cymdeithasol Cymru 1992 yr hen Swyddfa Gymreig. Holodd hwnnw bron i 28 mil o'r boblogaeth gan gynnwys 6,200 a ddywedodd eu bod yn siarad Cymraeg. Er bod arolygon 2004–06 a 1992 fel petaent yn adeiladu ar wybodaeth a ddaeth o'r cyfrifiad, byddai'n anghywir i feddwl bod pobl wedi dehongli cwestiynau Cyfrifiad 2001 fel y dehonglwyd cwestiynau 1991—a byddai cwestiynau 1991 wedi eu dehongli'n wahanol i rai 1981, ac yn y blaen—hyd yn oed pe nad oedd newid o gwbl wedi bod i eiriad y cwestiynau. Mae pobl un cyfnod yn gweld pethau'n wahanol i bobl cyfnod arall, hyd yn oed dros gyfnod mor fyr â degawd. Felly hefyd bydd pobl mewn un ardal yn gweld pethau'n wahanol i bobl ardal arall. Er enghraifft, gellid disgwyl y byddai faint o Gymraeg oedd i'w chlywed yn yr ardal yn dylanwadu ar rywun pan fyddai ef neu hi yn ystyried a oedd yn gallu siarad Cymraeg ei hun.


6.1 Rhuglder siarad

Yn ôl Arolwg Cymdeithasol Cymru 1992, roedd 61% (363 mil) o'r rhai oedd yn siarad Cymraeg yn gallu ei siarad yn rhugl. Yn ôl Arolygon Defnydd Iaith 2004–06, 58% (317 mil) o'r rhai oedd yn gallu siarad Cymraeg oedd yn ystyried eu hunain yn rhugl. Awgryma'r ffigurau hyn fod nifer y siaradwyr sy'n digon hyderus i ddweud eu bod yn rhugl wedi gostwng o 1992 hyd at 2004–06, hyd yn oed os cyfaddefwn nad ydym yn gwybod pa feini mesur a ddefnyddiodd y siaradwyr yn 1992 a 2004–06 a bod y meini mesur hynny hefyd yn debyg o fod o leiaf rhywfaint yn wahanol.

Gan gofio mai amcangyfrifon a geir o arolwg a bod ansicrwydd yn perthyn iddynt, mae Ffigur 34 yn dangos y ganran o'r siaradwyr oedd yn rhugl yn 2004–06 yn ôl awdurdod. Mae hyd y bar bob ochr i bob pwynt yn rhoi cyfwng hyder 95%, hynny yw, yn rhoi syniad am ba mor ddibynadwy y mae'r amcangyfrif. Gallai'r ganran go iawn fod cyn ised â phen chwith y bar, neu cyn uchod â'r pen de. Lle roedd y sampl yn gymharol fach, mae hyd yn llinell yn gymharol hir. Lle roedd sampl maint mwy sylweddol, mae'r bar yn fyrrach a llai o le i amau'r amcangyfrif pwynt.

Mae cydberthynas amlwg rhwng y ganran sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg mewn ardal a'r ganran o'r siaradwyr sy'n dweud eu bod yn ei siarad yn rhugl. Gweler Ffigur 67.

Ffigur 34: % y siaradwyr sy'n rhugl, yn ôl awdurdod lleol, amcangyfrifon 2004–06




Ffigur 35: Cartogramau: y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg a'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl, Cyfrifiad 2001 ac amcangyfrifon 2004–06

Cartogramau: mae maint ardal yn adlewyrchu -

y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg

y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl



Awdurdod lleol			
Abertawe	Casnewydd	Merthyr Tudful	Sir Ddinbych
Blaenau Gwent	Castell-nedd Port Talbot	Pen-y-bont ar Ogwr	Sir Fynwy
Bro Morgannwg	Ceredigion	Rhondda Cynon Taf	Sir Gaerfyrddin
Caerdydd	Conwy	Sir Benfro	Sir y Fflint
Caerffili	Gwynedd		Torfaen
			Wrecsam
			Ynys Môn


Ffynhonnell:
 1. Cyfrifiad 2001 (CAS146)
 2. Arolygon Defnydd Iaith 2004-06

Mae'r amcangyfrifon hyn yn rhoi golwg arall ar ddisbarthiad siaradwyr y Gymraeg. Ar sail Arolygon Defnydd Iaith 2004–06, roedd 56% o'r holl siaradwyr rhugl, o bob oed, yn byw yn Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Mae'r cartogram cyntaf yn Ffigur 35 wedi ei seilio ar niferoedd yr holl siaradwyr ymhob sir a'r ail ar niferoedd y siaradwyr rhugl.

Mae Map 10 hefyd wedi ei seilio ar ganlyniadau Arolygon Defnydd Iaith 2004–06⁴⁴. Er bod sampl o 7,700 yn fawr ar gyfer arolwg cenedlaethol, cafwyd niferoedd bach mewn ardaloedd bach o hyd. Defnyddiwyd technegau ystadegol i gyfrifo'r amcangyfrifon a ddangosir. Ceisio dangos y darlun cyffredinol y mae ac ni ddylid rhoi pwys arbennig ar y gyfran a ddangosir mewn ardal benodol. Wrth ei gymharu â Map 2 sy'n dangos y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg, gwelir eto y gydberthynas rhwng y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg a'r ganran o'r siaradwyr sy'n rhugl.

Ni ddylai fod yn syndod canfod bod y ganran o siaradwyr sy'n eu hystyried eu hunain yn rhugl i'w gweld yn amrywio'n ôl oed hefyd. Mae Ffigur 36 yn awgrymu sut y gallai fod yn amrywio'n ôl rhyw y sawl sy'n siarad yn ogystal.


Map 10: % y siaradwyr Cymraeg sy'n rhugl, amcangyfrifon 2004–06



Ffynhonnell: Arolygon Defnydd Iaith 2004-06. Canrannau wedi eu llyfnu gan lyfnwyd gofodol empirig Bayes.

⁴⁴ Haen ganol ardaloedd cynnyrch ehangach oedd y ddaearyddiaeth a ddefnyddiwyd.

Ffigur 36: % y siaradwyr Cymraeg sy'n rhugl, yn ôl rhyw a grŵp oedran, amcangyfrifon 2004–06



Mae ystadegau ysgolion a chanlyniadau asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol yn ffynonellau eraill o dystiolaeth am allu plant yn y Gymraeg. Mae Tabl 5 yn dangos bod y canrannau a gafodd eu hasesu yn 2001 mewn Cymraeg (iaith gyntaf) yn 7 ac 11 oed yn weddol agos at yr amcangyfrifon o'r ganran o siaradwyr rhugl wedi eu seilio ar Gyfrifiad y Boblogaeth a'r Arolygon Defnydd. Ymddengys bod amcangyfrif y rhai 14 oed braidd yn uchel, er gan nad yw pob disgybl a fu'n astudio Cymraeg iaith gyntaf yn yr ysgol gynradd yn parhau i wneud hynny yn yr ysgol uwchradd gallai'r ganran a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 fod yn tanamcangyfrif. (Yn ystod 1996–99 nid oedd 23% o'r plant a aseswyd mewn Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 wedi eu hasesu yn y pwnc ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3).⁴⁵


⁴⁵ Dadansoddiad Fischer Family Trust i ACCAC a ddefnyddiwyd yn adroddiad Llais y Lli (2005).

Tabl 5: Plant ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1, 2 a 3: % rhugl, cymhariaeth o amcangyfrifon 2001

Oed	Amcangyfrif % y boblogaeth oedd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, Cyfrifiad 2001 ⁴⁶	% aseswyd mewn Cymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd y Cyfnod Allweddol yn 2001	% rhugl, 2001, yn ôl cyfrifiad yr ysgolion	% yn rhugl ac yn siarad Cymraeg gartref, 2001, yn ôl cyfrifiad yr ysgolion	% yn astudio Cymraeg fel iaith gyntaf, yn ôl cyfrifiad yr ysgolion
7 (CA1)	15.7	19.0	16.6	6.4	Dim ar gael
11 (CA2)	20.3	17.5	16.5	6.3	Dim ar gael
14 (CA3)	21.0	13.8	Dim ar gael	Dim ar gael	14.1

Mae Map 11 yn dangos amcangyfrifon o'r ganran o'r plant 14 oedd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl yn y cyfnod 2006–08, wedi ei seilio ar farn rhieni am allu eu plant fel y'i adroddwyd yng nghyfrifiad blynyddol yr ysgolion.⁴⁷ Wrth gymharu hwn â Map 10 mae'n werth sylwi ar Sir Gaerfyrddin yn benodol lle ymddengys bod ardaloedd niferus â chanran gymharol isel o siaradwyr Cymraeg ifainc o'i chymharu â'r ganran o siaradwyr o bob oed (er, gan fod seiliau daearyddol gwahanol i'r ddau fap, ni ellir bod yn sicr fod hyn yn gywir).

Map 11: Disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (14 oed), 2006–08, % yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl



Ffynhonnell:Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG - WELSH
LANGUAGE BOARD

⁴⁶ Cyfrifwyd o gymryd yn syml y canrannau fesul blwyddyn oedran o'r siaradwyr a ddywedodd eu bod yn rhugl yn Arolygon Defnydd Iaith 2004–06 a thybio mai'r un canrannau o siaradwyr Cyfrifiad 2001 fyddai wedi bod yn rhugl.

⁴⁷ Haen isaf ardaloedd cynnyrch ehangach yw'r ddaearyddiaeth a ddefnyddiwyd.

6.2 Llythrennedd

Cynhaliwyd Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru yn 2010 a asesodd, ymhlith pethau eraill, sgiliau llythrennedd Cymraeg. Ceisiodd ddefnyddio methodoleg tebyg i'r hyn a ddefnyddiwyd yn yr arolwg a'i ragflaenodd, sef arolwg ar gyfer yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol a gynhaliwyd ym mis Mawrth–Medi 2004.^{48,49}

Yn 2010, aseswyd pobl 16–65 oed a ystyriodd eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n eithaf da ond yn 2004 aseswyd yn ogystal pobl a ddywedodd eu bod yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg. Roedd 36% o'r rheini a gymerodd ran yn yr asesiad llythrennedd Cymraeg yn 2010 ar Lefel Mynediad neu'n is (34% yn 2004). Roedd 37% ar Lefel 2 neu'n uwch (45% yn 2004).⁵⁰ Roedd gwahaniaethau technegol rhwng arolygon 2010 a 2004 a ddylai ein gwneud yn betrus wrth gymharu canlyniadau'r ddau arolwg ond, ar y wyneb o leiaf, gwanhau wnaeth sgiliau llythrennedd Cymraeg siaradwyr Cymraeg. Felly hefyd, sgiliau llythrennedd Cymraeg rhai a ystyriodd eu hunain yn rhugl yn y Gymraeg. Mae hyn yn wahanol i'r hyn a adroddwyd am lythrennedd Saesneg (gyda sampl gwahanol) gan i'r ganran ar Lefel 2 neu'n uwch gynyddu o 38% yn 2004 i 59% yn 2010. Dylid fod yn betrus wrth gymharu canlyniadau y ddwy iaith hefyd gan fod gwahaniaethau rhwng y samplau a ddefnyddiwyd. Er hynny, mae rhesymau pam y gellid dweud fod y canlyniadau hyn i'w disgwyl. Mae ymdrechion wedi bod i wella llythrennedd Saesneg ond, ar ben hynny, mae proffil oedran siaradwyr Cymraeg yn newid a chyfran uwch o'r siaradwyr yn ifanc. Mae'r gyfran sydd mwyaf cyfforddus yn y Gymraeg yn is ymhlith siaradwyr rhugl ifanc nag ymhlith siaradwyr rhugl hŷn. Ni fyddai gostyngiad mewn lefelau llythrennedd Cymraeg yn annisgwyl o dan yr amgylchiadau.

Roedd sgiliau llythrennedd Cymraeg y merched yn well na sgiliau'r dynion yn gyffredinol. Roedd gan 43% o'r merched sgiliau llythrennedd Cymraeg Lefel 2 neu'n uwch o'i chymharu â 31% o'r dynion.

Pobl ifanc 16–19 oed oedd gwanaf eu sgiliau llythrennedd Cymraeg. Yn y grŵp oedran hwnnw oedd y ganran uchaf (46%) oedd â sgiliau ar Lefel Mynediad neu'n is. Roedd y gyfran a aseswyd ar Lefel 2 neu'n uwch ar ei huchaf ymhlith pobl 35–44 oed (44%).

Roedd sgiliau llythrennedd Saesneg siaradwyr Cymraeg yn well na sgiliau llythrennedd pobl nad oedd yn gallu siarad Cymraeg. O'r siaradwyr Cymraeg oedd yn rhugl neu'n gallu siarad Cymraeg yn eithaf da roedd 60% ar Lefel 2 neu'n uwch, o'i chymharu â 54% o'r rhai nad oedd yn gallu siarad Cymraeg, ond mae'n annhebygol bod y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol.

Fodd bynnag, fel arall oedd hi o ran pobl oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn bennaf gartref (100 mil o bobl, oed 16–65 yn ôl Arolwg 2010). Roedd 53% ohonynt ar Lefel 2 neu'n uwch o'i chymharu â 59% o'r rhai oedd yn siarad Saesneg yn bennaf gartref.⁵¹ Yn 2004, o'r rhai oedd yn defnyddio Cymraeg

⁴⁸ Llywodraeth Cymru (2011h), dadansoddiadau'r awdur.

⁴⁹ Beaufort Research (2004).

⁵⁰ Llywodraeth Cymru (2011h).

⁵¹ Llywodraeth Cymru (2011h), dadansoddiadau'r awdur.

gartref yn bennaf (amcangyfrifwyd bod 120 mil o'r rheini) roedd 42% ar Lefel 2 neu'n uwch, o' chymharu â 38% o bawb arall.⁵² Nid oes yr un o'r gwahaniaethau hyn debygol o fod yn arwyddocaol yn ystadegol chwaith.

Mae llythrennedd wrth gwrs yn cynnwys sgiliau darllen ac ysgrifennu. Edrychwn ar y ddau'n unigol nawr.

6.3 Ysgrifennu


Gallwn gymharu canlyniadau Arolwg Sgiliau Oedolion 2010 â chanlyniadau'r arolwg blaenorol a gynhaliwyd ar gyfer yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ym mis Mawrth–Medi 2004 ac Arolygon Defnydd Iaith 2004–06.⁵³ Fe holodd y tri arolwg am farn yr ymatebwyr am eu sgiliau ond fe roddodd arolygon 2004 a 2010 dasgau iddynt hefyd er mwyn asesu eu llythrennedd. Defnyddiwyd graddfa ymateb wahanol yn Arolygon Defnydd Iaith 2004–06 i'r lleill. Sylwer hefyd bod ei ganlyniadau a ddefnyddir isod ar sail pawb 3 oed a throsodd er seiliwyd Arolwg 2004 ar bobl 16-64 ac Arolwg 2010 ar bobl 16-65. Oherwydd bod Arolwg 2010 wedi ei anelu at siaradwyr oedd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl neu'n eithaf da, yn wahanol i'r ddau arall a oedd yn cynnwys pawb a oedd yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, waeth cyn lleied, ni ellir cymharu'n weddol deg ond trwy ganolbwyntio ar y siaradwyr a ystyriodd eu hunain yn siaradwyr rhugl.

Roedd y ganran o siaradwyr rhugl a deimlai eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn yn is yn 2010 nag oedd yn 2004 (63% o'i chymharu â 70%) ond roedd canran ychydig yn uwch yn teimlo eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn eithaf da (32% o'i chymharu â 26%) (Ffigur 37).

⁵² J. Williams a R. Kinnaird (2004).

⁵³ Beaufort Research (2004).

Ffigur 37: Gallu ysgrifennu Cymraeg, yn ôl rhuglder: cymharu amcangyfrifon 2004–10




Dangosodd yr asesiadau llythrennedd fod canran is o siaradwyr rhugl 2010 ar Lefel 2 neu'n uwch nag oedd yn 2004 (45% o'i chymharu â 61%) (Ffigur 38). Mae'r canrannau ar lefel uchel wedi gostwng, yn ôl hunanasesiad ac yn ôl asesiad gwrthrychol. Mae peth cysondeb mewnol i ganlyniadau Arolwg 2004 ac Arolwg 2010 felly. Ar y llaw arall, sylwer sut mae lefelau'r canrannau'n amrywio. Yn 2010, 63% o'r siaradwyr rhugl oedd yn ystyried eu bod yn gallu ysgrifennu'n dda iawn. Roedd 45% o'r siaradwyr rhugl ar Lefel 2 neu'n uwch. Awgryma hyn fod tuedd i siaradwyr rhugl ystyried bod eu galluoedd ysgrifennu'n well nag y mae eu galluoedd o'u hasesu'n wrthrychol.⁵⁴ Roedd cytundeb sylweddol rhwng hunanasesiad a'r asesiad gwrthrychol er hynny, er nad oedd cystal yn 2010 ag yn 2004. O'r rhai a ystyriodd eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn yn 2010 roedd 55% ar Lefel 2 neu'n uwch, 25% ar Lefel 1 a 21% ar Lefel Mynediad.⁵⁵ Y canrannau cyfatebol yn 2004 oedd 69%, 21% a 11%.⁵⁶

⁵⁴ Nid yw siaradwyr rhugl yn unigryw yn hyn, mae'n ymddygiad cyffredin. Gweler J. Kruger a D. Dunning (1999).

⁵⁵ Llywodraeth Cymru (2011h), dadansoddiad yr awdur. Talgrynnu yw'r achos nad ydynt yn symio at 100%.

⁵⁶ Beaufort Research (2004, graff 3.12.4).

Ffigur 38: Lefel llythrennedd Gymraeg, yn ôl gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg, 2004 a 2010




6.4 Darllen

Fel sy'n digwydd gydag ysgrifennu, mae siaradwyr rhugl yn asesu eu sgiliau darllen yn uwch na siaradwyr sy'n ystyried eu bod yn siarad Cymraeg yn eithaf da'n unig. Yn 2010 dywedodd 74% o'r siaradwyr rhugl eu bod yn gallu darllen Cymraeg yn dda iawn, i lawr o 80% yn 2004, ond yn dal i fod llawer yn uwch na'r ganran o siaradwyr gweddol dda a ddywedodd yr un peth: 18% yn 2010 (a 15% yn 2004) (Ffigur 39).


Mae siaradwyr Cymraeg o bob gallu'n ystyried bod eu sgiliau darllen Cymraeg (sgiliau lled oddefol) yn well na'u sgiliau ysgrifennu Cymraeg (sgiliau gweithredol). Mae hyn yn gyson â chanlyniadau'r cyfrifiad lle, fel y'i gwelwyd, mae canrannau uwch yn dweud eu bod yn gallu darllen nag sy'n dweud eu bod yn gallu ysgrifennu. Yn ôl Arolwg 2010 roedd 63% o'r siaradwyr rhugl yn ystyried eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn ond roedd 74% ohonynt yn ystyried eu bod yn gallu darllen Cymraeg yn dda iawn. Roedd y canrannau a oedd yn ystyried eu bod yn gallu ysgrifennu a darllen Saesneg yn dda iawn yn uwch. Roedd 81% o'r siaradwyr Cymraeg rhugl yn ystyried eu bod yn gallu ysgrifennu Saesneg yn dda iawn a 88% ohonynt yn ystyried eu bod yn gallu darllen Saesneg yn dda iawn (Ffigur 40).⁵⁷

⁵⁷ Llywodraeth Cymru (2011h). Dadansoddiad yr awdur.

Ffigur 39: Gallu darllen Cymraeg, yn ôl rhuglder: cymharu amcangyfrifon 2004–10



Ffigur 40: Gallu darllen ac ysgrifennu, Cymraeg a Saesneg, yn ôl gallu siarad Cymraeg, 2010



7 Cartrefi

Mae'r gair 'Cartref' yn cael ei ddefnyddio yma fel gair â diffiniad technegol. Byddai'n well gan rai weld y gair 'aelwyd' yn cael ei ddefnyddio yn ei le ond er cysondeb â therminoleg Cyfrifiad 2001 arhoswn gyda chartref. Yng Nghyfrifiad 2001 fe ddiffiniwyd cartref i olygu 'un person yn byw ar ei ben ei hun, neu grŵp o bobl (nad ydynt yn perthyn o reidrwydd) yn byw yn yr un cyfeiriad gyda gofal tŷ cyffredin – hynny yw, rhannu naill ai ystafell fyw neu lolfa neu o leiaf un pryd bwyd y dydd'. Gwelir felly nad yr un peth ydyw â theulu—yn benodol, nid yw un person yn byw ar ei ben ei hun yn cyfrif fel teulu—ond, er hynny, yn y rhan fwyaf o gartrefi lle roedd mwy nag un yn byw, un teulu yn unig oedd yno. Mae gan y gair 'teulu' hefyd ddiffiniad penodol yn y cyfrifiad, a hwnnw'n ddisgrifiad cul sy'n cynnwys beth sy'n cael ei alw'n deulu niwclear a hefyd y teulu rhiant unigol. Defnyddir y gair 'teulu' yma heb arddel diffiniad y cyfrifiad ohono.

I'r rheini sy'n byw mewn cartref lle mae teulu o unrhyw fath, mae'r cartref yn sefyllfa gymdeithasol bwysig. Yn ieithyddol, mae'r cartref yn ddylanwad pwysig ar aelodau'r cartref o ran eu hiaith, wrth sefydlu normau yn y cartref a allai ddylanwadu ar yr unigolyn y tu allan i'r cartref hefyd. Arferai rhai ddadlau yng Nghymru y byddai dyfodol yr iaith yn sicr pe siaredid Cymraeg ar yr aelwyd, waeth pa faint o le gâi'r iaith y tu allan, yn yr ysgol, er enghraifft, neu ar y cyfryngau neu ym myd gwaith. Tra oedd y rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn byw mewn cartrefi lle roedd pawb yn gallu siarad Cymraeg, ac ar adeg pan oedd y rhan fwyaf o gartrefi fel hynny, hwyrach bod peth gwir i'r honiad. Mae'n wir bod y cartref yn rhyw fath o gadarnle i'r Gymraeg mewn sefyllfa o'r fath—ond nid dyna'r sefyllfa heddiw.

Yn 2001 o'r 575 mil o bobl oedd yn gallu siarad Cymraeg oedd yn byw mewn cartref, roedd 258 mil (45%) yn byw mewn cartref lle roedd pawb yn gallu siarad Cymraeg.⁵⁸ Roedd 11.1% o gartrefi Cymru yn gyfan gwbl Gymraeg, yn yr ystyr bod holl aelodau'r cartref yn gallu siarad Cymraeg.

Roedd 33.6% (193 mil) o'r siaradwyr Cymraeg mewn cartref lle nad oedd neb arall yn gallu siarad Cymraeg: roedd traean ohonynt (63 mil) yn byw ar eu pennau eu hunain ond roedd dwy ran o dair arall (131 mil) yn byw mewn cartrefi gydag eraill ond lle nad oedd neb arall yn gallu siarad yr iaith. Er mai gwendid yw hwn—ni all pobl sy'n byw mewn cartref lle nad oes neb arall yn gallu siarad Cymraeg siarad yr iaith gartref—yn rhyfedd mae hefyd yn adlewyrchu cryfder. Rhan amlaf, plant sydd wedi dysgu Cymraeg yn yr ysgol yw'r rhain.

Roedd yn agos at 1 miliwn o bobl yn byw mewn cartref oedd yn cynnwys o leiaf un person oedd yn gallu siarad Cymraeg. Roedd bron un person o bob tri felly yn byw mewn cartref lle roedd o leiaf un person yn gallu siarad Cymraeg. Roedd 28% y cartrefi yng Nghymru'n cynnwys o leiaf un person oedd yn gallu siarad Cymraeg (uwch o dipyn na'r 20.8% o unigolion oedd yn gallu siarad Cymraeg).

⁵⁸Roedd eraill yn byw mewn sefydliadau cymunol fel ysbysai, neuaddau preswyl prifysgolion a charchardai.

Mae'r gyfran o gartrefi cyfan gwbl Gymraeg yn disgyn: o'r cartrefi sy'n cynnwys siaradwr Cymraeg, dim ond mewn 40% roedd *pawb* yn gallu siarad Cymraeg yn 2001, o'i chymharu â 54% yn 1991. Gallai ymddangos o hyn fod y siaradwyr Cymraeg wedi eu hynysu fwyfwy oddi wrth siaradwyr eraill. Er enghraifft, mewn bron chwe chartref ymhob deg lle roedd o leiaf un yn gallu siarad Cymraeg, dim ond yr un siaradwr oedd yn byw yno. Roedd yr unigedd yna yn llai cyffredin ddeng mlynedd yn gynharach: yn 1991, pump ymhob deg oedd y gyfran. Ar y llaw arall, nid yw'r cynnydd yma mewn unigedd yn unigryw i siaradwyr Cymraeg: yn 1991 roedd 25% o gartrefi yn cynnwys un person yn unig, o'i chymharu â 29% yn 2001.^{59,60} Yn wir, wrth edrych ar niferoedd y siaradwyr yn hytrach na nifer y cartrefi, gwelir nad oedd ond tua 11% o'r siaradwyr Cymraeg yn byw ar eu pennau eu hunain, o'i chymharu â 15% o'r boblogaeth ddi-Gymraeg. Gellir priodoli'r gwahaniaeth mae'n debyg unwaith eto i'r ffaith fod cyfran uwch o'r siaradwyr Cymraeg yn blant, a bod y rheini yn byw yng nghwmni o leiaf un oedolyn. Er hynny, roedd 130 mil o siaradwyr Cymraeg—un o bob pum siaradwr—yn byw mewn cartrefi gydag eraill ond lle nad oedd neb arall yn gallu siarad yr iaith yn 2001.

Mae bodolaeth cartrefi lle mae pawb yn gallu siarad Cymraeg yn bwysig oherwydd mewn cartrefi o'r fath gall y Gymraeg fod yn brif iaith y cartref, ac mae pobl sydd â'r Gymraeg yn brif iaith gartref yn dueddol o wneud mwy o ddefnydd o'r iaith na siaradwyr eraill. Mae arwyddocâd arbennig i gartrefi lle mae plant bychain oherwydd rôl y cartref wrth ddysgu iaith i'r plant.

O'r cartrefi lle roedd dau oedolyn yn 2001, roedd 8.2% ohonynt lle roedd y ddau oedolyn yn gallu siarad Cymraeg. Ceir peth calondid wrth sylwi bod y ganran ychydig yn uwch yn y cartrefi lle roedd y plant ifancaf o dan 5 oed: 9.2% o'r cartrefi cwpl hynny oedd â'r ddau oedolyn yn gallu siarad Cymraeg. (Yn 1991, lle roedd plentyn dibynnol o unrhyw oed mewn cartref cwpl roedd 11.2% o'r cartrefi yn rhai lle gallai'r ddau oedolyn siarad Cymraeg.⁶¹ Y ganran gyfatebol yn 2001 oedd 8.7%.)

O'r 539 mil o gartrefi yn 2001 lle roedd cwpl—galwn ni'r rheini'n gartrefi cwpl—roedd 115 mil (21.3%) yn cynnwys o leiaf un oedolyn a allai siarad Cymraeg. Roedd 44 mil cartref cwpl lle gallai dau oedolyn siarad Cymraeg, 8.2% o'r cartrefi cwpl.⁶²

Roedd 96 mil cartref cwpl lle roedd plentyn dibynnol, a'r plentyn dibynnol ieuengaf rhwng 0 i 4 oed. Yn 23 mil (23.7%) o'r cartrefi hynny, roedd o leiaf un oedolyn a allai siarad Cymraeg. Roedd 9 mil (9.2%) o'r cartrefi hyn yn gartrefi lle gallai dau oedolyn siarad Cymraeg.⁶³

Roedd hefyd 29 mil o gartrefi un rhiant lle roedd plentyn dibynnol, a'r plentyn dibynnol ieuengaf rhwng 0 i 4 oed, ac o'r rheini roedd 4 mil (13.0%) lle roedd yr oedolyn yn gallu siarad Cymraeg.⁶⁴

⁵⁹ OPCS (1993, tabl 27).

⁶⁰ Cyfrifiad 2001, tabl S051.

⁶¹ OPCS (1994, tabl 6).

⁶² Cyfrifiad 2001, tabl S144.

⁶³ Cyfrifiad 2001, tabl S144.

⁶⁴ Cyfrifiad 2001, tabl S144.

A bod yn fanwl: roedd 12,642 cartref (cwpl neu un rhiant) oedd â'r plentyn dibynnol ieuengaf rhwng 0 i 4 oed a allai fod yn gartrefi cyfan gwbl Cymraeg, 9.8% o'r holl gartrefi oedd â phlentyn dibynnol ieuengaf rhwng 0 i 4 oed.

Hwyrach y bydd y ffigwr isel hwn yn syndod i rai, gan fod 20.8% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Mae rhagor o dystiolaeth sy'n ei gefnogi. Dangosodd Arolygon Defnydd Iaith 2004–06 mai o gwmpas 8% o'r holl gyplau ifanc (cymedr oed o dan 36) sydd â'r ddau'n gallu siarad Cymraeg.⁶⁵ O'r rheini, roedd llai na 60% ohonynt lle roedd y ddau'n rhugl. Felly, roedd llai na 5% o'r cyplau ifanc a'r ddau'n rhugl.

Amcangyfrifodd Arolygon Defnydd Iaith 2004–06 fod 184 mil o siaradwyr rhugl mewn cartrefi cyfan gwbl Gymraeg sy'n siarad o leiaf gymaint o Gymraeg â Saesneg gartref a 31 mil arall o siaradwyr rhugl sy'n gwneud defnydd tebyg o'r iaith ond eu bod yn byw mewn cartrefi lle nad yw pawb yn gallu siarad Cymraeg. O fynegi'r rheini fel canran o boblogaeth (3 oed a throsodd) ganol blwyddyn 2005 (2,854 mil), ceir 6.4% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg gymaint neu'n fwy na Saesneg mewn cartrefi cyfan gwbl Cymraeg yn codi i 9.8%, gan gynnwys siaradwyr rhugl ymhob math o gartref.

Mae arolygon eraill hefyd wedi cynhyrchu amcangyfrifon o'r canrannau o bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg gartref. Adroddwyd yn 'Gwerthusiad o Iaith Pawb Cam 1' y 'Bu Arolygon Panel Unigolion 2005 ELWa hefyd yn archwilio ai Cymraeg ynteu Saesneg oedd y brif iaith a ddefnyddiwyd amlaf gartref ymysg sampl o 2009 o bobl. Dangosodd canlyniadau panel 2005 fod 7% o'r bobl yn defnyddio'r Gymraeg amlaf gartref.⁶⁶ Canolbwyntiodd yr arolwg hwnnw ar bobl 16 oed neu'n hŷn. Roedd Astudiaeth Carfan y Mileniwm yn edrych ar ddefnydd o fewn teuluoedd oedd â phlant a anwyd yn 2000. Adroddodd honno fod o gwmpas 12% yn siarad o leiaf peth Cymraeg gartref ond rhaid nodi bod maint sampl yr astudiaeth yn fach iawn.⁶⁷

⁶⁵ Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2008, t.19).

⁶⁶ Arad Consulting a Hywel Evans Cyf (2007).

⁶⁷ K. Hansen a H. Joshi (2008).

Tabl 6: Cyfrifiad 2001: cartrefi, yn ôl ardal awdurdod llywodraeth leol

Awdurdod lleol	Holl gartrefi (miloedd)	Cartrefi			
		Cartrefi â siaradwyr Cymraeg (miloedd)	% y cartrefi sydd â siaradwyr Cymraeg	Cartrefi cyfan gwbl Gymraeg (miloedd)	% y cartrefi sy'n gyfan gwbl Gymraeg
Ynys Môn	28	19	68.5	12	42.2
Gwynedd	49	37	75.1	26	52.6
Conwy	48	18	37.9	8	16.8
Sir Ddinbych	40	14	35.3	6	14.8
Sir y Fflint	61	13	22.1	3	4.5
Wrecsam	53	12	22.9	3	6.4
Powys	54	15	28.7	6	10.3
Ceredigion	31	20	63.0	12	37.2
Sir Benfro	48	14	29.6	5	10.6
Sir Gaerfyrddin	73	45	62.1	27	36.3
Abertawe	94	20	21.2	6	6.8
Castell-nedd Port Talbot	58	15	26.0	6	10.0
Pen-y-bont ar Ogwr	53	9	17.0	2	3.5
Bro Morgannwg	49	8	17.1	1	2.8
Rhondda Cynon Taf	95	18	19.4	4	3.7
Merthyr Tudful	23	4	16.5	1	3.1
Caerffili	69	12	17.3	1	2.1
Blaenau Gwent	30	4	14.6	-	1.2
Torfaen	38	6	17.3	-	1.3
Sir Fynwy	35	5	14.5	-	1.4
Casnewydd	57	9	15.3	1	1.2
Caerdydd	124	21	17.0	5	4.1
Cymru	1,209*	341	28.2	135	11.1

* Nid yw'n gyfanswm y cydrannau oherwydd talgrynnu.
Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, tabl comisiynedig C0055.

Tabl 7: Cyfrifiad 2001: cartrefi a siaradwyr Cymraeg, yn ôl ardal awdurdod llywodraeth leol

Awdurdod lleol	Cartrefi			Siaradwyr		
	Cartrefi â siaradwyr Cymraeg (miloedd)	Cartrefi cyfan gwbl Gymraeg (miloedd)	% y cartrefi â siaradwr Cymraeg sy'n gyfan gwbl Gymraeg	Siaradwyr Cymraeg yn byw mewn cartref (miloedd)	Siaradwyr Cymraeg yn byw mewn cartref cyfan gwbl Gymraeg ⁶⁸ (miloedd)	% y siaradwyr sy'n byw mewn cartref cyfan gwbl Gymraeg
Ynys Môn	19	12	61.6	39	25	66.0
Gwynedd	37	26	70.1	77	56	72.4
Conwy	18	8	44.2	31	15	48.9
Sir Ddinbych	14	6	41.9	23	11	46.6
Sir y Fflint	13	3	20.5	20	5	22.6
Wrecsam	12	3	27.7	18	5	29.8
Powys	15	6	35.8	26	10	39.8
Ceredigion	20	12	59.1	37	23	62.3
Sir Benfro	14	5	35.8	24	10	40.5
Sir Gaerfyrddin	45	27	58.4	83	52	62.6
Abertawe	20	6	32.0	28	10	34.5
Castell-nedd Port						
Talbot	15	6	38.4	23	10	42.1
Pen-y-bont ar Ogwr	9	2	20.6	13	3	22.8
Bro Morgannwg	8	1	16.3	13	2	19.0
Rhondda Cynon Taf	18	4	19.1	28	6	20.6
Merthyr Tudful	4	1	18.9	6	1	20.4
Caerffili	12	1	12.3	18	3	14.1
Blaenau Gwent	4	-	8.5	6	1	9.5
Torfaen	6	-	7.4	10	1	8.7
Sir Fynwy	5	-	9.5	8	1	10.6
Casnewydd	9	1	7.8	13	1	8.4
Caerdydd	21	5	23.9	32	9	26.9
Cymru	341	135	39.5	575	258	44.9

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, tabl comisiynedig C0055.

⁶⁸ Gan dybio mewn cartrefi lle roedd chwech neu ragor yn gallu siarad Cymraeg fod pawb yn gallu siarad Cymraeg.

8 Trosglwyddo/iaith y plant

Trown yn ôl at ganlyniadau Cyfrifiad 2001 o hyd, ond gan edrych ar niferoedd y plant sy'n gallu siarad Cymraeg yn hytrach na nifer y cartrefi.

Yn 2001 roedd 7% o'r plant 3 i 4 oed yn gallu siarad Cymraeg ac yn byw mewn cartrefi lle gallai'r Gymraeg fod yn brif iaith gan fod yr oedolion i gyd yn gallu siarad Cymraeg hefyd. (Mae'n debyg fod hwn yn ostyngiad yn y ganran er 1991 pan oedd tua 9%.⁶⁹) Byddai'r ganran wedi bod yn uwch pe bai pob plentyn oedd yn byw mewn cartref o'r fath wedi cael ei fagu gan ei rieni i siarad yr iaith, hynny yw, pe bai'r iaith yn cael ei throsglwyddo ar yr aelwyd. Roedd 1,763 o blant 3 i 4 oed nad oeddynt yn gallu siarad Cymraeg mewn cartrefi lle roedd yr oedolion i gyd yn gallu siarad Cymraeg. Roedd 4,261 o blant 3 i 4 oed eraill nad oeddynt yn gallu siarad Cymraeg mewn teuluoedd lle roedd un o'r ddau riant yn gallu siarad yr iaith.⁷⁰

Lle roedd y cartref yn cynnwys cwpl (pâr priod neu gwpl yn cyd-fyw) a'r ddau oedolyn yn gallu siarad Cymraeg, 82% o'r plant 3 i 4 oed oedd yn gallu siarad Cymraeg. Lle roedd cartref un riant, y ganran oedd 55%. Lle roedd cartref yn cynnwys cwpl, ond dim ond un ohonynt yn gallu siarad Cymraeg, roedd 40% o'r plant yn gallu siarad Cymraeg. Cyfeirir at ganrannau o'r fath fel 'cyfraddau trosglwyddo'.

Map 12: Plant 3 i 4 oed cyplau un oedolyn Cymraeg: % yn gallu siarad Cymraeg, 2001

(cyfradd drosglwyddo)

%

(nifer o ardaloedd haenen ganol)

2.3 < 10.7 (11)

10.7 < 23.6 (58)


23.6 < 36.4 (127)

36.4 < 49.2 (148)

49.2 < 62.0 (64)

62.0 < 71.2 (5)

□ Awdurdod lleol



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, tabl C0790. Canrannau wedi eu llyfnu gan lyfnydd gofodol empirig Bayes

⁶⁹ Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2003).

⁷⁰ Cyfrifiad 2001, tabl S143.

Gwelir yn syth fod y cyfraddau trosglwyddo'n amrywio'n ôl cyfansoddiad y teulu a gallu'r rhieni yn y Gymraeg (yr hyn y gellir ei alw'n 'broffil iaith' y teulu). Roedd y rhan fwyaf o ystadegau perthnasol i'r pwnc yma a gafodd eu cyhoeddi o Gyfrifiad 2001 yn grwpio plant 3 a 4 oed gyda'i gilydd. Dangosodd tablau arbennig a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg fod gwahaniaethu rhwng yr oeddrannau hyn yn bwysig. Er enghraifft, mewn teuluoedd lle roedd pâr priod a'r ddau'n gallu siarad Cymraeg roedd 86.5% o'r plant 4 oed yn gallu siarad Cymraeg, o'i chymharu â dim ond 80.7% o'r plant 3 oed (Tabl 8). Mae'n debyg y byddai'n well ystyried bod y canrannau ar gyfer y plant 3 blwydd oed yn adlewyrchiad cywirach o'r graddau mae'r iaith yn cael ei throsglwyddo ar yr aelwyd a derbyn bod y canrannau ar gyfer y plant 4 oed (a 3 i 4 oed gyda'i gilydd) yn adlewyrchu hefyd effaith y gyfundrefn addysg.

Tabl 8: Plant 3 a 4 oed yn gallu siarad Cymraeg yn byw mewn teuluoedd

Math o deulu	Nifer		Canran holl blant y teulu	
	Plant 3 oed	Plant 4 oed	Plant 3 oed	Plant 4 oed
Cyplau priod â phlant	3,352	5,135	16.7	24.3
Heb yr un partner yn gallu siarad Cymraeg	810	1,858	5.3	11.6
Partner gwryw yn gallu siarad Cymraeg	354	500	29.7	40.2
Partner benyw yn gallu siarad Cymraeg	625	898	37.7	52.1
Y ddau bartner yn gallu siarad Cymraeg	1,563	1,879	80.7	86.5
Cyplau'n cyd-fyw	770	1,067	14.4	21.5
Heb yr un partner yn gallu siarad Cymraeg	269	469	6.4	12.0
Partner gwryw yn gallu siarad Cymraeg	92	127	26.7	38.3
Partner benyw yn gallu siarad Cymraeg	143	187	32.1	51.8
Y ddau bartner yn gallu siarad Cymraeg	266	284	71.1	75.3
Rhiant benyw unigol	932	1,721	11.1	19.2
ddim yn gallu siarad Gymraeg	444	1,009	6.0	13.0
yn gallu siarad Gymraeg	488	712	46.9	60.9
Rhiant gwryw unigol	63	101	16.2	22.5
ddim yn gallu siarad Gymraeg	26	52	8.3	13.7
yn gallu siarad Gymraeg	37	49	49.3	71.0

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, tabl comisiynedig C0863.

Nid proffil iaith y teulu, hynny yw a yw'r ddau riant neu'r unig riant yn achos teulu un rhiant yn gallu siarad Cymraeg, yw'r unig ffactor sy'n gysylltiedig â'r gyfradd drosglwyddo. Mae'r cyfraddau trosglwyddo yn is lle'r dyn yn unig sy'n gallu siarad Cymraeg mewn cwpl. Mae peth tystiolaeth bod y gyfradd drosglwyddo'n gysylltiedig â statws sosio-economaidd y teulu, gyda'r gyfradd yn gostwng i raddau gyda statws is. Mae'r cyfraddau trosglwyddo'n is hefyd mewn teuluoedd lle mae cwpl yn cyd-fyw mewn cymhariaeth â chyplau priod, er hwyrach y gellir egluro hyn trwy eu statws sosio-economaidd. Tuedda cyplau sy'n cyd-fyw i fod yn iau na chyplau sy'n briod ac mae ieuencid yn dueddol o fod yn gysylltiedig â statws sosio-economaidd is. Nid oes cysylltiad rhwng y gyfradd drosglwyddo â daearyddiaeth ond i'r graddau fod rhuglder siaradwyr yn amrywio'n ddaearyddol. Lle bo canran uwch o'r siaradwyr yn rhugl, tuedda'r

gyfradd drosglwyddo fod yn uwch hefyd.⁷¹ Gweler Map 12 a'i gymharu â Map 10.

Dylai'r pwynt olaf fod yn rhybudd bod *cyfraddau* trosglwyddo'n dibynnu ar sut mae cwestiwn y cyfrifiad yn cael ei ddehongli, hynny yw, os bydd tuedd i bobl ddweud fwyfwy eu bod yn gallu siarad Cymraeg, er mai cyfyngedig yw eu gafael ar yr iaith, bydd effaith ar y cyfraddau trosglwyddo a gyfrifir a gellid disgwyl y byddent yn gostwng. Gallai ehangu dysgu Cymraeg fel ail iaith ymhliith oedolion gael yr un effaith, gan y byddai mwy o gartrefi â chyplau cymysg eu hiaith, neu gartrefi cyfan gwbl Gymraeg ond lle na ellid disgwyl y byddai iaith y teulu'n newid i'r Gymraeg mor hawdd.

Mae Tabl 9 yn cymharu cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg yng Nghymru â chyfraddau trosglwyddo'r ieithoedd Celtaidd eraill yng ngwledydd Prydain ac Iwerddon. Mae'r patrymau yn y gwledydd gwahanol yn debyg. Mae'r gyfradd drosglwyddo'n dueddol o fod yn uwch mewn cyplau lle mae'r ddau oedolyn yn gallu siarad yr iaith, er enghraifft, o'u cymharu â chyplau lle nad oes ond un oedolyn yn gallu siarad yr iaith. Mae sefyllfa'r ieithoedd yn wahanol iawn ac mae'n bosibl fod y cwestiwn am yr iaith yn cael ei ddehongli a'i ateb mewn ffyrdd gwahanol yn y gwledydd gwahanol. Er hynny, o ystyried cryfder cymharol y Gymraeg mae'n debyg na fyddai llawer yn synnu gweld bod cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg i'w gweld dipyn yn uwch na chyfraddau'r ieithoedd eraill.

Dychwelwn i ystyried ystadegau Cymru eto. O'r 34,249 o blant 3 blwydd oed a oedd yn byw mewn teulu, 2,291 (6.7%) oedd yn gallu siarad Cymraeg ac a oedd mewn teulu lle roedd pawb yn gallu siarad Cymraeg. Roedd 1,214 o blant eraill yn gallu siarad Cymraeg ond mewn teulu lle nad oedd ond un o'r ddau riant yn y teulu'n gallu siarad Cymraeg, yn cynrychioli 23.7% o'r holl blant 3 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg. Roedd 1,549 o blant eraill 3 oed yn gallu siarad Cymraeg yn byw mewn teuluoedd lle nad oedd rhiant a oedd yn gallu siarad Cymraeg, a'r rheini'n 30.3% o'r holl blant 3 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg.^{72,73}

Pe bai'r holl blant 3 oed yn y teuluoedd lle roedd y ddau riant yn gallu siarad Cymraeg wedi eu magu i fedru siarad Cymraeg byddent yn 10% o'r holl blant 3 oed.

Pe bai'r holl blant 3 oed oedd ag o leiaf un rhiant yn gallu siarad Cymraeg wedi eu magu i fedru siarad Cymraeg byddent yn 20.6% o'r holl blant 3 oed. 19.6% o blant a gafodd eu hasesu mewn Cymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 yn 2005 pan oeddynt o gwmpas 7 oed (gweler Ffigur 53). Mewn ffordd, ni wnaeth y gyfundrefn addysg yn iawn am y golled felly.

Mae'r ffigur o 6.7% yn cael eu magu gyda'r Gymraeg mewn teuluoedd lle roedd pawb yn gallu siarad Cymraeg yn cyd-fynd yn dda â ffigur cyfrifiad blynyddol yr ysgolion am y ganran o ddisgyblion ysgol gynradd a oedd yn siarad Cymraeg

⁷¹ H. Jones (2009).

⁷² Hefyd, roedd 63 o blant 3 oed yn gallu siarad Cymraeg yn byw mewn teuluoedd lle roedd y rhieni i gyd yn gallu siarad Cymraeg ond rhai aelodau eraill o'r teulu ddim yn gallu siarad Cymraeg.

⁷³ Cyfrifiad 2001, tabl C0863 a gomisiynwyd.

gartref yn 2001/02: 6.2 y cant (gweler Ffigur 44). Trafodir hyn ymhellach o dan Addysg.

Tabl 9: Cyfraddau trosglwyddo, yn ôl math o deulu ac oedran y plentyn: Cymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon

Math o deulu	Pwy o'r oedolion sy'n gallu siarad yr iaith*		% y plant o'r oed yn y teulu sy'n gallu siarad yr iaith				
			Oed				
			3	4	3-4	5-15	16+
Pob cwpl	Y ddau oedolyn	Cymru	79	85	82	94	88
		Yr Alban	55	61	58	71	60
		Gogledd Iwerddon	28	39	34	63	77
		Gweriniaeth Iwerddon	16	32	24	90	84
Cyplau priod	Y ddau oedolyn	Cymru	81	87	84	94	89
		Yr Alban	55	62	59	71	60
		Gogledd Iwerddon	28	38	33	63	77
		Gweriniaeth Iwerddon	16	32	24	90	84
Cyplau'n cyd-fyw	Y ddau oedolyn	Cymru	71	75	73	91	84
		Yr Alban	50	55	52	71	52
		Gogledd Iwerddon	31	52	43	68	74
		Gweriniaeth Iwerddon	17	37	26	85	80
Pob cwpl	Y partner benyw'n unig	Cymru	37	52	44	69	49
		Yr Alban	22	21	21	27	11
		Gogledd Iwerddon	5	7	6	30	40
		Gweriniaeth Iwerddon	8	22	15	80	68
	Y partner gwryw'n unig	Cymru	29	40	34	61	42
		Yr Alban	8	11	10	19	10
		Gogledd Iwerddon	5	5	5	28	34
		Gweriniaeth Iwerddon	7	18	13	75	61
Teuluoedd rhiant unigol	Rhiant benyw	Cymru	47	61	54	79	71
		Yr Alban	27	41	34	36	45
		Gogledd Iwerddon	38	36	37	58	58
		Gweriniaeth Iwerddon	15	32	24	80	70
	Rhiant gwryw	Cymru	49	71	60	79	71
		Yr Alban	33	55	45	38	37
		Gogledd Iwerddon	21	21	21	56	56
		Gweriniaeth Iwerddon	13	25	19	73	67

* Cymraeg yng Nghymru, Gaeleg yr Alban yn yr Alban, Gwyddeleg yng Ngogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon.
Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001: Cymru, tabl comisiynedig C0863; Yr Alban C0862; Gogledd Iwerddon EXT20080116. Gweriniaeth Iwerddon: Cyfrifiad 2006.

9 Athreuliad ieithyddol (Colli'r iaith)

Nid peth digyfnewid i unigolyn yw'r gallu i siarad iaith. Gall ddysgu iaith newydd ar unrhyw adeg yng nghwrs ei fywyd. Mae hefyd yn gallu colli'r gallu, yn bennaf drwy beidio â gwneud defnydd ohoni. Mae'n debyg fod amrywiaeth mawr rhwng unigolion yn hyn. Bydd rhai'n cofio iaith yn berffaith er iddynt beidio gwneud defnydd helaeth ohoni am flynyddoedd tra bo eraill yn colli gallu gweithredol neu hyd yn oed gwybodaeth oddefol ohoni ar ôl ychydig iawn o amser heb ei harfer i ryw raddau. Gelwir y golled yn fath o 'athreuliad ieithyddol'.⁷⁴ O ran ystadegau am yr iaith, mae'r athreuliad yn cael ei amlygu pan fydd rhywun wedi dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg ar un adeg ac wedyn yn dweud nad yw'n gallu siarad Cymraeg ar ryw adeg ymhellach ymlaen. Mae hyn wedi cael ei astudio yng nghyswllt cyfrifiad y boblogaeth, gan ddefnyddio data Astudiaeth Hydredol y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r astudiaeth hon yn cyplysu cofnodion ar draws y cyfrifiadau er 1971 am sampl o tua 1% o'r boblogaeth.

Rhwng Cyfrifiad 1971 a Chyfrifiad 1981 'collwyd' 12.8% o'r rhai ddywedodd eu bod yn siarad Cymraeg yn 1971 yn yr ystyr eu bod wedi dweud nad oeddynt yn siarad Cymraeg yn 1981. Y ganran gyfatebol rhwng 1981 a 1991 oedd 13.8% ac rhwng 1991 a 2001 roedd yn 16.6%. Yn ôl y mesur hwn felly roedd athreuliad yn fwy cyffredin yn 2001.⁷⁵

Er bod athreuliad ymysg y siaradwyr Cymraeg, roedd yr enillion yn 2001, sef y niferoedd a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg o blith y rhai nad oedd yn gallu siarad Cymraeg ddeng mlynedd ynghynt, yn fwy sylweddol ymhob grŵp oedran a astudiwyd, heblaw'r grŵp hynaf oedd dros 65 oed yn 1991.^{76,77} Bydd rhai o'r enillion o ganlyniad i bobl ddysgodd Cymraeg (gweler adran 10.6 Cymraeg i Oedolion).

Mae rhai arolygon wedi cynnwys cwestiynau i ganfod faint o bobl sy'n ystyried eu bod wedi colli sgiliau yn y Gymraeg. Er enghraifft, adroddodd arolwg a gomisiynodd y Swyddfa Wybodaeth Ganolog a Bwrdd yr Iaith Gymraeg gan NOP yn 1995, 'Agweddau'r cyhoedd tuag at yr iaith Gymraeg' fod 26% yn gallu deall popeth neu'r rhan fwyaf a ddywedwyd yn Gymraeg yn eu hardal a bod 2% ychwanegol wedi dweud eu bod wedi arfer deall y rhan fwyaf neu bopeth pan oeddynt yn iau.⁷⁸ Yn Arolwg Cymdeithasol Cymru 1992 cafwyd bod 3% o'r rhai a fyddai, fel plant, yn siarad mwy o Gymraeg nag o Saesneg gartref, nad oedd bellach yn gallu siarad dim Cymraeg, er bod 85% yn dal yn rhugl.⁷⁹

⁷⁴ Gweler e.e. H. Seliger a R. Vago (gol.) (1991), a J. Phillips (2008).

⁷⁵ H. Jones (2005).

⁷⁶ Er bod yr un cwestiwn yn cael ei roi i bawb yn y cyfrifiad, ni fydd pawb yn ei ddehongli yn yr un ffordd. Gallai'r newidiadau adlewyrchu bod rhai carfanau'n defnyddio normau gwahanol i ddehongli'r cwestiynau. 'Differential item functioning' yw'r enw a roddir ar hyn yn Saesneg.

⁷⁷ H. Jones (2005).

⁷⁸ NOP (1995). Gwnaed y gwaith maes ym mis Mawrth y flwyddyn honno. Cafwyd sampl o 815 16 oed+: o'r 815, roedd 365 yn ddi-Gymraeg, a 384 yn gallu siarad 'o leiaf ychydig o frawddegau'.

⁷⁹ Y Swyddfa Gymreig (1995), tabl 3.

10 Addysg

Mae mwy o siaradwyr ifainc y Gymraeg wedi dysgu'r Gymraeg drwy'r system addysg nag sydd wedi dysgu Cymraeg gartref. Bydd yr adran hon yn disgrifio'r sefyllfa gyfredol o fewn y system addysg. Ystyrir ystadegau athrawon yn yr adran am yr economi pan geisir asesu pa mor gynaliadwy yw'r gyfundrefn bresennol. Mae cynnyrch y gyfundrefn addysg o ran disgyblion yn ffurfio mewnbwn i'r gweithlu ehangach hefyd wrth gwrs.

10.1 Cyn-ysgol

Mae canlyniadau cyfrifiad y boblogaeth wedi dangos i'r ganran o blant 3 i 4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg gynyddu o 11.3% yn 1971, i 13.3% yn 1981, 16.2% yn 1991 ac 18.8% yn 2001. Gan na fu cynnydd yng nghanran y teuluoedd Cymraeg dros yr un cyfnod, rhaid tybio mai effaith addysg sydd yn gyfrifol.

Sefydlwyd Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) yn 1971. Adlewyrchir sut mae'r gyfundrefn addysg wedi newid ers hynny y mae mabwysiad yr enw newydd, Mudiad Meithrin, yn 2011. Gofal sesiynol a gynigiwyd gan y 67 grŵp oedd gan y Mudiad yn 1971 ond roedd yr enw 'ysgol feithrin' yn awgrymu'r uchelgais i gynnig addysg i'r plant ac roedd dysgu Cymraeg i blant nad oedd yn gallu siarad Cymraeg yn rhan greiddiol o nod y Mudiad. Mae Ffigur 41 yn dangos sut dyfodd niferoedd cylchoedd MYM gan gyrraedd uchafbwynt yn hwyr yn nawdegau'r ganrif ddiwethaf. Yn 1996 roedd 632 ohonynt ond fe syrthiodd y nifer i 618 yn 1997. Yn 1996 roedd y Swyddfa Gymreig, adeg Llywodraeth Geidwadol, yn bwriadu cyflwyno cynllun talebau meithrin.⁸⁰ Er bod y Llywodraeth Lafur a etholwyd ym mis Mai 1997 wedi diddymu'r talebau mae'n debyg bod effaith y newid a fwriadwyd i'w weld yng nghyfres niferoedd cylchoedd MYM.

Er na fu newid i'r oed pryd mae addysg yn dod yn orfodol, sef 5 oed, mae'r ganran o blant o dan 5 oed sy'n mynychu ysgol wedi cynyddu dros y 30-40 o flynyddoedd diwethaf. Roedd plant ysgol o dan 5 oed yn 85% o'r boblogaeth 3 i 4 oed yn Ionawr 2010, o'i chymharu â 69.4% yn 1990/91, canran oedd prin wedi newid er 1985/86.⁸¹ Tan 1986 nid oedd gofal dydd llawn prin yn bod.⁸² Ers mis Medi 2004, mae pob plentyn 3 oed wedi cael y cynnig o addysg hanner amser am ddim.⁸³ Mae'r addysg honno'n gallu cael ei darparu naill ai o fewn ysgolion a gynhelir neu mewn lleoliadau a gyllidir. Mae'r sector 'cyn-ysgol' yn cynnwys nid yn unig lleoliadau sy'n darparu addysg blynyddoedd cynnar, wedi eu cyllido ai peidio, ond hefyd lleoliadau sy'n darparu gofal. Yn gyffredinol, nid yw lleoliadau sy'n darparu gofal yn unig yn cael eu cyllido.

Mae cofnodi maint y ddarpariaeth o leoliadau'n gymharol hawdd i'w gymharu â'r anhawster o gofnodi niferoedd y plant sy'n defnyddio'r ddarpariaeth gan y gall blentyn o dan 5 oed fod yn defnyddio mwy nag un gwasanaeth mewn diwrnod, heb sôn am gyfnodau hwy. Adroddodd MYM fod 10,246 o blant yn eu

⁸⁰ C. Gillie a G. Allen (1996).

⁸¹ StatsWales 007650.

⁸² Siân Wyn Siencyn a Sally Thomas, yn S.W. Siencyn (2010).


⁸³ Datganiad gan Jane Davidson, 11 Hydref 2004

<http://wales.gov.uk/newsroom/educationandskills/2004/4024583/?skip=1&lang=cy>, cyrchwyd 1 Rhagfyr 2011.

cylchoedd yn 1992; yn 2008–09 mynychodd 12,031.^{84,85} Gellir cymharu'r rhain ag amcangyfrifon y boblogaeth yng nghanol y flwyddyn: yn 1992 roedd 37,828 o blant 2 flwydd oed; yn 2009, 34,023.^{86,87} Trwy rannu'r niferoedd yn y cylchoedd gan y boblogaeth 2 oed, ceir canrannau o 27.1% a 35.4% ond, wrth gwrs, nid plant dwyflwydd yw'r unig rai sy'n mynd i'r cylchoedd.⁸⁸ Efallai y byddai'n fwy cywir i'w rhannu gan y boblogaeth o blant dwy a thair blwydd oed a fyddai'n rhoi canrannau o 13.5% yn 1992 ac 17.8% yn 2009. Symiau cefn amlen yw'r rhain ac yn rhy fras o lawer hyd yn oed i fedru ffurfio barn p'un a yw'r duedd i fyny neu ar i lawr.

Ystyrir yn yr adran nesaf sut mae'r niferoedd o blant mewn addysg gynradd Gymraeg wedi newid, sef y cam nesaf trwy'r system addysg. Yn ôl ffigurau'r Mudiad, trosglwyddodd tua 8,300 o blant eu cylchoedd i ysgol yn ystod blwyddyn ysgol 2008-09. Aeth tua un o bob wyth i ysgol Saesneg neu, mewn geiriau eraill, trosglwyddodd 87% i ysgol Gymraeg, rhyw 7,200 o blant. Mae dilyniant mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn thema y telir sylw iddo ymhellach ymlaen eto.

Ffigur 41: Niferoedd cylchoedd a grwpiau Ti a Fi Mudiad Meithrin, 1970–2011



⁸⁴ Ffigur 1992: Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg (1993).

⁸⁵ Ffigur 2009: rhoddwyd gan MYM i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

⁸⁶ StatsWales 003121.

⁸⁷ StatsWales 025104.


⁸⁸ Cymharer â 'Mae tua 35 y cant o blant 3 blwydd oed yng Nghymru mewn lleoliadau meithrin sydd yn eu trochi yn y Gymraeg...' Siân Wyn Siencyn a Sally Thomas, yn Siencyn (2010).

10.2 Cynradd

10.2.1 Disgyblion

Yn 2009/10 roedd 7,090 o ddisgyblion grŵp blwyddyn 1 yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf. Gwelir bod hynny'n agos at y nifer yr amcangyfrifwyd uchod a adawodd gylchoedd y Mudiad Meithrin i fynd i ysgol Gymraeg. Byddai'r plant hynny'n mynd naill ai i ddisbarthiadau meithrin yr ysgol neu i'r dosbarth derbyn a byddai'n flwyddyn neu ddwy cyn y byddant yn cyrraedd dosbarth Blwyddyn 1. Bydd y plant sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yn yr ysgol bron i gyd yn cael eu hasesu mewn Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 (diwedd Blwyddyn 2), fel y'i dangosir yn Ffigur 42. Mae cymharu'r canrannau a aseswyd mewn Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 â'r ganran a aseswyd mewn Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn rhoi mesur o gysondeb dilyniant cyfrwng dysgu trwy flynyddoedd yr ysgol gynradd. Diwedd Blwyddyn 6 yw diwedd Cyfnod Allweddol 2. Yn genedlaethol mae dilyniant trwy addysg gynradd yn uchel. Er enghraifft, ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn 2011 aseswyd 19.6%, sy'n cymharu â 20.3% a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 bedair blynedd ynghynt yn 2007. Er nad union yr un plant fyddai wedi bod yn yr ysgol (oherwydd mudo'n bennaf) roedd y nifer a aseswyd yn 2011 yn 99% o'r nifer aseswyd yn 2007. Gellir ystyried hynny'n arwydd bod bron yr holl blant oedd yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf ym Blwyddyn 2 wedi parhau i ddysgu Cymraeg fel iaith gyntaf hyd at ddiwedd eu hamser yn yr ysgol gynradd.


Ffigur 42: % a aseswyd mewn Cymraeg ar ddiwedd CA1/2/3, ac yn astudio Cymraeg iaith gyntaf, 1999–2011



Yn 2010 roedd y 7,090 o ddisgyblion yn 22% o ddisgyblion Grŵp Blwyddyn 1. Er eu bod yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf go brin bod y cyfan ohonynt yn

rhugl. Roedd 2,071 o holl ddisgyblion Grŵp Blwyddyn 1 (6.5%) yn gallu siarad yn rhugl, ac yn ei siarad gartref, ac 834 (2.6%) yn rhugl ond ddim yn ei siarad gartref, sy'n rhoi cyfanswm o 2,905, sef 9.1%.⁸⁹ Mae'r canrannau hyn yn dueddol o gynyddu gyda'r grŵp blwyddyn.

Ffigur 43: % y disgyblion cynradd yn ôl iaith/cefndir, yn ôl grŵp blwyddyn, Ionawr 2010




Er ei bod yn gredadwy y byddai'r ganran sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ond nad ydynt yn ei siarad gartref yn cynyddu gyda hyd yr addysg y mae'r disgyblion wedi ei derbyn, ni ellir dweud yr un peth am y ganran sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ac yn ei siarad gartref. Yr un flwyddyn (2010) o blith disgyblion 5 oed a throsodd ym Mlynnyddoedd 1-6, roedd 7.6% yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, ac yn ei siarad gartref, a 5.4% yn rhugl ond ddim yn ei siarad gartref.⁹⁰ Mae Ffigur 44 yn dangos cyfres o'r canrannau hyn er 1987/88. Newidiodd y ffordd y casglwyd y wybodaeth yn Ionawr 2003 a hynny sy'n gyfrifol am y newidiadau mawr sydd i'w gweld rhwng 2001/02 a 2002/3. Cyn 2002/03 penaethiaid yr ysgolion oedd ffynhonnell y wybodaeth. O 2002/03 ymlaen, y rhieni oedd y brif ffynhonnell.

Yn 2000/01, blwyddyn Cyfrifiad Poblogaeth 2001, y cafwyd y ganran uchaf oedd yn gallu siarad Cymraeg i ryw raddau o leiaf: 48.9% o'r disgyblion 5 oed a throsodd. Cymharer hyn â chanlyniadau Cyfrifiad y Boblogaeth 2001 a ddangosodd fod 39.4% o'r plant 6–11 oed yn gallu siarad Cymraeg. Roedd canran y disgyblion 5 oed a throsodd a oedd yn gallu siarad Cymraeg wedi gostwng i 38.2% erbyn Ionawr 2011.


⁸⁹ Cyfrifiad Ysgolion Ionawr 2010: echdyniad arbennig gan Lywodraeth Cymru.

⁹⁰ Lywodraeth Cymru (2010c), tabl 7.6 yn y ddogfen gysylltiedig.

Ffigur 44: % y disgyblion cynradd yn ôl iaith/cefndir, 1986/87–2010/11




Ffigur 45: Niferoedd y disgyblion cynradd yn ôl iaith/cefndir, 1986/87–2010/11



Mae'r term 'addysg cyfrwng Cymraeg' yn cyfeirio at drefniadaeth yr ysgol. Trafodir ystadegau datblygiad 'ysgolion cyfrwng Cymraeg' yn adran 10.2.2.


Mae ystyried cyfansoddiad yr ysgol o ran cefndir neu allu ieithyddol ei disgyblion yn rhoi golwg wahanol ar ddatblygiad y gyfundrefn addysg i'r un a geir wrth ystyried cyfrwng y dysgu. Gellid disgwyl y byddai'r ganran o blant sy'n rhugl yn fwy tebygol o adlewyrchu iaith buarth yr ysgol nag y byddai'r cyfrwng dysgu o fewn dosbarthiadau'r ysgol. Mae cyfres hir ar gael sy'n dosbarthu ysgol yn ôl y ganran o blant rhugl. Fe'i dangosir yn Ffigur 46. Mae'n amlwg bod y gyfres wedi ei thorri sawl gwaith, er enghraifft, gan y newidiadau yn y dull casglu ddigwyddodd yn Ionawr 2003, ac yn 1986. (Cyn 1986 gofynnwyd i bennaethiaid roi'r disgyblion i dri categori'n unig: Cymraeg iaith gyntaf (gartref), Cymraeg ail iaith a Ddim yn rhugl/dim Cymraeg. Cyn 1977 roedd dull gwahanol eto o'u categorreiddio.⁹¹) Gallwn nodi nad oes ers 2002/03 mwy na 10% o'r holl ysgolion cynradd ag 80% neu ragor o'u disgyblion yn rhugl eu Cymraeg (Ffigur 47). Un o'r pethau mwyaf trawiadol o'r gyfres yw cyn lleied o newid sydd wedi bod yn y gyfran o ysgolion sydd ag o dan 20% o'u disgyblion yn rhugl. Nid yw wedi gostwng yn is na bron 70% drwy'r cyfnod dan sylw.

Ffigur 46: Nifer o ysgolion cynradd, 1975/76–2010/11, yn ôl canran y plant rhugl ynddynt




⁹¹ Y Swyddfa Gymreig (1978), troednodyn i dabl 5.01(a).

Ffigur 47: % yr ysgolion cynradd, 1975/76–2010/11, yn ôl canran y plant rhugl ynddynt



Fel y trafodwyd uchod, newidiodd y ffordd y casglwyd y wybodaeth yn Ionawr 2003 a hynny sy'n gyfrifol am y newidiadau mawr sydd i'w gweld rhwng 2001/02 a 2002/3.

Ffigur 48: Nifer o ddisgyblion cynradd, 1991/92–2010/11, yn ôl cyfrwng dysgu'r dosbarth




10.2.2 Trefniadaeth ysgolion cynradd

Yn yr ysgol gynradd, bydd plant yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser gyda'u hathro dosbarth. Mae iaith y dosbarth yn adlewyrchu trefniadaeth yr ysgol, er enghraifft, mewn rhai ysgolion mae ffrydio yn ôl iaith a rhai dosbarthiadau'n cael eu dysgu'n unig neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg a rhai eraill trwy'r Saesneg. Mae Ffigur 48 yn dangos sut mae'r niferoedd o blant yn y mathau gwahanol o ddsbarthiadau wedi amrywio dros y ddwy ddegawd ddiwethaf. Mae effaith Deddf Diwygio Addysg 1988 i'w gweld yn glir gyda dosbarthiadau lle nad oedd Cymraeg yn cael ei dysgu o gwbl yn gostwng yn sylweddol trwy nawdegau'r ganrif ddiwethaf. Mae'r niferoedd yn y dosbarthiadau lle defnyddir y Gymraeg i ddysgu rhan o'r cwricwlwm wedi gostwng yn sylweddol hefyd.

Mae Ffigur 49 yn dangos sut mae'r ganran o ddisgyblion mewn dosbarthiadau Cymraeg wedi tyfu. Yn 1991/92 roedd 16.0% o ddisgyblion mewn dosbarthiadau o'r fath ac fe gynyddodd y ganran i 21.4% yn 2010/11.⁹²


Ffigur 49: % o'r holl ddisgyblion cynradd, 1991/92–2010/11, yn ôl cyfrwng dysgu'r dosbarth



Gwelir y twf yn y ganran sydd mewn 'dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg yn bennaf' ers 1998/99 yn Ffigur 50. Cynyddodd y ganran ar draws y rhan fwyaf o'r wlad: mewn 20 o'r 22 awdurdod lleol.

⁹² StatsWales 007478.

Ffigur 50: % o ddisgyblion cynradd mewn dosbarth prif gyfrwng Cymraeg, 1998/99–2010/11, yn ôl ardal




Er bod ystadegau ar gael am 'ysgolion Cymraeg' mae diffiniadau'n broblem. Nid yw'r term 'ysgol Gymraeg benodedig' erioed wedi bod ag ystyr cyfreithiol iddo y tu hwnt i'r ystyr a roddwyd iddo gan ba awdurdod addysg bynnag oedd yn ei ddefnyddio. Cyflwynodd Deddf Diwygio Addysg 1988 (Adran 3(7)) y cysyniad o 'ysgol siarad Cymraeg' a ddiffiniwyd yn nhermau faint o bynciau sylfaen y cwricwlwm cenedlaethol (ac addysg grefyddol) a ddysgwyd *yn bennaf neu'n rhannol* (fy italeiddio) drwy'r Gymraeg, diffiniad oedd yn dal mwy o ddŵr yn y sector uwchradd nag yn y sector cynradd. Hyd at 2007/08 ar gyfer cyhoeddi ystadegau gwladol roedd ysgolion yn cael eu categoreiddio'n ôl eu cyfansoddiad yn nhermau cyfuniad o gyfrwng iaith eu dosbarthiadau a'r gyfran o'u disgyblion a oedd mewn dosbarthiadau lle roedd y Gymraeg yn brif gyfrwng. Yn Hydref 2007 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen wybodaeth a gyflwynodd diffiniadau newydd ac fe ddefnyddiwyd y rhain i gyhoeddi ystadegau o Ionawr 2009.⁹³ Yn ôl yr hen categorïau, roedd canran yr ysgolion

⁹³ Llywodraeth Cymru (2007).

prif gyfrwng Cymraeg wedi cynyddu o 27.1% o'r holl ysgolion cynradd yn 1993/94 i 30.8% yn 2008/09.⁹⁴ Yn y flwyddyn honno diffiniwyd 29.6% o'r ysgolion yn rhai 'Cyfrwng Cymraeg' (gyda 3.1% arall—46 o ysgolion—yn rhai dwy ffrwd). Mae nifer yr ysgolion yn ôl categori (hen a newydd) yn cael ei siartio yn Ffigur 51 a'r canrannau yn Ffigur 52.


Ffigur 51: Nifer o ysgolion cynradd, 1993/94–2010/11, yn ôl categori iaith



Sut mae cysoni'r canrannau hyn â'r ffaith mai ychydig yn fwy nag 20% o'r holl ddisgyblion sydd mewn dosbarthiadau lle mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng? Yn syml, mae llawer o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd gwledig ac yn gymharol fach o ran nifer y disgyblion sydd ynddynt. Un o nodweddion ysgol 'Cyfrwng Cymraeg', yn ôl y diffiniad swyddogol, yw mai'r Gymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd a'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. O safbwynt sosioieithyddol dadleuir fod twf yn niferoedd ysgolion o'r fath yn golygu bod mwy o sefyllfaoedd yn cael eu creu lle mae'r disgyblion yn cael eu trochi yn swm yr iaith. Trwy hynny y gobaith yw y dânt i ystyried defnyddio'r Gymraeg i bob pwrpas yn beth normal, waeth beth fo'u cefndir ieithyddol gartref, ac y dânt i'w harfer iddyn nhw eu hunain y tu allan i'r ysgol. Dylid nodi bod pwysigrwydd i ysgolion o'r fath fel man gwaith cyfrwng Cymraeg hefyd. Ystyrir y gweithlu yn adran 11.2.1. Edrychir nesaf ar ystadegau'r Gymraeg mewn ysgolion uwchradd.

⁹⁴ Ffigur 2008/09 o ddadansoddiad arbennig gan Lywodraeth Cymru.

Ffigur 52: % o ysgolion cynradd, 1993/94–2010/11, yn ôl categori iaith



10.3 Uwchradd

10.3.1 Dilyniant o'r sector cynradd

Mae'r problemau am gategoreiddio ysgol yn ôl cyfrwng a grybwyllwyd uchod o yn adran 10.2.2 yn ei gwneud yn ddiwerth bron i geisio cymharu niferoedd disgyblion yn ôl math o ysgol gynradd neu uwchradd. Felly ar ddilyniant cyfrwng dysgu y rhoddir sylw yma, nid ar ddilyniant yn ôl math o ysgol.

Ceir un mesur bras o ddilyniant o'r sector cynradd trwy gymharu'r niferoedd neu'r canrannau a aseswyd mewn Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol (CA) 2 yn yr ysgol gynradd â'r niferoedd sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf y flwyddyn wedyn yn eu blwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd. Aseswyd 19.5% (6,558) ar ddiwedd CA2 yn 2010 ac yn 2010/11 roedd 17.8% (5,897) o'r disgyblion yn eu blwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd yn dysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf.⁹⁵


Gellir cymharu hefyd y ganran a aseswyd ar ddiwedd CA2 â'r ganran a aseswyd ar ddiwedd CA3 dair blynedd wedyn. Gweler Ffigur 53. Ar ddiwedd CA3 yn 2011 aseswyd 16.3% mewn Cymraeg iaith gyntaf er bod 19.8% wedi cael eu hasesu ar ddiwedd CA2 yn 2008. Er nad union yr un plant fyddai yn y ddwy garfan, awgryma fod cyfradd y dilyniant rhwng y ddau gyfnod yn 82.3%.

Cynhwysodd dogfen ymgynghori y Llywodraeth ar Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a gyhoeddwyd yn 2009 ystadegau am y cyfraddau dilyniant rhwng CA2 2005 a 2008 fesul awdurdod lleol, wedi eu cyfrifo drwy edrych ar y

⁹⁵ Llywodraeth Cymru (2011c), tablau 7.13 a 7.17 yn y ddogfen gysylltiedig a StatsWales 007484.

disgyblion a aseswyd yng Nghyfnod Allweddol 2. Yn genedlaethol, symudodd 84.7% o'r disgyblion hynny a aseswyd mewn Cymraeg ar ddiwedd CA2 yn 2005 ymlaen a chael eu hasesu mewn Cymraeg ar ddiwedd CA3 yn 2008. Mewn geiriau eraill, nid oedd oddeutu un o bob saith disgybl yn parhau i astudio Cymraeg iaith gyntaf yn yr ysgol uwchradd ar ôl ei hastudio yn yr ysgol gynradd. Ymysg y siroedd lle roedd lefelau dilyniant ar eu hisaf (o dan 80% ymhob achos) oedd Castell-nedd Port Talbot, Ynys Môn, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir Benfro a Cheredigion.⁹⁶ Cyn hynny, roedd astudiaeth a gomisiynodd Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) o symudiadau rhwng y ddau gyfnod allweddol dros bedair blynedd, o 1996/99 i 1999/2002 wedi dangos lefel dilyniant o 78%.⁹⁷

Ffigur 53: % y disgyblion a aseswyd mewn Cymraeg, yn ôl Cyfnod Allweddol, 1996–2011 a thargedau 2015 a 2020




Er nad yw dilyniant o'r sector cynradd yn 100%, mae'r ganran o blant sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf wedi tyfu'n gyson ers degawdau. Yn 1980/81 roedd 10.1% o blant mewn ysgolion uwchradd a gynhelir yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf. Erbyn 2010/11 roedd y ganran wedi codi i 16.7%.⁹⁸ Gweler Ffigur 54.

⁹⁶ Llywodraeth Cymru (2009), t. 111.

⁹⁷ Llais y Lli (2005).

⁹⁸ Llywodraeth Cymru (2011c), tabl 7.16 yn y ddogfen gysylltiedig.

Ffigur 54: % disgyblion uwchradd, blynyddoedd 7–11, yn ôl math o gwrs Cymraeg, 1977/78–2010/11



10.3.2 Dilyniant trwy'r sector uwchradd

Gellir cymharu'r canrannau o ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf yn ôl grŵp blwyddyn. Ar gyfartaledd, o ddechrau gyda charfan Blwyddyn 7 yn 1996/97 tan garfan Blwyddyn 7 2006/07, mae'r ganran sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yn gostwng 0.5 pwynt canran o Flwyddyn 7 at Flwyddyn 11.⁹⁹ Er enghraifft, roedd 16.2% o Flwyddyn 7 2006/07 yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf ond erbyn 2010/11 roedd y ganran wedi disgyn i 16.0% o Flwyddyn 11, 5,491 o ddisgyblion. Yn 2010/11 cofrestrodd 5,291 ar gyfer arholiad TGAU Cymraeg iaith gyntaf.¹⁰⁰ Cyfanswm y cofrestriadau yw'r ffigur hwnnw, yn cynnwys pawb, waeth beth fo'i oedran, er y byddai'r rhan fwyaf wedi bod ym Mlwyddyn 11.

Nodwedd fwyaf drawiadol Ffigur 54 yw'r cynnydd yn y ganran sydd yn dysgu Cymraeg ail iaith. Dechreuodd y cynnydd yn 1987/88 wrth i ysgolion ragweld y byddai dyfodiad Deddf Diwygio Addysg 1988 yn gwneud dysgu Cymraeg ail iaith yn orfodol. Erbyn 2000/01 roedd 84.5% yn dysgu Cymraeg fel ail iaith. Er bod gorfodaeth ar ysgolion i ddysgu Cymraeg ail iaith, nid oes gorfodaeth arnynt i gofrestru'r disgyblion i sefyll arholiad. Mae'r bwlbwch rhwng y niferoedd sy'n dysgu Cymraeg ail iaith yn yr ysgol a'r nifer sy'n sefyll arholiad lawer yn fwy na'r bwlbwch ar gyfer disgyblion Cymraeg iaith gyntaf. Ym Mlwyddyn 11 2010/11 roedd 28,516 o ddisgyblion yn dysgu Cymraeg ail iaith. Cofrestrodd 9,999 ar gyfer y cwrs TGAU llawn a 12,784 ar gyfer y cwrs byr, cyfanswm o


⁹⁹ Ibid, tabl 7.18 yn y ddogfen gysylltiedig.

¹⁰⁰ CBAC (2011).

22,783.¹⁰¹ Gweler Ffigur 55. Y flwyddyn gynt, ni safodd 27.7% o ddisgyblion 15 oed yr un arholiad TGAU Cymraeg (Ffigur 56).

Agwedd arall ar ddilyniant yw dilyniant o TGAU i Safon Uwch (lefel A). Mae Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yn cynnwys targed y dylai 7% o'r myfyrwyr safodd TGAU Cymraeg iaith gyntaf sefyll Safon Uwch iaith gyntaf erbyn 2015.¹⁰² Dangosir y tueddiadau yn Ffigur 58. Gan fod meddu ar Safon Uwch mewn Cymraeg yn debyg o fod yn drothwy i fynd ymlaen at yrfaedd lle mae hyfedredd uchel yn y Gymraeg yn hanfodol—i fod yn athro Cymraeg, er enghraifft—yn y tymor hir gallai'r niferoedd sy'n llwyddo cael Safon Uwch mewn Cymraeg fod yn ffactor tyngedfennol i ehangu ar y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg mewn sawl maes.


Ffigur 55: Nifer y disgyblion 15 oed a safodd arholiad TGAU Cymraeg, yn ôl math o arholiad, 1989–2011




¹⁰¹ Joint Council for Qualifications (2011), pob oed, yng Nghymru.

¹⁰² Llywodraeth Cymru (2010d).

Ffigur 56: % disgyblion 15 oed, yn ôl math o TGAU Cymraeg, 1995/96–2009/10




Ffigur 57: Nifer y disgyblion a safodd arholiad Safon Uwch Cymraeg, yn ôl pwnc, 1975–2011



Gwelir fod o gwmpas 900 o bobl wedi eu cofrestru ar gyfer Safon Uwch yn y Gymraeg yn y blynyddoedd diweddar (Ffigur 57). O'r rhain y bydd adrannau Cymraeg y prifysgolion yn tynnu eu myfyrwyr yn bennaf, ac yn y pen draw o'r

rhain yn bennaf y bydd cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon yn tynnu hefyd.

Ffigur 58: Dilyniant o TGAU Cymraeg i arholiad Safon Uwch, 1991–2011, a thargedau 2015



10.3.3 Trefniadaeth ysgolion uwchradd

Nid yw olrhain twf addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg wrth edrych ar dwf 'ysgolion Cymraeg' yn fwy ystyrion nag yn achos ysgolion cynradd. Mae ffigurau ar gael o 1989/90 hyd at 2008/09 am nifer yr 'ysgolion Cymraeg' yn ôl diffiniad Deddf Diwygio Addysg 1988 (Adran 3(7)) a drafodwyd eisoes pan edrychom ar ysgolion cynradd. Cynyddodd nifer yr ysgolion uwchradd Cymraeg hynny o 42 yn 1989/90 i 55 yn 2008/09. Gyda'r newid yn y categorïau o 2009/10, gwelir (Ffigur 59) yn 2010/11 nad oedd ond 32 ysgol 'cyfrwng Cymraeg' ond roedd hefyd 24 o ysgolion uwchradd dwyieithog (5 Categori A, 10 Categori B, 9 Categori C) ac 8 arall oedd yn gyfrwng Saesneg yn bennaf ond 'â defnydd sylweddol o'r Gymraeg'.¹⁰³ Yn 2010/11 roedd 11.4% o'r holl ddisgyblion ysgol uwchradd mewn ysgolion 'Cyfrwng Cymraeg' a 9.3% yn ysgolion categori A–C.

Mae'r twf mewn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cael ei adlewyrchu'n gywirach wrth ystyried y newid yn y ganran o blant sy'n dysgu Cymraeg iaith gyntaf (Ffigur 54). Fodd bynnag, nid yw'r gyfres honno'n cyfleu dim am ehangder dysgu pynciau eraill heblaw am y Gymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg.

¹⁰³ Llywodraeth Cymru (2011c), tablau 7.3 a 7.4 yn y ddogfen gysylltiedig.


Categori A: Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Mae un neu ddau o bynciau yn cael eu haddysgu i rai o'r disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall. Categori B: Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Categori C: Addysgir 50–79% o bynciau (ac eithrio'r Gymraeg a Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Yn anffodus, cymharol ychydig o ystadegau perthnasol a gyhoeddir. Cyhoeddir manylion am y nifer fesul pwnc sy'n cofrestru i sefyll TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2009/10 roedd 11% o holl gofrestriadau disgyblion 15 oed ar gyfer arholiad TGAU cyfrwng Cymraeg.¹⁰⁴ Yn yr un flwyddyn 16.3% o ddisgyblion Grŵp Blwyddyn 11 oedd yn dysgu Cymraeg iaith gyntaf er mai 14.5% o ddisgyblion 15 oed safodd TGAU yn y pwnc y flwyddyn honno.^{105,106} O'r rhai a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf, roedd 79.5% wedi cofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg, a 59.7% ar gyfer o leiaf pum.¹⁰⁷

Yn 2008/09 mewn dosbarthiadau chweched dosbarth ysgolion roedd 10.6% o weithgareddau dysgu myfyrwyr 16–19 oed yn rhai cyfrwng Cymraeg a 6.4% yn rhai dwyieithog.¹⁰⁸

Ffigur 59: Nifer o ysgolion uwchradd, yn ôl categori iaith, 1989/90–2010/11



10.4 Addysg bellach

Mae cryn amrywiaeth yn narpariaeth addysg bellach, yn arbennig yn ddaearyddol. Oherwydd hynny, ac amrywiaeth daearyddol dosbarthiad siaradwyr Cymraeg hefyd, a chan nad yw pawb yn symud o'r ysgol uwchradd i addysg bellach, nid oes modd ystyried dilyniant fel ag a wnaed wrth edrych ar addysg ysgol. Mae'n amlwg bod darpariaeth gyfrwng Cymraeg y sector yn gyfyngedig o'i chymharu â sector yr ysgolion uwchradd. Yn 2009/10 gwnaed

¹⁰⁴ Llywodraeth Cymru (2011d), tabl 2.6 yn y ddogfen gysylltiedig. Holl gofrestriadau heblaw am gofrestriadau mewn Saesneg, Llenyddiaeth Saesneg, Cymraeg, Cymraeg Ail iaith, Llenyddiaeth Gymraeg.

¹⁰⁵ Llywodraeth Cymru (2010c), tabl 11.61 yn y ddogfen gysylltiedig a StatsWales 007484.

¹⁰⁶ Ffigurau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

¹⁰⁷ Llywodraeth Cymru (2011i), t. 20.

¹⁰⁸ Ibid, t. 21.

4.2% o'r gweithgareddau dysgu mewn addysg bellach yn ddwyieithog a 0.5% (3,555) trwy gyfrwng y Gymraeg.¹⁰⁹ (Roedd 215 o'r 3,555 o weithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg yn ddysgu seiliedig ar waith mewn sefydliadau addysg bellach. Roedd 190 gweithgaredd dysgu seiliedig ar waith cyfrwng Cymraeg arall ond roedd y rheini gyda darparwyr hyfforddiant eraill. Roedd nifer debyg (140) o weithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg dysgu yn y gymuned gydag awdurdodau addysg lleol.) O'u cymharu ag ehangder dysgu cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol, mae'r rhain yn niferoedd a chanrannau isel.

10.5 Addysg uwch

10.5.1 Myfyrwyr

Er ei bod yn wir, fel yn achos addysg bellach, nad yw pawb yn symud o'r sector ysgolion i addysg uwch, mae 'dilyniant' yn bwnc mwy ystyrlon, gan nad oes yr un amrywiaeth yn natur a dosbarthiad daearyddol y ddarpariaeth. Un o nodweddion pennaf addysg uwch yw'r all-lif o fyfyrwyr i astudio mewn prifysgolion yn Lloegr sydd, yn amlwg, yn doriad mawr yn y dilyniant ieithyddol i gyfran sylweddol o fyfyrwyr. O 2000/01 tan 2005/06 roedd 34–35% o fyfyrwyr is-raddedig blwyddyn gyntaf addysg uwch o Gymru mewn sefydliad addysg uwch y tu allan i Gymru (o'r rhai oedd yn y Deyrnas Unedig). Gostyngodd y ganran i 27% erbyn 2009/10 pan oedd 5,780 o fyfyrwyr Cymru yn eu blwyddyn gyntaf y tu allan i Gymru, 98% ohonynt yn Lloegr.¹¹⁰ Mae pa ganran o'r rheini fydd yn dychwelyd i fyw yng Nghymru ar ôl gorffen eu hastudiaethau yn bwysicach i gynaliadwyedd nifer y siaradwyr Cymraeg yn Nghymru na chyfrwng eu dysgu mewn addysg uwch. Mae arolwg hydredol Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ar gyrchfannau ymadawyr o addysg uwch yn dangos bod 32.6% o'r myfyrwyr o Gymru (waeth ble fuont yn astudio) a raddiodd gyda gradd gyntaf yn 2006/07 ac a oedd yn gyflogedig ym mis Tachwedd 2010 yn gweithio (a gallwn gymryd y rhan amlaf yn byw) y tu allan i Gymru.¹¹¹ A bwrw y byddai o leiaf yr un ganran o'r 5,640 o Gymru a ddechreuodd ar radd gyntaf yn Lloegr yn 2009/10 yn aros yn Lloegr, a chan dybio bod 15% ohonynt yn gallu siarad Cymraeg, awgrymir y gallai fod all-lif blynyddol net o 300 o siaradwyr Cymraeg fod yn deillio o'r myfyrwyr aeth i wneud gradd gyntaf yn Lloegr yn unig.

Trown yn ôl i ystyried dilyniant yn y ffordd y cafodd ei ystyried yn yr ysgolion, sef dilyniant yng nghyfrwng y dysgu. Amcangyfrifir bod 39.8% o bobl 19 oed mewn addysg uwch amser llawn yn 2010 a 1.9% yn rhan amser.¹¹² Mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn 2009/10 roedd 7.8% o'r myfyrwyr blwyddyn gyntaf o Gymru'n derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy'r Gymraeg a chanran ychydig yn is yn achos yr holl fyfyrwyr o Gymru, 7.2%.¹¹³ Yr un pryd amcangyfrifir bod o gwmpas 15% (rhyw 10,500) o'r myfyrwyr o Gymru'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Ymddengys felly fel pe bai hanner y myfyrwyr rhugl eu Cymraeg nad ydynt yn derbyn dim o'u haddysg drwy'r Gymraeg. Nifer y myfyrwyr oedd yn cael peth o'u haddysg drwy'r Gymraeg yn 2009/10 oedd

¹⁰⁹ Llywodraeth Cymru (2011g).

¹¹⁰ StatsWales 002401.

¹¹¹ Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (2011), tabl 12.

http://www.hesa.ac.uk/dox/dl/he_longitudinal/0607/tables/LONGDLHE_0607_Table_12.xls.

¹¹² Llywodraeth Cymru (2011b) a StatsWales 000769.

¹¹³ Llywodraeth Cymru (2011a).

4,905, ychydig yn is nag yn 2008/09. Roedd traean o'r rhain yn fyfyrwyr rhan-amser, ychydig dros fil ohonynt yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Yn nhermau myfyrwyr cyfwerth ag amser llawn, roedd 1,757 yn derbyn peth o'u haddysg drwy'r Gymraeg (1.8% o holl fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn mewn addysg uwch yng Nghymru).¹¹⁴

Roedd 352 o'r 1,757 (20%) yn astudio'r Gymraeg drwy'r Gymraeg ac 80 drwy'r Saesneg. O'r 352 roedd 288 yn fyfyrwyr amser llawn. Byddai'r rhif hwnnw'n cynnwys myfyrwyr ôl-raddedig. Mae cymharu hwnnw gyda'r nifer sydd wedi bod yn sefyll arholiad Safon Uwch yn y Gymraeg, o gwmpas 350 iaith gyntaf a 550 ail iaith, yn rhoi cyd-destun i'r niferoedd hyn. Awgrymant y gallai fod o gwmpas un ymhob naw o'r rhai sy'n sefyll arholiad Safon Uwch mewn Cymraeg yn parhau ag astudiaeth o'r pwnc mewn prifysgol.

10.5.2 Hyfforddi cychwynnol athrawon

Cododd nifer y myfyrwyr blwyddyn gyntaf yng Nghymru oedd ar gyrsiau hyfforddi cychwynnol athrawon (HCA) a fyddai'n eu galluogi i ddysgu'n ddwyieithog neu a fyddai'n arwain at dystysgrif ffurfiol mewn addysg ddwyieithog o 215 yn 2007/08 i 230 yn 2008/09 ac i 250 yn 2009/10, 12.9% o'r holl fyfyrwyr HCA blwyddyn gyntaf. Roedd y niferoedd a gwblhaodd eu cyrsiau yn yr un flynyddoedd ychydig yn is: 190 yn 2007/08, 225 yn 2008/09 a 230 yn 2009/10 (12.4% o'r cyfan).

Yn 2007/08 roedd 35 o fyfyrwyr yn astudio i ddysgu Cymraeg yn y sector uwchradd. Cododd y nifer i 65 yn 2008/09 cyn disgyn i 50 yn 2009/10.¹¹⁵

Mae gwneud gradd yn y Gymraeg ac wedyn mynd yn athro i'w dysgu yn llwybr gyrfaoel traddodiadol. Roedd 75% o'r rhai a gofrestrodd ar eu blwyddyn gyntaf yn 2009/10 ar gyrsiau tystysgrif addysg i raddedigion (TAR). O ystyried y ffigurau a drafodwyd uchod am fyfyrwyr y Gymraeg mae'n ymddangos fel bod canran uchel o raddedigion y Gymraeg yn parhau i hyfforddi i fod yn athrawon.

10.6 Cymraeg i Oedolion

Mae Cymraeg i Oedolion yn cyfeirio at y drefn o ddysgu Cymraeg i oedolion heblaw'r rheini a allai fod yn dysgu Cymraeg mewn addysg amser llawn neu ran amser. Mae'r drefn honno'n cael ei gweithredu yn bennaf gan chwe chanolfan Cymraeg i Oedolion sydd er 2007/08 i gyd ond un wedi eu lleoli mewn sefydliadau addysg uwch er bod eu gweithgareddau'n cael eu hystyried yn weithgareddau addysg bellach.¹¹⁶ Yn ogystal mae rhywfaint o ddarpariaeth, yn nhermau cyrsiau, i oedolion ddysgu Cymraeg ar gael gan y sectorau preifat a gwirfoddol ond nid oes ystadegau ar gael amdanynt.

Amcangyfrifwyd bod 17,865 o ddysgwyr yn 2009/10 gan y canolfannau. Yn 2001 roedd 1,482 mil o bobl 25-74 oed nad oedd yn gallu siarad Cymraeg sy'n rhoi syniad bras o faint posibl cynulleidfa darged i ddysgu Cymraeg i oedolion ac mae'n awgrymu bod ychydig dros 1% y boblogaeth ddi-Gymraeg 25-74 oed

¹¹⁴ Ibid, tabl A.4: ni chynhwysir 70 o fyfyrwyr amser llawn a 15 rhan amser ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd.

¹¹⁵ Llywodraeth Cymru (2011e).


¹¹⁶ Mae Coleg Gwent yn sefydliad addysg bellach.

sy'n astudio Cymraeg mewn blwyddyn. Gwnaed swm tebyg yn 1993 pan gofnodwyd bod 13,338 o ddysgwyr.¹¹⁷ O gyfrifo'r ganran ar yr un sail â'r uchod ceir bod hynny ychydig o dan 1% o'r boblogaeth ddi-Gymraeg.

Mae dysgwyr sydd yn dilyn cyrsiau'r canolfannau Cymraeg i Oedolion yn cael credydau dysgu am eu gwaith, naill ai gan CBAC neu gan Agored Cymru. Nid oes ystadegau cyfun amdanynt yn cael eu cyhoeddi gan y Llywodraeth. Yn 2009/10 roedd tua 3,600 o bobl wedi ennill credydau CBAC ar lefel Mynediad, 1,400 o bobl wedi ennill credydau CBAC ar lefel Sylfaen a thua 700 wedi ennill credydau CBAC ar lefel Canolradd.¹¹⁸ Bydd eraill wedi derbyn credydau Agored Cymru.

Yn 2010 safodd 56 o bobl arholiad Uwch CBAC, sy'n cyfateb i o leiaf lefel B2/C1 ALTE/Fframwaith Cyfeirio Ewrop ac, yn fras i arholiad lefel A. (Cofier bod o gwmpas 550 yn sefyll lefel A Cymraeg ail iaith bob blwyddyn.) Safodd 230 o bobl arholiad Canolradd sy'n cyfateb yn fras i TGAU.

Ffigur 60: Arholiadau Cymraeg i Oedolion, nifer ymgeiswyr, 1996–2010



¹¹⁷ Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru (1994), tabl 3. Cyfrifwyd y ganran ar sail y nifer nad oedd yn gallu siarad Cymraeg oedd yn 18 oed neu'n hŷn.

¹¹⁸ CBAC (2010), t. 62.

11 Gweithlu

11.1 Dosbarthiad siaradwyr Cymraeg

Ym mha alwedigaethau y mae siaradwyr Cymraeg yn gweithio, ar ba lefel ac ym mha ddiwydiannau? Mae siaradwyr Cymraeg yn gweithio ymhob diwydiant a galwedigaeth i ryw raddau ond y cwestiwn mwy diddorol yw i ba raddau, hynny yw, oes cyfran mwy ohonynt yn gweithio mewn un diwydiant, neu mewn un alwedigaeth na'r gyfran o bobl na allant siarad Cymraeg?

Gan fod dosbarthiad daearyddol siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru'n anghyfartal mae dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg yn ôl diwydiant a galwedigaeth yn adlewyrchu i raddau y cyfleoedd sydd ar gael ynddynt yn lle maent yn byw. Gan fod profiad gwrywod a menywod yn amrywio'n fawr, mae'n werth ystyried y gwahaniaeth rhwng y ddau ryw pan ystyriwn y pwnc hwn hefyd. Dechreuwn wrth edrych ar ganlyniadau Cyfrifiad 2001 ac wedyn edrychwn ar dystiolaeth fwy diweddar, o Arolwg Blynyddol y Boblogaeth ac Arolygon Defnydd Iaith 2004–06.

Rhoddodd Cyfrifiad 2001 fanylion am ddiwydiant a galwedigaeth pobl 16–74 oed a oedd wedi eu cyflogi yn ystod yr wythnos cyn y cyfrifiad. Adeg y cyfrifiad roedd 17% o'r rhai o'r oed yma oedd yn weithredol yn economaidd yn gallu siarad Cymraeg.¹¹⁹ O'r rhai economaidd weithgar hyn roedd 21.1% o'r hunan gyflogedig yn gallu siarad Cymraeg, o'i chymharu ag 16.1% o'r rhai oedd yn weithwyr cyflogedig ac 13.9% o'r di-waith.¹²⁰ O'r rhai oedd yn economaidd segur, 16.4% oedd yn gallu siarad Cymraeg.¹²¹

Mae Ffigur 61 yn dangos dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg ar draws y diwydiannau.¹²² Y diwydiant gweithgynhyrchu oedd y cyflogwr mwyaf o ddynion oedd yn gallu siarad Cymraeg er mai yn y diwydiant amaeth, lle cyflogid 9% o'r dynion oedd yn gallu siarad Cymraeg, y cafwyd y ganran uchaf yn gallu siarad Cymraeg (Ffigur 62). Roedd y merched wedi eu dosbarthu'n llai eang: roedd 22% o'r merched oedd yn gallu siarad Cymraeg yn gweithio mewn iechyd a gwaith cymdeithasol ac 19% mewn addysg.


¹¹⁹ Yn gweithio neu'n chwilio i weithio ac ar gael i weithio.

¹²⁰ Cyfrifiad 2001, tabl T39.


¹²¹ Economaidd segur: yn cynnwys rhai wedi ymddeol, myfyrwyr heblaw'r rheini oedd yn economaidd weithgar, rhai â gofal am y cartref ac rhai â salwch neu anabledd parhaol.

¹²² Seilir dosbarthiad y diwydiannau ar 'Ddosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU o Weithgareddau Economaidd 1992' (SIC92).

Ffigur 61: Dosbarthiad siaradwyr Cymraeg yn ôl diwydiant, yn ôl rhyw, Cyfrifiad 2001



Ffigur 62: % yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl rhyw a diwydiant, Cyfrifiad 2001




Mae Ffigur 63 yn dangos dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg ar draws y galwedigaethau¹²³. Y galwedigaethau pwysicaf o ran cyflogaeth dynion oedd y galwedigaethau masnachau crefftus (sy'n cynnwys ffermwyr): roedd 27% o'r

¹²³ Yn ôl SOC2000 (Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol).

dynion oedd yn gallu siarad Cymraeg yn y galwedigaethau hynny. Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol oedd bwysicaf i fenywod: roedd 19% o'r menywod oedd yn gallu siarad Cymraeg yn gweithio yn y rheini.

Ffigur 63: Dosbarthiad siaradwyr Cymraeg yn ôl galwedigaeth, yn ôl rhyw, Cyfrifiad 2001




Roedd cyfran uchel o'r menywod oedd yn gallu siarad Cymraeg mewn galwedigaeth broffesiynol. O ganlyniad roedd 29% o'r holl fenywod oedd yn y galwedigaethau hynny'n gallu siarad Cymraeg (o'i chymharu ag 18.1% oedd yn gallu siarad Cymraeg o'r holl ferched 16–74 oed oedd yn gweithio). Roedd y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg ymhlith y dynion oedd mewn galwedigaeth broffesiynol hefyd yn uwch na'r ganran ar gyfer dynion yn y gweithlu cyfan: 19% o'i chymharu ag 16.1% (Ffigur 64). (Mae swyddi athrawon wedi eu cynnwys ymhlith y galwedigaethau proffesiynol.) O edrych ar yr is-grŵp o weithwyr proffesiynol addysg ac ymchwil gwelir bod 27.0% o'r gwrywod a 34.5% o'r menywod yn gallu siarad Cymraeg. Mae is-grŵp y galwedigaethau diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon yn un arall lle ceir canrannau uchel yn gallu siarad Cymraeg: 20.6% ymhlith y gwrywod a 28.9% ymhlith y menywod.¹²⁴ O balu'n ddyfnach eto (gan ddefnyddio sampl 3% unigolion), gwelir mai yn y grwpiau bach o'r galwedigaethau artistig a llenyddol, a'r rhai cysylltiedig â cyfryngau y ceir y canrannau uchaf: 28% yn y ddau achos am y ddau ryw gyda'i gilydd.¹²⁵

¹²⁴ Cyfrifiad 2001, tabl S138.

¹²⁵ Cyfrifiad 2001, SARs.

Ffigur 64: % yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl rhyw a galwedigaeth, Cyfrifiad 2001



Mae Arolwg Blynyddol y Boblogaeth yn rhoi data diweddarach. Ym mlwyddyn galendar 2010, roedd 11.2% o'r siaradwyr Cymraeg yn rheolwyr ac uwch swyddogion ac 17.7% yn y galwedigaethau proffesiynol: y canrannau cyfatebol o'r rhai nad oedd yn gallu siarad Cymraeg oedd 13.7% ac 11.5%. Mae Arolwg Blynyddol y Boblogaeth, fel ei ragflaenydd, Arolwg y Llafurlu, wedi bod yn cynhyrchu amcangyfrif uchel o'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg mewn cymhariaeth â'r cyfrifiad ac arolygon eraill.¹²⁶ Amcangyfrif Arolwg y Boblogaeth yn 2010 oedd bod 24.8% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Gallai'r amcangyfrifon am y canrannau sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl galwedigaeth fod yn gymharol uchel hefyd o'r herwydd. Amcangyfrif yr Arolwg am ganran y rheolwyr ac uwch swyddogion mewn cyflogaeth oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2010 oedd 19.9% (oed gweithio, nid 16–74 fel yng Nghyfrifiad 2001), i lawr o amcangyfrif 20.9% yn 2001, tra gostyngodd y ganran o'r rhai oedd yn gallu siarad Cymraeg yn y galwedigaethau proffesiynol i 31.8%, i lawr o 34.9% yn 2001.¹²⁷

Mae ffynonellau data eraill ar gael am rai galwedigaethau ac fe all y rhain roi darlun gwahanol. Mae meddygon teulu, er enghraifft, yn un o'r galwedigaethau proffesiynol. Yn ôl Cyfrifiad 2001 roedd 23.6% o bobl y galwedigaethau proffesiynol yn gallu siarad Cymraeg ond roedd cryn amrywiaeth o fewn yr is-gategoriâu. Roedd 17.0% o'r bobl iechyd broffesiynol yn gallu siarad Cymraeg o'i chymharu â 31.8% o'r galwedigaethau dysgu ac ymchwil proffesiynol.¹²⁸ Yn 2001, roedd tua 11,000 o bobl yn y galwedigaethau iechyd proffesiynol ac o gwmpas 1,900 ohonynt yn gallu siarad Cymraeg.

¹²⁶ L. Haselden (2004).

¹²⁷ Ar sail ffigurau ddarparodd Llywodraeth Cymru.

¹²⁸ Cyfrifiad 2001, tabl S138.

Ar 30 Medi 2010 roedd 286 meddyg teulu yng Nghymru oedd yn gallu siarad Cymraeg, allan o 1,991 (yn fras: gan na ddaw'r ddau ffigur o'r un ffynhonnell mae gwahaniaethau yn y diffiniadau).^{129,130} Roedd o gwmpas 14% o'r holl feddygon teulu'n gallu siarad Cymraeg felly.

Mae'r Byrddau Iechyd yn cyhoeddi cyfeiriadur sy'n rhestru meddygon ac ymhlith y manylion a roddir y mae'r ieithoedd mae'r meddygon yn eu siarad.¹³¹ Ar ddiwedd Rhagfyr 2010, o'r ffynhonnell honno cyfrifwyd bod 7% o'r holl feddygon teulu'n siarad Cymraeg, lawer yn is na'r ganran a roddwyd uchod. Awgrymwyd mai amharodrwydd rhai meddygon i gynnig ymgynghoriad trwy gyfrwng y Gymraeg yw achos o leiaf peth o'r gwahaniaeth.

11.2 Gweithlu'r sector addysg

Gan fod cynaliadwyedd y Gymraeg yn dibynnu'n drwm ar y sector addysg, edrychwn nawr ar ystadegau gweithlu'r sector.

11.2.1 Athrawon ysgol

Mae'r proffesiwn dysgu wedi bod yn faes cyflogaeth pwysicach i siaradwyr Cymraeg nag i'r rhai di-Gymraeg ers blynyddoedd ac mae hynny'n wir o hyd. Adroddodd Cyfrifiad 2001 fod 17,500 o'r 53,000 o'r 'gweithwyr proffesiynol addysgu', sef 33%, yn gallu siarad Cymraeg, sy'n cymharu â'r 17% sy'n gallu siarad Cymraeg yn y boblogaeth gyfan gyfatebol, hynny yw, pobl 16–74 oed a oedd mewn cyflogaeth yr wythnos cyn y cyfrifiad.¹³²

Tra bod 4.5% o'r boblogaeth gyfan yn 'weithwyr proffesiynol addysgu', 8.6% o'r siaradwyr Cymraeg oedd yn yr alwedigaeth.¹³³

Yn ôl diwydiant, adroddodd Cyfrifiad 2001 bod 96,384 yn gweithio mewn addysg, ac o'r rheini roedd 26,405 yn gallu siarad Cymraeg, sef 27%.¹³⁴ (I roi y rheini mewn cyd-destun, yn ôl ystadegau addysg, roedd yn Ionawr 2001, 28,786 o athrawon cymwysedig mewn ysgolion, ffigur a ostyngodd ychydig i 28,417 yn Ionawr 2011.¹³⁵ Roedd 38,770 o athrawon wedi eu cofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar 1 Mawrth 2011.¹³⁶) 29.2% o bobl 20–44 oed oedd yn gweithio mewn addysg oedd yn gallu siarad Cymraeg tra 25.6% oedd y ganran ymhlith pobl 45–64 oed.¹³⁷ Efallai bod hyn ychydig yn groes i'r disgwyl. Rhaid cofio hefyd fod y diwydiant addysg yn ehangach na'r sector ysgolion yn unig.

Bydd ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn gofyn am athrawon cymwys i ddysgu trwy gyfrwng yr iaith. Bydd eisiau iddynt ddod naill ai oddi fewn i'r gweithlu presennol (boed mewn gwaith, neu ar gofrestr y Cyngor Addysgu ac

¹²⁹ StatsWales 17552.

¹³⁰ StatsWales 17551.

¹³¹ <http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/cyfeiriadur>

¹³² Cyfrifiad 2001, tabl M340 a gomisiynwyd. Yn fanwl, niferoedd pobl 16–74 oed oedd mewn cyflogaeth yr wythnos cyn y Cyfrifiad yw'r rhain.

¹³³ Cyfrifiad 2001, tabl M340 a gomisiynwyd.

¹³⁴ Cyfrifiad 2001, tabl S140.

¹³⁵ StatsWales 007551.

¹³⁶ Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (2011).

¹³⁷ Cyfrifiad 2001, tabl T39.

yn barod i weithio) neu o'r tu allan drwy hyfforddi athrawon newydd. Edrychwn ar y sefyllfa bresennol gyda hyn mewn cof.

Yn ôl ystadegau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru roedd 32.0% (12,396) o'r athrawon ar eu cofrestr ym mis Mawrth 2011 yn 'siaradwr Cymraeg'.¹³⁸ (Gan na roddwyd gwybodaeth am eu gallu gan 9.4% o'r athrawon, gallai'r ganran go iawn fod cyn uchod â 35.3%.) Roedd canrannau tebyg ymhlith yr athrawon oedd newydd gymhwyso (32.5%) a'r rhai oedd wedi bodloni'r safon Sefydli (35.9%) sy'n awgrymu bod y ganran o siaradwyr Cymraeg o fewn y proffesiwn yn weddol sefydlog ac yn uchel o hyd. Mae'r canrannau sy'n ystyried eu hunain yn gymwys i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn is: 25.2% o'r athrawon newydd gymhwyso yn 2011 a 27.9% o'r rhai a gyrhaeddodd y safon Sefydli.¹³⁹ (Cofier mai 22% o'r disgyblion cynradd sydd mewn dosbarthiadau lle defnyddir y Gymraeg fel prif gyfrwng neu'n rhannol.)

O'r holl athrawon ar gofrestr y Cyngor Addysgu ym mis Mawrth 2011 dywedodd 10,213 eu bod yn gallu dysgu trwy gyfrwng yr iaith, 26.3% o'r holl athrawon, ac nid oedd gwybodaeth ar gael am 3,753 (9.7%). Dywedodd 13,263 o'r athrawon cofrestredig eu bod yn gweithio yn y sector uwchradd. Yn Ionawr 2011 roedd 12,935 o athrawon mewn ysgolion uwchradd.¹⁴⁰ O'r rheini, roedd cyfanswm o 1,056 yn dysgu Cymraeg (400 iaith gyntaf a 656 ail iaith yn unig), a 1,848 arall yn dysgu pynciau eraill trwy'r Gymraeg.¹⁴¹ (Mae'r cyfanswm oedd yn dysgu Cymraeg yn cyfateb yn rhyfeddol i ffigurau'r Cyngor Addysgu a ddangosodd 1,055 yn dysgu Cymraeg er mai dim ond 835 a hyfforddwyd mewn 'Astudiaethau Cymraeg' a dim ond 875 ohonynt a ddywedodd eu bod yn gallu dysgu Cymraeg trwy'r Gymraeg.^{142,143}) Ystyriwyd 570 o athrawon eraill yn rhai oedd yn gymwys i addysgu'r Gymraeg (nid, sylwer, i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg) ond nad oeddynt yn gwneud.¹⁴⁴ Roedd cyfanswm felly o 3,474 o athrawon mewn ysgolion uwchradd a oedd naill ai'n dysgu Cymraeg, neu'n gymwys i wneud, neu'n dysgu trwy gyfrwng yr iaith, a'r rheini'n 27% o'r holl athrawon uwchradd. (Mae hon yn debyg iawn i'r ganran a roddwyd ar ddechrau'r paragraff, er bod honno'n cyfeirio at yr holl athrawon nid y rhai uwchradd yn unig.) Byddai hepgor y rhai a allai addysgu'r Gymraeg ond nad oedd yn gwneud a'r rhai oedd yn dysgu Cymraeg ail iaith yn unig yn ein gadael â 2,248 yn dysgu Cymraeg iaith gyntaf, neu'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, sef 17% o'r cyfan. (Cymharer honno â'r 16.7% o ddisgyblion blynyddoedd 7–11 oedd yn 2010/11 yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf.¹⁴⁵) Yn anffodus, mae hyn yn ein gadael heb amcangyfrif arall o faint o athrawon uwchradd allai ddysgu pynciau (ag eithrio'r Gymraeg) trwy gyfrwng yr iaith ond mae cofrestr y Cyngor Addysg yn taflu rhywfaint o oleuni ar hyn. Gan gyfrif pob pwnc unigol y mae athro'n gymwys i'w dysgu trwy'r Gymraeg ceir 4,297, gan gynnwys 875 yn gymwys i ddysgu'r Gymraeg trwy'r Gymraeg. Gan fod athro'n gallu dysgu mwy nag un pwnc mae'r nifer honno'n cynnwys cyfrif rhai athrawon ddwywaith neu

¹³⁸ Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (2011). Mae canllawiau y Cyngor ar y ffurflen gais i athro gofrestru yn dweud y dylai'r athro ateb eu bod yn siarad Cymraeg os ystyriant eu hunain i fod yn rhugl neu'n eithaf rhugl yn y Gymraeg. Ran amlaf dim ond rhyw dwy ran o dair o bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg sy'n dweud eu bod yn rhugl.

¹³⁹ Ibid.

¹⁴⁰ Llywodraeth Cymru (2011c) SDR 153/2011. tabl 5.4 yn y ddogfen gysylltiedig.

¹⁴¹ Ibid, tabl 7.19 yn y ddogfen gysylltiedig.

¹⁴² Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (2011, tabl 1.11).

¹⁴³ Ibid, (2011, tabl 1.10).

¹⁴⁴ Llywodraeth Cymru (2011c), tabl 7.19 yn y ddogfen gysylltiedig.

¹⁴⁵ Ibid, tabl 7.16 yn y ddogfen gysylltiedig.

ragor. Ar sail y patrwm a gofnodwyd am yr holl athrawon uwchradd ar y gofrestr, gellir amcangyfrif bod nifer yr athrawon sy'n gymwys i ddysgu pynciau trwy'r Gymraeg rhyw 20% yn llai, yn nes at 3,400 efallai. (Ni chofnododd 1,743 o athrawon pwnc, efallai 1,400 o athrawon unigol, a oeddynt yn gallu dysgu trwy'r Gymraeg.¹⁴⁶) Byddai'r 3,400 yn cynnwys o gwmpas 700 cymwys i ddysgu Cymraeg sy'n awgrymu bod o gwmpas 2,700 sy'n ystyried eu hunain yn gymwys i ddysgu pynciau eraill drwy'r Gymraeg.¹⁴⁷ Cofiw'n fod yr ysgolion wedi adrodd bod 1,848 yn dysgu pynciau eraill heblaw am y Gymraeg trwy'r Gymraeg. Awgryma y gallai fod o gwmpas 800 o athrawon mewn ysgolion a allai fod yn gymwys i ddysgu pynciau trwy'r Gymraeg nad ydynt yn gwneud ar hyn o bryd. Hwyrach fod ysgolion wedi cynnwys o leiaf rhai o'r rhain, efallai ar gam, ymhlith y 570 y dywedwyd eu bod yn gymwys i addysgu'r Gymraeg. Mae 800 yn cynrychioli ychydig dros 6% o gyfanswm yr athrawon uwchradd oedd mewn ysgolion ym mis Ionawr 2011. Ac adio'r rhain at yr 17% oedd yn barod yn dysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf neu'n dysgu pynciau eraill drwy'r Gymraeg, byddai'n rhoi potensial i 23% o'r holl athrawon sydd yn dysgu eisoes gyfrannu at addysg cyfrwng Cymraeg, ychydig yn is na'r 26.3% o'r holl athrawon *ymhob sector* y dywedwyd ar gofrestr y Cyngor Addysgu eu bod yn gymwys dysgu trwy'r Gymraeg.

Mae datblygiad dysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysg cyfrwng Cymraeg yn mynd i ddiwyddu ar y gweithlu. Dyna gyfiawnhad dros roi cymaint o fanylion yn yr adran hon. Mae cyfatebiaeth rhwng canran y disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf a chanran yr athrawon sy'n dysgu'r pwnc yn agos. Tynnwyd sylw yn y paragraff blaenorol at y ffaith bod 16.7% o ddisgyblion uwchradd yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf (Ffigur 54) a bod 17% o'r athrawon naill ai'n addysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf neu'n dysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gyfatebiaeth hon yn awgrymu y bydd angen cynyddu'r ganran honno o 17% o'r gweithlu os yw targed y Llywodraeth i gael 23% yn cael ei hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 yn 2020 (Ffigur 53) i'w gyrraedd.¹⁴⁸

Trafodwyd hyfforddi athrawon o dan 10.5.2. Mae modelu'r gweithlu wedi ei nodi fel pwynt gweithredu yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg y Llywodraeth.¹⁴⁹ Bydd datblygu model yn gwneud y cysylltiadau rhwng llif disgyblion o'r ysgolion i'r colegau a'r gweithlu cyfredol yn amlwg. Dylai fod modd barnu pa mor gynaliadwy mae'r sefyllfa bresennol a gweld y goblygiadau ar gyfer twf pellach addysg cyfrwng Cymraeg.

11.2.2 Addysg bellach

Yn ôl cofnodion y staff unigol roedd 630 (9%) o staff y sefydliadau addysg bellach yn dysgu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn 2008/09.¹⁵⁰ Roedd 65% o'r

¹⁴⁶ Dadansoddiad o ffigurau a ddarparwyd gan y Cyngor Addysgu ar 6 Medi 2011.

¹⁴⁷ Mae tabl 1.12 Crynodeb Ystadegau Blynyddol Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 2011 yn dangos 733 yn dysgu Cymraeg fel pwnc craidd yn y sector uwchradd.


¹⁴⁸ Llywodraeth Cymru (2010d), t. 23.

¹⁴⁹ Ibid, t. 39.

¹⁵⁰ Cafodd awdit a wnaed yn 2007 ganran debyg: Lifelong Learning UK (2007).

staff hyn mewn sefydliadau yng ngogledd Cymru.¹⁵¹ Mae Ffigur 65 yn dangos sut yr amrywiai'r ganran fesul sefydliad.

Ffigur 65: % o staff yn dysgu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, yn ôl sefydliad addysg bellach 2008/09



11.2.3 Addysg uwch

Dilyniant amlwg i rai myfyrwyr mewn addysg uwch yw ceisio am swydd yn y sector. Mae'r nifer o staff mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu o 32% rhwng 2005/06 a 2009/10, i 705. Nid yw'r niferoedd sy'n dysgu drwy'r Gymraeg wedi codi mor gyflym: cafwyd cynnydd o ddim ond 10% ers 2005/06, i 460. Yn nhermau staff cyfwerth ag amser llawn, ni fu cynnydd o gwbl: roedd 315 yn 2005/06 a 300 yn 2009/10 (4.6% o'r cyfanswm o 6,550 o staff cyfwerth ag amser llawn).¹⁵²

¹⁵¹ Llywodraeth Cymru (2011f), tabl 7.

¹⁵² Llywodraeth Cymru (2011a), tabl D.1.

12 Defnydd Iaith

Dylem wahaniaethu rhwng y defnydd y mae unigolion yn ei wneud o'r iaith, a'r defnydd a wneir o'r iaith gan sefydliadau o bob math. Yn gyntaf, ystyriwn y dystiolaeth ar y defnydd gan unigolion.

12.1 Defnydd unigolion

Hyd yma, wedi edrych ar y dystiolaeth ynglŷn â dosbarthiad sgiliau yn y Gymraeg rydym wedi ei wneud yn bennaf, boed y dosbarthiad yn un daearyddol neu ar draws oedrannau gwahanol. O'r sgiliau gwahanol, ar y gallu i siarad Cymraeg rydym wedi ffocysu'n arbennig. Yn achos pobl uniaith, ni fyddai'n rhaid gwahaniaethu wrth ddadansoddi rhwng eu gallu â'u defnydd o iaith: un iaith y gallent ei defnyddio. Ond pan fo unigolyn yn gallu siarad mwy nag un iaith, rhaid gwahaniaethu. Mae'r defnydd y mae unigolyn yn ei wneud o iaith benodol yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau sydd i gyd yn dylanwadu ar ba iaith y bydd yn ei defnyddio ar unrhyw adeg.


Ystyriwn dystiolaeth am ddefnydd llafar, a darllen ac ysgrifennu. Ni chyffyrddir o gwbl â defnydd y Gymraeg trwy wyllo neu wrando ar y cyfryngau.

12.1.1 Amllder siarad Cymraeg

Cyfeiriwyd eisoes at Arolygon Defnydd Iaith 2004–06. Cynhwyswyd cwestiwn yn y rheini oedd wedi ei foddelu ar gwestiwn a oedd wedi ei ddefnyddio'n gyntaf yn Nghyfrifiad Poblogaeth 1996 Gweriniaeth Iwerddon. Gofynnodd cwestiwn yr arolygon, i rai a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg, a oeddent yn siarad Cymraeg bob dydd, bob wythnos, yn llai aml, neu byth. O 2007 ymlaen mae'r un cwestiwn wedi cael ei ofyn yn Arolwg Blynyddol y Boblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol.


Yn 2004–06 dywedodd 63% o'r rhai oedd yn gallu siarad Cymraeg eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd ac 17% arall eu bod yn ei siarad bob wythnos. Mewn niferoedd, amcangyfrifwyd bod 342 mil yn siarad Cymraeg bob dydd. Dywedodd 87% (a amcangyfrifwyd i olygu 276 mil) o'r siaradwyr rhugl eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd, o'i chymharu â 29% o'r rhai nad oeddynt yn rhugl. Mae Ffigur 66 yn dangos sut amrywiai'r ganran a siaradai Gymraeg bob dydd yn ôl awdurdod yn 2004–06, yn ôl yr Arolygon Defnydd. Fel a wnaed yn Ffigur 34, cynhwysir bar o gwmpas pob pwynt sy'n dynodi cyfwng hyder 95% o gwmpas yr amcangyfrif pwynt. Gallai'r ganran go iawn fod cyn ised â phen chwith y bar, neu cyn uchod â'r pen de. Lle roedd y sampl yn gymharol fach, mae hyd yn llinell yn gymharol hir. Lle roedd sampl maint mwy sylweddol, mae'r bar yn fyrrach a llai o le i amau'r amcangyfrif pwynt.

Ffigur 66: % o'r siaradwyr Cymraeg sy'n siarad Cymraeg bob dydd, yn ôl Arolygon Defnydd laith 2004–06



Mae Ffigur 67 yn ceisio amlygu natur rhai perthnasau ar lefel awdurdod lleol, rhwng y canrannau sy'n gallu siarad Cymraeg, y canrannau yn y boblogaeth sy'n rhugl, y canrannau o siaradwyr Cymraeg sy'n siarad Cymraeg bob dydd, a'r canrannau o'r siaradwyr a siaradodd Cymraeg yn eu sgwrs ddiweddaraf y tu allan i'r teulu. Er enghraifft, ymddengys fel bod y ganran o siaradwyr Cymraeg a sgwrsiodd yn Gymraeg yn eu sgwrs ddiweddaraf yn cynyddu'n llinol wrth i'r ganran sy'n siarad Cymraeg bob dydd gynyddu—er bod y ganran o sgwrsiau yn is yn gyffredinol na'r ganran sy'n siarad Cymraeg bob dydd. Ar y llaw arall, pan edrychir ar y berthynas rhwng y ganran o siaradwyr Cymraeg sy'n siarad Cymraeg bob dydd a'r ganran yn y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn rhugl—neu sy'n gallu siarad Cymraeg— mae'n edrych fel bod perthynas gromlinog. Wrth i'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl yn y boblogaeth godi, mae'r ganran o siaradwyr sy'n siarad Cymraeg bob dydd yn codi'n gyflymach. Er na ddylid, ran amlaf, ddehongli bodolaeth cydberthynas i olygu bod perthynas achosol yn bodoli rhyngddynt, yn yr achos hwn mae rheswm i gredu bod y fath berthynas achosol yn bodoli. Gan fod 'siarad Cymraeg yn ddyddiol' yn gofyn i ymatebydd ystyried a yw'n cael o leiaf un sgwrs yn Gymraeg, byddid yn disgwyl y byddai'r ganran o siaradwyr a fyddai'n ymateb yn gadarnhaol yn cynyddu'n gyflym wrth i'r ganran o siaradwyr rhugl gynyddu'n raddol.

Ffigur 67: Y berthynas rhwng y canrannau sy'n gallu siarad Cymraeg, sy'n rhugl, sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac a siaradodd Cymraeg yn eu sgwrs ddiweddaraf, 2004–06



Mae ymgais i fodelu y tebygolrwydd y bydd unigolyn yn siarad Cymraeg bob dydd wedi dangos bod siarad Cymraeg yn rhugl, y ganran sy'n siarad Cymraeg yn yr ardal breswyl, a byw mewn cartref lle mae pawb yn gallu siarad Cymraeg, i gyd yn ffactorau, sydd—nid yn annisgwyl—yn gysylltiedig â chynnydd yn y tebygolrwydd y bydd yr unigolyn yn siarad Cymraeg yn ddyddiol. Mae bod yn 16 i 29 oed yn gysylltiedig â gostyngiad yn y tebygolrwydd o siarad Cymraeg yn ddyddiol, o'i gymharu â bod rhwng 11 a 15 oed, a bod dros 65 oed hefyd yn gysylltiedig â gostyngiad.¹⁵³

Mynd â ni at dir mathemategol y mae hwn. Mae'r mathemategydd 'Txillardegî' yng Ngwlad y Basg wedi datblygu model i amcangyfrif faint o sgwrsiau y gellid disgwyl iddynt fod mewn iaith benodol mewn ardal lle mae rhai siaradwyr dwyieithog a rhai eraill uniaith.¹⁵⁴ Yn ogystal â'r ganran sy'n gallu siarad yr

¹⁵³ H. Jones (2008).

¹⁵⁴ Alvarez Enparantza (2001).

iaith, defnyddir dwy ffactor arall, un i adlewyrchu i ba radd y mae'r boblogaeth ddwyieithog yn yr ardal wedi ei chydgymsgu â'r bobl uniaith—er enghraifft, i ba raddau y maent yn byw mewn ardaloedd gwahanol neu o oeddrannau gwahanol neu mewn rhwydweithiau gwahanol—a'r ffactor arall i adlewyrchu 'teyrngarwch ieithyddol' y bobl, hynny yw, i ba raddau mae siaradwyr yr iaith yn dewis defnyddio'r iaith honno ymhlith ei gilydd pan fo'r cyfle ganddynt i'w defnyddio.

12.1.2 Siarad

Mae arolygon defnydd iaith yn dueddol o gynnwys cwestiynau sy'n gofyn am ba iaith y mae'r ymatebydd yn ei defnyddio mewn sefyllfaoedd gwahanol. Ceisio canfod i ba raddau y mae pobl yn fodlon defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd amrywiol eu natur y maen nhw, i brofi mae'n debyg, y ddamcaniaeth y bydd pobl yn llai tebygol o ddewis defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd lle y norm, hynny yw, arferiad disgwylidig y gymdeithas yn gyffredinol, yw defnyddio'r Saesneg oherwydd ei statws tybiedig uwch.¹⁵⁵ Y broblem yw nad oes gan bobl ddewis i ddefnyddio'r Gymraeg mewn llawer o sefyllfaoedd oni bai bod rhywun sy'n siarad Cymraeg yno i siarad Cymraeg gyda nhw.¹⁵⁶ Ac hyd yn oed os oes rhywun sy'n siarad Cymraeg ar gael, oni bai bod hynny'n hysbys i'r defnyddiwr, eto ni fydd y defnyddiwr yn gwneud dewis bwriadol i ddefnyddio, neu i beidio â defnyddio, y Gymraeg.

Nid yw pob sefyllfa yn berthnasol i bawb ac mae ei berthnasedd yn aml yn amrywio yn ôl cyfnod bywyd y sawl sy'n cael ei holi (yn ogystal ag yn ôl cyfnod hanesyddol). Gan gadw'r ystyriaethau hyn i gyd mewn cof, pa dystiolaeth sydd am ddefnydd iaith unigolion?

Rydym wedi tynnu sylw at bwysigrwydd rhuglder yn barod, yng nghyd-destun y cwestiwn am amllder siarad. Pan holwyd yn Arolygon Defnydd Iaith 2004–06 am iaith y sgwrs ddiweddaraf a gafodd siaradwyr Cymraeg y tu allan i'r teulu (ymgais i ffocysu meddyliau'r ymatebwyr ar sefyllfa real, yn hytrach na'r 'pa mor aml...' mwy damcaniaethol), cafwyd mai Saesneg oedd iaith y sgwrs i 58% o'r siaradwyr Cymraeg ond pan y'u rhannwyd yn ôl rhuglder, gwelwyd mai Cymraeg oedd iaith sgwrs ddiweddaraf 59% o'r siaradwyr rhugl o'i chymharu â 9% y rhai nad oedd yn rhugl.

Mae defnydd iaith—wedi ei fesur fel 'yn siarad Cymraeg yn ddyddiol' neu 'iaith y sgwrs ddiweddaraf y tu allan i'r teulu'—i'w gweld ar ei isaf ymhlith pobl ifanc 16–29 oed (mae plant yn siarad Cymraeg yn yr ysgol hyd yn oed os nad ydynt yn ei siarad ymhlith ei gilydd) ond er hynny'n weddol uchel o hyd ymhlith siaradwyr rhugl. Roedd 70% o'r siaradwyr rhugl 16–29 oed yn siarad Cymraeg bob dydd a bron hanner sgysiau diweddaraf siaradwyr rhugl 16–29 oed yn Gymraeg. Amrywiai hyn yn ddaearyddol wrth gwrs.


Wrth ofyn cwestiwn sy'n sôn am 'y tu allan i'r teulu' awgrymir bod y teulu'n *bau* sydd ag arwyddocâd o ran defnydd iaith a wneir. Nid oes modd dweud bod maint defnydd yr iaith o fewn teulu, fel y'i mesurir gan ystadegau, yn

¹⁵⁵ Wedi ei seilio ar y cysyniadau o beuoedd a sefyllfaoedd sydd wedi bod yn ddylanwadol o fewn sosioieithyddiaeth. Gweler e.e. J. Fishman (1972).

¹⁵⁶ P. Nelde, M. Strubell a G. Williams (1996).

adlewyrchu dewis yr unigolyn neu norm yn hytrach na chyfansoddiad ieithyddol y teulu. Ond mae'n debyg ei fod yn wir i lawer iawn o bobl mai gyda'r teulu y bydd cyfran uchel o'u sgysiau bob dydd. Mae hynny ynddo ei hun yn ddigon o gyfiawnhad dros dalu sylw arbennig i'r teulu mewn arolygon. Er hynny, dim ond yn achos yr unigolion hynny sy'n cael eu holi sy'n dweud eu bod nhw eu hunain yn siarad Cymraeg yn rhugl, ac sy'n byw mewn cartref lle mae pawb yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl y mae cwestiwn am iaith y cartref yn gallu taflu goleuni ar deyrngarwch y siaradwyr i'r iaith o fewn y cartref. (Sylwer nad sôn am iaith y *teulu* a wneir, o reidrwydd, wrth sôn am y *cartref* er yn aml mae'r cartref yn cynnwys rhan sylweddol o'r hyn y bydd yr unigolyn yn ei ystyried yn deulu niwcLEAR.) Yn ôl Arolygon Defnydd Iaith 2004–06 lle roedd pawb o fewn y cartref yn gallu siarad Cymraeg (ond ddim o reidrwydd yn rhugl) a'r unigolyn oedd yn cael ei holi'n rhugl, yn Gymraeg bob amser neu o leiaf yn bennaf byddai 77% o'r unigolion rhugl yn siarad gartref. Amcangyfrifir bod bron 50,000 o siaradwyr rhugl mewn cartrefi lle mae pawb yn gallu siarad Cymraeg yn siarad o leiaf gymaint o Saesneg â Chymraeg gartref.

Ffigur 68: iaith y sgwrs ddiweddaraf yn ôl grŵp oedran a rhuglder, 2004–06



Wrth holi am ddefnydd iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol eraill, er enghraifft wrth siarad â ffrindiau, cymdogion, gwneud pethau bob dydd, tuedda'r atebion adlewyrchu 'pellter cymdeithasol' rhwng pobl yn eu rhwydweithiau cymdeithasol.¹⁵⁷ Gan fod pobl yn adnabod eu ffrindiau'n gymharol dda, maent yn gwybod eu gallu yn y Gymraeg a'u dewis iaith. Mae iaith y cymdogion yn dueddol o adlewyrchu natur ieithyddol yr ardal leol, ac ymwneud â phethau pob dydd yn mynd â phobl i ardal ehangach ac i ddelio â rhai nad ydynt yn gwybod llawer am eu gallu yn y Gymraeg, na'u dewis iaith.

¹⁵⁷ Nid yn unig yn Arolygon Defnydd Iaith 2004–06. Gweler e.e. Y Swyddfa Gymreig (1995); NOP (1995); Beaufort (2000); C. Williams a J. Evas (1997).

Wrth ymwneud â sefydliadau neu â swyddogion, mae argaeledd siaradwyr Cymraeg eraill yn llai hysbys nag yw gyda rhai agos yn y rhwydweithiau cymdeithasol, a'r farchnad lafur yn ddylanwad bwysicach. Yn aml, bydd rhai ar lefelau isaf sefydliad wedi eu tynnu o'r ardal agos a'u gallu ieithyddol yn adlewyrchu presenoldeb yr iaith ymhlith yr haenen honno o'r gymdeithas leol (a'u dewis iaith yn adlewyrchu normau'r haenen honno). Yn eu gwaith eu hunain, mae pobl yn adnabod eu cydweithwyr yn well na dieithriaid sefydliadau eraill ac yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o'u dewis iaith. Mae Arolwg Cymdeithasol Cymru 1992 yn enghraifft brin o arolwg lle ceisiwyd tynnu argaeledd y siaradwyr Cymraeg o'r hafaliad cyn gofyn i bobl beth fyddai eu dewis iaith mewn rhai sefyllfaoedd.¹⁵⁸ Er bod rhwng 46–48% o siaradwyr rhugl wedi dweud y byddent 'fel arfer' yn siarad Cymraeg wrth ymwneud â 'Y gwasanaeth iechyd lleol', 'Swyddfeydd y cyngor lleol', 'Y siopau lleol', 'Y Swyddfa Bost/ banc/cymdeithas adeiladu lleol', cododd y rhychwant i 63–64% pan ofynnwyd pa iaith fyddent yn ei defnyddio pe baent yn gwybod bod siaradwyr Cymraeg ar gael. Awgryma culni'r rhychwant nad oedd fawr o amharodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd sy'n amrywio cryn dipyn yn ôl eu ffurfioldeb a lle mae'r bwch statws rhwng y defnyddiwr a'r gweinyddiaeth yn amrywio'n sylweddol hefyd mewn damcaniaeth. Cafwyd canlyniadau a awgrymai'r un peth yn 2000 pan ofynnwyd cwestiwn a ddechreuodd 'Pe bai'r opsiwn ar gael, fydddech chi'n defnyddio Cymraeg yn...?' gan gynnig sefyllfaoedd gwahanol.¹⁵⁹ Mae Tabl 10 yn dangos canrannau y siaradwyr rhugl y byddent yn defnyddio'r Gymraeg *bob tro*. Ag eithrio sefyllfa 'holi ynglŷn â'ch bil...' ac 'wrth wneud gweithgareddau hamdden...' maent i gyd o fewn rhychwant o 76–80%. Dim ond 71% a fyddai bob tro'n defnyddio'r Gymraeg wrth 'holi ynglŷn â bil..' ond roedd canran is eto, 70%, yn dweud y byddent 'wrth wneud gweithgareddau hamdden...'. Gellir dychmygu rhesymau a allai egluro'r canlyniadau hyn ond ni ellir profi dim.

Mewn ffordd debyg defnyddiodd Arolygon Defnydd Iaith 2004–06 ddwy set o gwestiynau i holi ynglŷn â'r iaith fyddai'n cael ei defnyddio i drafod gwaith: yn gyntaf holwyd am faint o'r bobl (goruchwylwyr, rheolwyr llinell, cydweithwyr, y bobl oedd yn cael eu goruchwylio, cleientiaid) oedd yn gallu siarad Cymraeg, ac yn ail, am ba iaith a fyddai'n cael ei harfer â nhw. Yn ôl a oedd y rhan fwyaf o'r bobl yn gallu siarad Cymraeg ai peidio yr oedd yr iaith a oedd yn cael ei defnyddio'n amrywio, ar draws oedrannau gwahanol yr ymatebwyr. Os dim ond rhai o'r bobl (goruchwylwyr neu beth bynnag) oedd yn gallu siarad Cymraeg, rhwng 16–19% fyddai'n arfer defnyddio Cymraeg yn bennaf. Cododd y rhychwant i 78–82% os oedd y rhan fwyaf yn gallu siarad Cymraeg. Gwahaniaethau bach felly oedd rhwng y canrannau ar gyfer y dosbarthiadau gwahanol o gydweithwyr. Unwaith eto felly nid oes tystiolaeth bod pobl yn fwy tueddol o ddefnyddio'r Gymraeg â phobl o statws is nag â phobl o statws uwch, os yw'r ffactor gallu iaith yn cael ei dynnu o'r hafaliad.

¹⁵⁸ Mae llawer o enghreifftiau lle na wnaed hyn a lle ceid canlyniadau'n awgrymu bod siaradwyr Cymraeg yn amharod i siarad Cymraeg wrth ymdrin â chorfforaethau neu sefydliadau swyddogol. E.e. yn ôl NOP (1995), t.23, (a ddefnyddiodd sampl o 815 16 oed+. O'r 815, roedd 365 yn ddi-Gymraeg, a 384 yn gallu siarad o leiaf ambell frawddeg): "... wrth gysylltu â'r gwasanaethau cyhoeddus – yn ddi-ddorol iawn, ymhlith y siaradwyr rhugl, mae llai na hanner (41%) yn defnyddio'r Gymraeg bob amser Wrth gysylltu â chyfleustodau wedi'u preifateiddio, defnyddir y Gymraeg yn llai aml Hyd yn oed ymhlith siaradwyr rhugl, 34% yn unig sy'n defnyddio'r Gymraeg bob amser."

¹⁵⁹ Beaufort Research (2000). Sampl o 1,191 16+, 416 yn ddi-Gymraeg. 511 yn gallu siarad o leiaf yn weddol dda.

Tabl 10: % y siaradwyr rhugl fyddai'n defnyddio Cymraeg, pe bai'r opsiwn ar gael, yn ôl sefyllfa, 2000

Sefyllfa	% y siaradwyr rhugl fyddai'n defnyddio Cymraeg, pe bai'r dewis ar gael
Y siopau lleol	80
Wrth gownter y swyddfa bost	80
Yr archfarchnad	78
Yn y feddygfa neu'r ysbyty leol	78
Yn y banc neu'r gymdeithas adeiladu	77
Archebu diod mewn tafarn neu gaffi	76
Archebu pryd mewn bwyt	76
Cysylltu â'r cyngor lleol (dros y ffôn neu wyneb yn wyneb)	76
Holi ynglŷn â'ch bil nwy, trydan neu ffôn.	71
Wrth wneud gweithgareddau hamdden/chwaraeon/diwylliannol	70

Mae arolygon eu hunain yn rhoi mesur o barodrwydd siaradwyr i ddefnyddio'r Gymraeg pan gofnodir iaith y cyfweiliad. Ni fydd y cofnod yn adlewyrchu parodrwydd siaradwyr i siarad Cymraeg ond yn yr achosion hynny pan oedd dewis gwirioneddol ar gael, sef pan oedd y cyfwelydd ei hun yn gallu siarad Cymraeg (ac yn fodlon gwneud). Yn Arolwg Beaufort 2000, holwyd 44% o'r siaradwyr Cymraeg yn Gymraeg, a defnyddiwyd cymysgedd o Gymraeg a Saesneg am 11% arall o'r siaradwyr Cymraeg. Yn Arolwg Beaufort 2004 i'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, holwyd 66% o'r siaradwyr Cymraeg yn Gymraeg a 25% arall mewn cymysgedd o Gymraeg a Saesneg. Gwahanol iawn yw hi pan na fydd pob cyfwelydd yn gallu siarad Cymraeg. Er enghraifft, yn Arolwg Cymdeithasol Cymru 1992 1.5% o'r cyfweiliadau yn holl gartrefi'r arolwg, gan gynnwys rhai lle nad oedd siaradwyr Cymraeg, oedd yn Gymraeg. A neidio 16 flynedd, 1% ymatebodd yn Gymraeg i Arolwg o Hamdden yn yr Awyr Agored yng Nghymru yn 2008.¹⁶⁰

Mae Galw Iechyd Cymru yn wasanaeth gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol sydd i fod i gynnig gwasanaeth ffôn yn newis iaith y galwr. O'r holl alwadau a gynigir, 3%, neu lai, sydd yn Gymraeg.¹⁶¹

12.1.3 Darllen

Canolbwyntio ar siarad Cymraeg wnaed yn yr adran flaenorol. Edrychwn nawr ar y tystiolaeth am ddefnyddio'r sgiliau eraill, sef darllen ac ysgrifennu. Awn trwy brif ganlyniadau rhai o'r ffynonellau cyn ceisio eu crynhoi.

Yn ôl Arolwg Cymdeithasol Cymru 1992, nid oedd fawr o amrywiaeth rhwng y canrannau oedd yn darllen cylchgronau Cymraeg a phapurau bro o leiaf weithiau, 41.3% o'i chymharu â 42%, ond roedd darllen papurau bro yn rheolaidd yn fwy cyffredin na darllen cylchgronau'n rheolaidd, 15.8% o'i chymharu â 20.9%. Roedd darllen llyfrau yn fwy cyffredin: roedd 21.5% yn darllen llyfr yn rheolaidd a 33.5% yn darllen llyfr weithiau.

¹⁶⁰ Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru (2008).

¹⁶¹ StatsWales 2521.

Yn Arolwg NOP 1995 gofynnwyd i'r rhai hynny a allai ddarllen rhywfaint o Gymraeg pa mor aml y byddent yn gwneud hynny. Dywedodd 28% eu bod yn darllen Cymraeg naill ai bob dydd neu bron bob dydd a dywedodd 50% eu bod yn darllen Cymraeg yn achlysurol. Fel y gellid disgwyl roedd y canrannau'n dueddol o fod yn uwch pan gyfyngid y cwestiwn i siaradwyr rhugl.¹⁶²

Gofynnodd yr arolwg hwn hefyd pa mor hawdd oedd hi i'r ymatebwyr ddarllen arwyddion, erthyglau mewn papur newydd, llythyr gan ffrind, ffurflenni swyddogol i'w cwblhau, neu nofel. Mwyafrif prin—55%—a ddywedodd y byddent yn ei chael yn hawdd iawn i ddarllen arwyddion a dyna oedd y ganran uchaf. Ffurflenni swyddogol a gafodd y ganran isaf oedd yn eu hystyried yn hawdd iawn i'w darllen—26%—a'r ganran uchaf yn eu hystyried yn anodd iawn, sef 26% eto.¹⁶³

Comisiynodd S4C, Cyngor Celfyddydau Cymru, BBC Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar y cyd arolwg o siaradwyr Cymraeg yn 2005.¹⁶⁴ Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â defnydd o'r cyfryngau a mynychu digwyddiadau, Cymraeg a Saesneg.

Roedd 32% wedi darllen llyfr Cymraeg yn y mis blaenorol o'i chymharu â 69% oedd wedi darllen llyfr Saesneg. Roedd 46% wedi darllen cylchgronau neu bapurau newyddion Cymraeg yn y mis blaenorol o'i chymharu â 89% oedd wedi darllen cylchgronau neu papurau newyddion Saesneg. Roedd 13% wedi defnyddio gwefan Gymraeg yn y mis blaenorol o'i chymharu â 47% oedd wedi defnyddio gwefan Saesneg.

O'r siaradwyr rhugl, roedd canrannau ychydig yn uwch yn gwneud y gweithgareddau yn Gymraeg a chanrannau ychydig yn is yn eu gwneud yn Saesneg. Roedd 38% o'r siaradwyr rhugl wedi darllen llyfr Cymraeg yn y mis blaenorol o'i chymharu â 64% oedd wedi darllen llyfr Saesneg. Roedd 60% wedi darllen cylchgronau neu bapurau newyddion Cymraeg yn y mis blaenorol o'i chymharu â 91% oedd wedi darllen rhai Saesneg. Roedd 18% wedi defnyddio gwefan Gymraeg yn y mis blaenorol o'i chymharu â 44% oedd wedi defnyddio gwefan Saesneg.

Comisiynodd Cyngor Llyfrau Cymru gwestiynau yn Arolygon Omnibws Siaradwyr Cymraeg Beaufort o fis Mawrth 2003–Ebrill 2006 a dadansoddwyd y canlyniadau yn 2007.¹⁶⁵ Un o'r cwestiynau a ofynnwyd oedd 'Tua pha mor aml y dyddiau hyn rydych yn gorffen darllen llyfr yn y Gymraeg?' Dywedodd 40% o'r siaradwyr rhugl eu bod yn gorffen llyfr o leiaf unwaith y flwyddyn.

Roedd y farchnad lyfrau wedi newid yn sylweddol erbyn 2003–06 o'i chymharu â'r sefyllfa yn 1992 a 1995, adeg yr arolygon eraill a grybwyllwyd uchod. Roedd gwerthiannau o lyfrau poblogaidd mewn archfarchnadoedd wedi cynyddu'n anferthol er 1995 pan ddechreuodd y Gytundeb Llyfr Net ddod i ben.¹⁶⁶ Gan fod y cwestiynau a ofynnwyd yn 1992 a 2003–06 yn wahanol, mae'n anodd tynnu cymhariaeth ond efallai'n werth ceisio.

¹⁶² NOP (1995), tabl canlyniadau 50.

¹⁶³ Ibid, t. 31.

¹⁶⁴ Beaufort Research (2006). Cafwyd sampl o 861 ac roedd 60% ohonynt yn rhugl.

¹⁶⁵ Woods, A (2007).

¹⁶⁶ <http://www.thebookseller.com/news/supermarkets-show-most-dramatic-rise-bookselling-1989.html>, cyrchwyd 1 Rhagfyr 2011.

Yn 1992 roedd 55% o'r siaradwyr Cymraeg yn darllen llyfr Cymraeg o leiaf weithiau. Yn ôl arolygon y Cyngor Llyfrau 2003–06 roedd 41% yn dweud eu bod yn *gorffen* darllen llyfr Cymraeg o leiaf weithiau. Mae'n hollol bosibl nad yw'r gymhariaeth yn deg ond, pe bai, awgrymai y gallai ddarllen llyfr Cymraeg wedi mynd yn llai arferol dros y cyfnod dan sylw.¹⁶⁷ Roedd y rhyngwyd wedi tyfu i fod yn sylweddol hyd yn oed erbyn 2006 ond mae ei thwf bellach, a datblygiad e-lyfrau ers hynny, yn golygu bod yr ystadegau blaenorol o ddiddordeb hanesyddol yn unig erbyn hyn.

Gofynnwyd am arferion darllen siaradwyr Cymraeg yn Arolwg Sgiliau Oedolion 2010.¹⁶⁸ Ni wahaniaethwyd rhwng darllen llyfrau, cylchgronau a phapurau newydd. Roedd 80% o'r siaradwyr Cymraeg yn darllen rhai Saesneg o'r rheini bob dydd neu'r rhan fwyaf o ddyddiau: 15% a ddywedodd eu bod yn darllen rhai Cymraeg mor aml â hynny. Nid oedd bron dim gwahaniaeth rhwng y siaradwyr Cymraeg rhugl a'r siaradwyr Cymraeg eraill o ran y deunydd Saesneg. Fel y gellid disgwyl, roedd gwahaniaeth o ran y deunydd Cymraeg. Roedd 17% o'r siaradwyr rhugl yn darllen llyfrau, cylchgronau a phapurau newydd Cymraeg bob dydd neu'r rhan fwyaf o ddyddiau, o'i chymharu â 7% o'r siaradwyr Cymraeg nad oeddynt yn rhugl.

O'i chymharu â'r Saesneg, ychydig iawn o ddeunydd darllen sydd ar gael yn Gymraeg. Holodd yr un arolwg faint o lyfrau oedd gan yr ymatebwyr yn eu cartrefi. O'r rhai a oedd yn gallu ateb, roedd gan 83% o siaradwyr Cymraeg 25 llyfr Saesneg neu fwy. Roedd gan 45% o'r siaradwyr rhugl 25 llyfr Cymraeg neu fwy, o'i chymharu â 21% o'r siaradwyr nad oeddynt yn rhugl.

Holwyd hefyd am faint o hyder oedd gan y siaradwyr Cymraeg pan oeddynt yn darllen deunyddiau Cymraeg o fathau gwahanol: llythyrau neu e-byst gan y teulu; pethau yn y gwaith; a ffurflenni. Roedd 68% yn hyderus iawn yn darllen llythyrau neu e-byst Cymraeg gan y teulu, 55% yn hyderus iawn yn darllen Cymraeg yn y gwaith a 54% yn hyderus iawn yn darllen ffurflenni Cymraeg. Roedd canrannau'r siaradwyr rhugl yn uwch ymhob achos na chanrannau y siaradwyr nad oeddynt yn rhugl. Roedd cydberthynas cryf ymhob achos hefyd rhwng hyder yr ymatebwyr yn darllen y mathau gwahanol o ddeunydd a'u hunanasesiad o'u gallu i ddarllen Cymraeg.

Un math o dystiolaeth yw hwn i gyd: atebion i arolygon barn. Sut mae'r canlyniadau'n cymharu â mathau eraill o ddata?

Roedd cylchrediad arfaethedig 2010–11 y papurau bro oedd yn derbyn grant gan Fwrdd yr Iaith bron yn 52 mil. A bwrw bod pob copi'n cael ei ddarllen gan 2.5 o bobl, amcangyfrifid bod 130 mil yn darllen rhyw bapur bro. A mynegi y nifer honno fel canran o'r holl siaradwyr Cymraeg, dyna 22%, a hwyrach 41% o'r siaradwyr rhugl. Mae'r rhain yn ffigurau uchel ond yn yr un cae, fel petai, â'r canrannau sydd wedi eu canfod gan yr arolygon a ystyriwyd. Ni ellir dweud yr un peth am y canrannau sy'n darllen cylchgronau.

¹⁶⁷ Roedd cwestiynau 2003–06 a wnaeth i'r ymatebwyr ystyried faint o lyfrau yr oeddynt wedi gorffen darllen yn fwy arolwg diriaethol na chwestiwn 1992 a wnâi'n haws i'r ymatebydd gynnig ateb mwy derbyniol na chyfaddef nad oeddynt bron byth yn darllen llyfr Cymraeg mewn gwirionedd.

¹⁶⁸ Llywodraeth Cymru (2011h). Dadansoddiad yr awdur.

Yn 2008 comisiynodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg adolygiad i sefyllfa'r Wasg yng Nghymru. Dywedir yn yr adolygiad hwn 'Nifer fach o gyfnodolion Cymraeg sy'n cael eu cyhoeddi a hynny'n bennaf am fod y gynulleidfa ei hunan mor fach. Mae rhai teitlau (megis *Barddas*, *Taliesin*, ac amryw o gyhoeddiadau plant) yn llwyddo trwy apelio at farchnad *niche*.¹⁶⁹ Mae'n cynnwys rhai amcangyfrifon o werthiant rhai cyhoeddiadau: y mwyaf yn eu plith *Y Cymro* (3,000), *Golwg* (3,000) a *Barn* (c.880). Crybwyllir *Y Wawr*, cylchgrawn Merched y Wawr, ond ni roddir ffigurau cylchrediad amdano ond ei fod yn mynd at bob aelod.¹⁷⁰ Mae'n anodd gweld sut y gellir cysoni ffigurau ar y lefel hon â ffigurau'r arolygon. Un eglurhad posibl yw nad yw rhan fwyaf ymatebwyr yr arolygon wedi medru ateb cwestiynau am ddarllen cylchgronau Cymraeg mewn ffordd gall, gan nad ydynt mewn gwirionedd yn ymwybodol hyd yn oed bod llawer yn bodoli.

Hwyrach mai'r effaith gaiff ar hyder yr unigolyn yw pwysigrwydd darllen Cymraeg? Arwain hyn at ystyried y defnydd o'r iaith i ysgrifennu. Os nad yw siaradwyr Cymraeg yn arfer darllen Cymraeg yn helaeth, a ellir disgwyl iddynt ei dewis fel iaith ysgrifennu?

12.1.4 Ysgrifennu

Yn Arolwg Beaufort 'Sefyllfa'r Iaith Gymraeg' 2000 gofynnwyd i'r holl ymatebwyr oedd yn siarad o leiaf rhywfaint o Gymraeg pa mor aml oedden nhw'n defnyddio Cymraeg wrth gwblhau dogfennau penodol.¹⁷¹ Mae treigl amser yn golygu na fydd yr atebion am e-bostio'n berthnasol y dyddiau hyn ond nid oes cymaint o le i amau a fydd y sefyllfa o ran ysgrifennu llythyrau byrion neu gardiau cyfarch i'r teulu neu ffrindiau yn Gymraeg wedi newid. Mae Tabl 11 yn crynhoi'r ymatebion.

Tabl 11: % y siaradwyr Cymraeg yn ysgrifennu Cymraeg, yn ôl sefyllfa a gallu siarad ac ysgrifennu, 2000

Sefyllfa	% yn ysgrifennu Cymraeg					
	Pawb yn siarad o leiaf rhywfaint o Gymraeg			Cyfanswm (weithiau neu'n amlach)		
	Bob amser	Yn aml	Weithiau	Rhai oedd yn gallu siarad yn rhugl	Ysgrifennu Cymraeg, yn dda iawn/ gweddol	
Llythyrau byrion/Cardiau cyfarch	24	20	29	73	87	82
E-bostau	3	3	6	12	17	13
Ffurflenni swyddogol	16	7	11	34	46	42
Llythyrau swyddogol	14	7	9	30	44	37

Efallai y byddai'r canrannau a ddywedodd eu bod o leiaf weithiau yn ysgrifennu yn Gymraeg wrth gwblhau ffurflenni swyddogol neu anfon llythyrau swyddogol i sefydliadau fel awdurdodau lleol neu gwmnïau cyfleustodau yn cael eu

¹⁶⁹ T. Bianchi (2008).

¹⁷⁰ 6,487 yn 2010.

¹⁷¹ Beaufort Research (2000).

hystyried braidd yn isel. Dywedodd llai na hanner y siaradwyr rhugl y byddent yn ysgrifennu y rheini yn Gymraeg o leiaf weithiau. Ar y llaw arall, wrth ystyried pa mor anaml mewn gwirionedd y byddai rhywun, hyd yn oed yn 2000, yn gorfod llenwi ffurflen neu ysgrifennu llythyr swyddogol, mae'r cwestiwn yn gofyn llawer o'r ymatebydd i roi ateb call.

Mae'r canrannau a ddywedodd eu bod yn defnyddio Cymraeg bob amser yn is eto wrth gwrs (Tabl 12). Er enghraifft dim ond o gwmpas traean o'r siaradwyr rhugl, neu'r rhai oedd yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda ddywedodd eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob amser i ysgrifennu cardiau cyfarch. Er hynny, roedd o gwmpas un ymhob pump yn dweud eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob amser wrth lenwi ffurflenni swyddogol neu ar gyfer llythyr swyddogol. O ystyried ein bod yn sôn am *bob* amser mae'r canrannau yn annhebygol o uchel. Mae'n debyg eu bod yn adlewyrchu awydd yr ymatebwyr i ddangos cefnogaeth i'r Gymraeg yn well na'u defnydd go iawn o'r Gymraeg.

Tabl 12: % yn ysgrifennu Cymraeg bob amser, siaradwyr rhugl ac ysgrifenywyr da, 2000

Sefyllfa	% yn ysgrifennu Cymraeg bob amser	
	Siaradwyr rhugl	Rhai oedd yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda
Llythyrau byrion/Cardiau cyfarch	36	30
E-bostau	4	3
Ffurflenni swyddogol	24	20
Llythyrau swyddogol	21	18

Holodd Arolygon Defnydd Iaith 2004–06 a fyddai'r siaradwyr Cymraeg oedd dros 16 oed ac mewn gwaith yn ysgrifennu yn Gymraeg yn y gwaith. Roedd 25% o'r siaradwyr rhugl yn ysgrifennu rhywbeth yn Gymraeg yn y gwaith yn rheolaidd a 29% arall yn ysgrifennu yn Gymraeg weithiau: fyddai 41% byth yn ysgrifennu dim yn Gymraeg. Gellid meddwl bod y canrannau hyn hefyd yn amheus o uchel ond wrth eu torri i lawr ymhellach mae patrymau credadwy i'w gweld. Er enghraifft, byddai 24% o'r siaradwyr Cymraeg oedd yn gweithio yn y sector cyhoeddus yn ysgrifennu'n rheolaidd yn y gwaith o'i chymharu â 10% yn y sector preifat.

Gofynnwyd hefyd ba iaith oedd yn cael ei defnyddio i wneud gwaith gweinyddol. Dywedodd 30% o'r siaradwyr rhugl mai'r Gymraeg oedd yn cael ei defnyddio'n bennaf. Yn achos y rheini roedd 58% ohonynt yn ysgrifennu Cymraeg yn y gwaith yn rheolaidd.

Comisiynodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg set o gwestiynau yn Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg Ebrill 2005 a holodd am ddefnydd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg gan siaradwyr a beth, os rhywbeth, a'u rhwystrodd rhag gwneud mwy o ddefnydd ohonynt.¹⁷² Gofynnodd un cwestiwn beth, os unrhyw beth, oedd yn rhwystro pobl rhag defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â chyrrff cyhoeddus yn ysgrifenedig. Dywedodd 27% o'r holl siaradwyr Cymraeg, a 42% o'r rhai rhugl, nad oedd dim yn eu rhwystro. Gellid dehongli hynny i olygu eu bod bob tro yn

¹⁷² Beaufort Research (Ebrill 2005).

delio yn Gymraeg â chyrrff cyhoeddus pan, neu os, y byddant yn ysgrifennu. Dywedodd 23% o'r siaradwyr rhugl eu bod bob amser wedi defnyddio Saesneg wrth ddelio â swyddogion cyhoeddus. Mater o farn yw hi pa ganrannau yw'r rhai mwyaf credadwy.

Gofynnwyd am arferion ysgrifennu yn Arolwg Sgiliau Oedolion 2010. Holwyd am amllder ysgrifennu neges destun ffôn, ysgrifennu ar-lein (e.e. Facebook), ysgrifennu ar bapur, neu ysgrifennu i lenwi ffurflen ar-lein neu ar bapur. Roedd 66% o'r siaradwyr Cymraeg yn anfon neges destun o ffôn symudol yn y Saesneg bob dydd neu'r rhan fwyaf o ddyddiau: 31% a fyddai'n anfon un yn y Gymraeg. Roedd y siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Saesneg yn amlach am y pethau eraill hefyd. Byddai 60% ohonynt yn ysgrifennu ar-lein yn y Saesneg, er enghraifft, ar Facebook neu i anfon e-bost, bob dydd neu'r rhan fwyaf o ddyddiau: 25% fyddai'n ysgrifennu yn Gymraeg. Byddai 64% ohonynt yn ysgrifennu ar bapur yn y Saesneg bob dydd neu'r rhan fwyaf o ddyddiau: 29% fyddai'n ysgrifennu yn Gymraeg. Ni fyddai cymaint yn llenwi ffurflen ar-lein neu ar bapur mor aml ond byddai 27% yn gwneud yn y Saesneg, o'i chymharu â 6% yn y Gymraeg, bob dydd neu'r rhan fwyaf o ddyddiau.¹⁷³

Ymhob achos, byddai siaradwyr Cymraeg rhugl yn ysgrifennu yn y Gymraeg yn amlach na'r rhai nad oedd yn rhugl. Er enghraifft, byddai 40% o'r siaradwyr rhugl yn anfon neges destun Gymraeg bob dydd neu'r rhan fwyaf o ddyddiau o'i chymharu â 6% o'r rhai nad oeddynt yn rhugl, a byddai 8% o'r siaradwyr rhugl yn llenwi ffurflen ar-lein neu ar bapur yn y Gymraeg bob dydd neu'r rhan fwyaf o ddyddiau o'i chymharu â llai nag 1% o'r rhai nad oeddynt yn rhugl.

Gan i gymaint o sylw gael ei roi i'r cyfrifiad yn y ddogfen hon, nid yw'n amhriodol i gofnodi yma rhai ffeithiau i'w cymharu â'r canrannau blaenorol. Yng Nghyfrifiad 2001 dychwelwyd 41,800 o ffurflenni cartref Cymraeg, 3.5% o'r holl ffurflenni a ddychwelyd gan gartrefi yng Nghymru.¹⁷⁴

12.2 Defnydd sefydliadau


12.2.1 Yn eu hymwneud â'r cyhoedd

Mae sefydliadau'n gallu defnyddio'r iaith mewn dwy ffordd: yn gyntaf yn eu hymwneud â'r cyhoedd ac yn ail yn fewnol. Gosododd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 gyfrifoldeb ar Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gymeradwyo Cynlluniau Iaith Gymraeg cyrrff cyhoeddus yn unol â'r egwyddor y dylai'r Gymraeg â'r Saesneg gael eu trin ar sail gyfartal mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus. Yn ogystal â chymeradwyo cynlluniau a baratowyd o dan y ddeddf, mae'r Bwrdd wedi gweithio â nifer o gyrff eraill a ymgymerodd i baratoi cynllun o'u gwirfodd. Dengys Ffigur 69 sut mae nifer y cynlluniau sydd wedi eu cymeradwyo wedi cynyddu dros y ddegawd ddiwethaf.

¹⁷³ Llywodraeth Cymru (2011h). Dadansoddiad yr awdur.

¹⁷⁴ Office for National Statistics (2005).

Ffigur 69: Nifer y cynlluniau iaith a gymeradwywyd ac a oedd yn weithredol ar ddiwedd y flwyddyn, yn ôl sector



Mae bodolaeth cynllun iaith yn arwydd bod cyrff wedi pennu mesurau ar gyfer darparu gwasanaethau yn Gymraeg ac ni fyddai'r cynlluniau wedi cael eu cymeradwyo heb eu bod yn gwneud ymgais rhesymol o dan yr amgylchiadau i drin y ddwy iaith yn gyfartal. Gellir yn rhesymol cymryd bod cynnydd yn nifer y cynlluniau'n sicr o adlewyrchu i ryw raddau cynnydd yn y ddarpariaeth i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Er hynny, ni ellir dweud pa faint o wasanaethau oedd ar gael yn ddwyieithog cyn dechrau cynlluniau, nac, o ran hynny, faint sydd ar gael nawr. Hyd yn oed pe bai ryw fesur wedi ei wneud ar y cychwyn mae gwasanaethau corff yn newid yn naturiol gyda llif amser a byddai cymhariaeth 'cynt ac wedyn' yn llawn cymhlethdodau.

Cymerwyd un ciplun o'r sefyllfa yn rhan o'r sector preifat (nad oedd yn gorfod paratoi cynlluniau iaith o dan Deddf 1993) yn 2007 pan gomisiynodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg gwmni ymchwil Beaufort i gynnwys nifer o gwestiynau yn eu harolwg Cwmnibws o fusnesau bach a chymedrol eu maint (Tabl 13).

Gofynnwyd iddynt hefyd am eu harfer wrth ymateb i ohebiaeth. O'r 21% ohonynt oedd wedi derbyn gohebiaeth o gwsmeriaid yn y Gymraeg dywedodd 57% y byddent bob tro yn ymateb yn Gymraeg, 2% yn gwneud fel arfer a 10% yn gwneud weithiau. Pan fyddai'n rhaid siarad â'r cwsmer ynglŷn â'r ohebiaeth byddai 59% yn gwneud bob tro yn Gymraeg, 2% fel arfer a 12% weithiau.¹⁷⁵

¹⁷⁵ Beaufort Research (Mawrth 2007). Maint y sampl oedd 500.

Tabl 13: % o gwmnïoedd yn defnyddio'r Gymraeg, yn ôl eitem, 2007

Eitem	O'r cwmnïoedd oedd yn defnyddio'r eitem a nodir, % oedd yn defnyddio'r Gymraeg ynddynt
Arwyddion, ar y drws blaen neu ar ochr fan er enghraifft	22
Deunyddiau argraffedig, e.e. taflenni, bwydlenni	25
Hysbysebion yn y wasg	14
Papur brig, cardiau busnes, slipiau cyfarchion	12
Pecynnu a labeli	11
Gwefan	10

Ffynhonnell: Beaufort Research (2007).


Cymryd pobl ar eu gair y mae arolygon ac ni ellir bod yn siŵr bod profiad y cwsmer yn adlewyrchu'r hyn a honnir gan gyrrff, boed yn y sector preifat neu'r sector cyhoeddus. Yn 2005 comisiynodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg brosiect i geisio datblygu methodoleg a fyddai'n gallu cael ei defnyddio mewn ardaloedd bychain i greu dangosyddion o brofiad iaith y cwsmer. Ym Mangor, Amlwch, Rhuthun, Machynlleth, Aberteifi a Rhydaman aeth pobl i arsylwi ar arwyddion cyrff, i geisio sgwrsio'n Gymraeg wyneb yn wyneb mewn siopau a swyddfeydd a dros y ffôn, i ddefnyddio gwefannau ac i godi taflenni a gweld faint o Gymraeg oedd arnynt. Roedd y canlyniadau o ran defnydd y Gymraeg ar arwyddion yn go agos at ganlyniadau'r arolwg Cwmnibws. Yn ôl Cwmnibws roedd 42% o'r cwmnïoedd yn y gogledd yn defnyddio Gymraeg ar eu harwyddion: 34% o'r arwyddion a arsylwyd ym Mangor, Amlwch a Rhuthun oedd yn defnyddio'r Gymraeg. Yn y canolbarth a'r gorllewin roedd 27% o'r arwyddion yn defnyddio'r Gymraeg: 24% a arsylwyd ym Machynlleth, Aberteifi a Rhydaman.

Yn ôl data y prosiect i ddatblygu dangosyddion ieithyddol dros y chwe lleoliad roedd 28% o arwyddion siopau a busnesau bach, a 24% o arwyddion siopau a busnesau cadwyn yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Roedd 86% o arwyddion y sector cyhoeddus yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Roedd 73% o wasanaethau cyrff y llywodraeth, a 69% o wasanaethau cyrff llywodraeth leol, ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. 20% o wasanaethau siopau a busnesau cadwyn, a 24% o wasanaethau siopau a busnesau bach, oedd ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.¹⁷⁶ Mae Ffigur 70 yn dangos y canlyniadau fesul tref. Er bod defnydd y Gymraeg yn fwy amlwg gan y sector cyhoeddus, fel y byddid yn disgwyl oherwydd effaith y cynlluniau iaith statudol, mae hefyd yn amlwg nad yw'r Gymraeg eto yn cael ei defnyddio'n gyfartal â'r Saesneg hyd yn oed yn y sector hwnnw.

¹⁷⁶ Canolfan Ymchwil Ewrop, Cymru (2007). Mae 'gwasanaethau' yn cyfeirio at yr holl agweddau a arolygwyd – h.y. ymweliadau, galwadau ffôn, arwyddion, gwefannau a thafllenni.

Ffigur 70: Cyfran y gwasanaethau Cymraeg neu ddwyieithog, yn ôl sector a thref, 2005



Pan ymwelodd yr ymchwilyr â sefydliadau, cawsant gyfarchiad Cymraeg neu'n ddwyieithog ar y dechrau 42% o'r amser gan y sector cyhoeddus ac 15% o'r amser gan y sector preifat. Pan aeth yr ymchwilyr ymlaen i siarad yn Gymraeg, cawsant ymateb Cymraeg neu ddwyieithog 66% o'r amser gan y sector cyhoeddus a 36% o'r amser gan y sector preifat.

Pan ffoniodd yr ymchwilyr, cawsant gyfarchiad Cymraeg neu'n ddwyieithog ar y dechrau 65% o'r amser gan y sector cyhoeddus ac 13% o'r amser gan y sector preifat. Pan aeth yr ymchwilyr ymlaen i siarad yn Gymraeg, cawsant ymateb Cymraeg neu ddwyieithog eto 67% o'r amser gan y sector cyhoeddus a 37% o'r amser gan y sector preifat.

Yn gyffredinol, roedd perfformiad y sector gwirfoddol yn gorwedd rhwng perfformiad y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Ychydig o anghwrteisi a brofwyd mewn ymweliadau: 6% o ymatebion anghwrtais a gofnodwyd a doedd dim gwahaniaeth rhwng y sectorau yn hyn. Cafwyd mwy o anghwrteisi mewn ymateb i alwadau ffôn. Pan siaradodd yr ymchwilyr yn Gymraeg ar y ffôn, barnon nhw fod 14% o'r ymatebion iddynt—rhai Saesneg neu ddwyieithog i gyd—yn anghwrtais.

Roedd y Gymraeg bron yn gyfan gwbl absennol o wefannau'r sector preifat.

12.2.2 Yn eu gweithgareddau eu hunain

Yn ogystal ag ymwneud â'r cyhoedd, mae'r rhan fwyaf o gyrff, boed yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat hefyd yn defnyddio iaith yn fewnol, ar gyfer trafodaethau, llafar neu ysgrifenedig, rhwng y gweithwyr, ac i ymwneud â chyrrff busnes eraill, er enghraifft, yn masnachu rhwng ei gilydd. Ychydig o gyrff preifat sy'n defnyddio'r Gymraeg ar gyfer eu delwedd cyhoeddus: 4% o'r cwmnïoedd gynhwyswyd yn arolwg Cwmnibws Mawrth 2007 oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn unig yn eu delwedd cyhoeddus, hynny yw gyda logo, a 12% yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.¹⁷⁷ Gwahanol iawn yw hi gyda chyrrff yn y sector cyhoeddus o ganlyniad i gyflwyno cynlluniau iaith.

Soniwyd eisoes am faint o weithwyr sy'n dweud bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio fel iaith weinyddol fewnol: dywedodd 30% o'r siaradwyr rhugl yn Arolygon Defnydd Iaith 2004–06 mai'r Gymraeg oedd yn cael ei defnyddio'n bennaf. Cynnwys gweithwyr pob sector mae hwnnw. Er hynny, mae'n anodd cysoni'r ffigur hwnnw â chanlyniad arall o arolwg Cwmnibws, sef o'r 66% o'r cwmnïoedd oedd yn defnyddio Microsoft Office neu Windows XP (y system Windows diweddaraf ar y pryd), dim ond 3% ohonynt oedd yn defnyddio'r rhyngwyneb Cymraeg oedd ar gael. O'r 4% oedd yn defnyddio OpenOffice (19 o'r 504 cwmni), roedd 10% (2 gwmni) yn defnyddio'r rhyngwyneb Cymraeg. Wrth gwrs, cwmnïau preifat oedd wedi eu holi yn arolwg Cwmnibws ac fe allai'r sefyllfa fod yn wahanol yn y sector cyhoeddus.

¹⁷⁷ Beaufort Research (Mawrth 2007).

13 Demograffi

13.1 Y model demograffig

Rhoi ciplun o'r sefyllfa fel yr oedd yn 2001 y mae'r siartiau a gyflwynwyd yn adran 4.4.1 ar Gyfrifiad 2001. Nid ydynt o reidrwydd yn amlygu'r tueddiadau'n llawn er eu bod yn dangos y manylion yn ôl oed. Mae'r effeithiau sy'n benodol i oedran wedi eu cymysgu â'r effeithiau sy'n benodol i genhedlaeth. Effaith penodol i genhedlaeth, nid o oed, er enghraifft oedd effaith y Rhyfel Byd Cyntaf a adlewyrchir wrth edrych ar nifer y siaradwyr Cymraeg oed 63 i 67 oed—gafodd eu geni'n ystod y rhyfel—yng Nghyfrifiad 1981 (Ffigur 5). Yn yr adran hon, trown i ystyried y ffactorau demograffig fydd yn dylanwadu ar y tueddiadau.

Mewn astudiaethau poblogaeth, tair elfen yn unig y mae angen eu hystyried: genedigaethau, mudo a marwolaethau. Wrth ystyried poblogaeth sy'n siarad iaith benodol rhaid ystyried y ffactorau hynny o hyd ond, yn ogystal, rhaid ystyried faint o bobl sy'n dod i fedru siarad yr iaith—trwy drosglwyddiad o fewn y teulu, neu drwy addysg—a faint sy'n colli eu gallu ynddi. Y cwestiwn mawr yr hoffem gael yr ateb iddo yw pa mor gynaliadwy yw'r iaith. Mewn geiriau eraill, beth yw canlyniad tebygol y tueddiadau demograffig a chymdeithasol eraill sy'n effeithio ar y nifer a'r ganran sy'n siarad Cymraeg, a'r defnydd y maent yn ei wneud ohoni?

Er bod y llywodraeth yn cynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth nid yw erioed wedi cynhyrchu amcanestyniadau o'r niferoedd (a'r canrannau) o'r rhai a fydd yn gallu siarad Cymraeg. Adroddir am ymdrech i gynhyrchu amcanestyniadau o'r fath yn adran 14.2 ond yn yr adran hon rhoddir sylw i'r ffactorau demograffig, gan eu hymestyn i gynnwys y rhai eraill sy'n berthnasol i'r iaith fel y'u nodwyd uchod.

13.2 Genedigaethau

Roedd 2002 yn isafbwynt o ran nifer y genedigaethau. Cododd y nifer bob blwyddyn er 2002 ac eithrio 2009 i 35,952 yn 2010.¹⁷⁸ Ni wyddys a yw cyfradd geni menywod Cymraeg yn wahanol i gyfradd geni'r rhan fwyaf o fenywod di-Gymraeg o'r un ethnigrwydd ond nid oes achos i feddwl y byddai'n wahanol. Yn 2010 roedd 10.4% o'r genedigaethau i famau a anwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig, ddwywaith y lefel ar ddechrau'r ddegawd.¹⁷⁹ Ychydig iawn o blant y mamau hynny y gellir disgwyl fydd yn cael eu magu'n Gymraeg.

Yn ôl Cyfrifiad 2001, o'r cartrefi cwpl lle roedd plentyn dibynnol, a'r plentyn dibynnol ieuengaf rhwng dim a 4 oed, roedd 9.2% yn gartrefi lle gallai dau oedolyn siarad Cymraeg.¹⁸⁰ Gwyddom hefyd mai o'r holl blant 3 i 4 oed roedd 5.4% yn gallu siarad Cymraeg ac yn byw mewn cartref cwpl gyda dau oedolyn oedd yn gallu siarad Cymraeg ac 1.6% arall yn gallu siarad Cymraeg ac yn byw mewn cartref rhiant unigol oedd yn gallu siarad Cymraeg: cyfanswm o 7.0%

¹⁷⁸ Llywodraeth Cymru (2010a).

¹⁷⁹ Office for National Statistics (2010).


¹⁸⁰ Cyfrifiad 2001, tabl S144.

felly'n gallu siarad Cymraeg ac yn byw mewn cartref lle gallai'r Gymraeg fod yn brif gyfrwng.¹⁸¹ O ffynhonnell arall, cyfrifiad yr ysgolion, gwyddom fod o gwmpas 8% o ddisgyblion ysgolion cynradd wedi eu disgrifio fel siaradwyr Cymraeg rhugl oedd yn siarad Cymraeg gartref ar ddiwedd y 1970au a dechrau'r 1980au a bod y ganran wedi gostwng yn gyson i o gwmpas 6.3% adeg Cyfrifiad 2001.

Oherwydd y newidiadau yn nosbarthiadau daearyddol siaradwyr Cymraeg, a'u cefndir ieithyddol gallwn fod yn weddol sicr mai lleihau fydd nifer y cartrefi lle siaredir Cymraeg fel prif iaith. Bydd hynny'n golygu y gallwn ddisgwyl y bydd y ganran o blant sy'n dysgu siarad Cymraeg gartref yn parhau i ostwng. Ar y llaw arall, rydym wedi gweld sut mae'r ganran o blant sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn cynyddu. Yn 2011, aseswyd 5,862 mewn Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 yn 14 oed.

Mae'n werth sôn yma am gyfres arall a allai ymddangos yn berthnasol i'r drafodaeth hon, sef y gyfres sydd ar gael sy'n cofnodi pa faint o'r genedigaethau a gofrestrwyd yng Nghymru a gofrestrwyd yn ddwyieithog.

Ffigur 71: % o gofrestriadau, yn ôl digwyddiad bywyd, 1993–2010



Gwelir bod o gwmpas 8–9 y cant o enedigaethau wedi'u cofrestru'n ddwyieithog ers dechrau'r ganrif, a bod hyn gryn dipyn yn uwch nag oedd yn y 1990au.¹⁸² Mae'n debyg bod y cynnydd yn ganlyniad i gyflwyno system cyfrifiadurol newydd a wnaeth gofrestru'n ddwyieithog yn haws. Gallai hefyd adlewyrchu newid agwedd a bod pobl yn fwy parod i ddefnyddio gwasanaethau dwyieithog nag oeddent yn arfer.

¹⁸¹ Cyfrifiad 2001, tabl S143.

¹⁸² Darparwyd y data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Gorffennaf 2011.

13.3 *Marwolaethau*

Wrth amcangyfrif faint o siaradwyr Cymraeg sy'n marw mewn blwyddyn mae'r dasg dipyn yn haws nag amcangyfrif faint sy'n cael eu geni mewn blwyddyn y gallem ddisgwyl y byddant yn dod yn siaradwyr Cymraeg ar yr aelwyd. Gyda phroffil oedran y rhai sy'n marw, byddai'n rhesymol cymryd mai'r un ganran ohonynt oedd yn gallu siarad Cymraeg â'r ganran yn y boblogaeth oedd yn gallu siarad Cymraeg. Yn fwy bras byth, gan wybod yn unig gyfanswm y marwolaethau, a chymryd mai'r ganran briodol i'w defnyddio yw'r ganran berthnasol i'r to hynaf (sef 19.5% y rhai 65 oed neu drosodd, gan fod hyd yn oed yn 2007 82.5% o'r rhai fu farw yn 65 oed neu drosodd), gellir amcangyfrif bod y marwolaethau blynyddol ar hyn o bryd yn debygol o gynnwys ychydig yn llai na 6,000 o siaradwyr Cymraeg.¹⁸³

Gelwir y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a'r marwolaethau'n 'newid naturiol' y boblogaeth gan ddemograffwyr. Gan ein bod yn yr adran flaenorol wedi cofnodi bod o gwmpas 6,000 o ddisgyblion 14 oed yn cael eu hasesu mewn Cymraeg fel iaith gyntaf y dyddiau hyn, gwelir o'r uchod ein bod yn amcangyfrif nad oes fawr o 'newid naturiol' i nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl ar hyn o bryd.

Effaith net mudo—mewnfudo ac allfudo—yw'r ffactor arall sy'n penderfynu a yw maint poblogaeth yn cynyddu neu'n lleihau.

13.4 *Mewnfudo*


Gellir torri mewnfudo yn ddwy elfen—mewnfudo o weddill y DU a mewnfudo o dramor. Cyfyngedig yw'n gwybodaeth ystadegol am y naill elfen a'r llall mewn gwirionedd. Gan fod mewnfudo o dramor i'r DU yn bwnc gwleidyddol sensitif, mae cryn sylw wedi cael ei roi yn ddiweddar i sut mae mesur ei faint a chymau naill ai wedi eu cymryd yn barod neu mewn llaw i wella dibynadwyedd yr ystadegau yn ei gylch. Er hynny, ar wella'r ystadegau ar raddfa'r DU yn ei chyfanrwydd y mae'r prif sylw wedi ei roi ac nid yw'r ystadegau ar fewnfudo i Gymru o dramor yn ddibynadwy iawn nac yn debyg o fod cystal â'r ystadegau ar lefel y DU gyfan.

O ran niferoedd, mae'r mewnfudwyr i Gymru sy'n dod o weddill y DU yn llawer mwy sylweddol. O'i gymharu â'r sylw sydd wedi ei roi i wella safon yr ystadegau am fewnfudo o dramor, ychydig o sylw mae'r elfen hon wedi ei derbyn. Mae dwy brif ffynhonnell: cyfrifiad y boblogaeth a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Bob deng mlynedd rhy'r cyfrifiad amcangyfrif o'r nifer o bobl sy'n byw yng Nghymru yn ôl eu gwlad enedigol. Dangosir y canlyniadau er 1951 yn Ffigur 72.

¹⁸³ Office for National Statistics (2007).

Ffigur 72: % o'r boblogaeth, yn ôl gwlad enedigol, 1951–2001



Ffynhonnell: Cyfrifiadau, Ebrill 1951–Ebrill 2001, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.


Mae'r duedd yn glir: mae'r ganran o'r boblogaeth sydd wedi eu geni y tu allan i Gymru'n cynyddu. Yn 2001 roedd 25% o boblogaeth Cymru wedi eu geni y tu allan i'r wlad. Roedd 21% wedi eu geni yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.¹⁸⁴ (O'r rhai a anwyd yng Nghymru, roedd 24.7% yn gallu siarad Cymraeg. O'r rhai a anwyd y tu allan i Gymru, 9.0% oedd yn gallu siarad Cymraeg.¹⁸⁵)

Er bod mewnfudo blynyddol wedi lleihau ers ei uchafbwynt diweddar yn 2002, mewnfudodd dros 55 mil o bobl o weddill y Deyrnas Unedig bob blwyddyn ar gyfartaledd drwy'r ddegawd ddiwethaf (fel cymhariaeth: mae poblogaeth Merthyr Tudful o gwmpas 56 mil). Crynswth y mewnfudo yw hwnnw. Mae pobl wedi bod yn symud allan bob blwyddyn hefyd ond gan fod llai wedi bod yn symud allan bob blwyddyn (gweler Ffigur 73) nag sydd wedi bod yn symud i mewn, mae mewnfudo net positif wedi bod bob blwyddyn.

¹⁸⁴ Cyfrifiad 2001, tabl KS05.

¹⁸⁵ Cyfrifiad 2001, tabl T39.

Ffigur 73: Mudo trawsffiniol rhwng Cymru a gweddill y DU, 1975–2010




NHS CR: NHS Central Register
 PRDS: Patient Register Data Service

Gan nad oes cymunedau brodorol o siaradwyr Cymraeg tramor—ag eithriad Gwladfa'r Ariannin efallai—di-Gymraeg fydd mwyafrif mawr y mewnfudwyr p'un o wledydd eraill Prydain neu o dramor y byddant yn dod. Cymry Cymraeg sy'n dychwelyd ar ôl allfudo mewn blynyddoedd blaenorol fydd y mwyafrif mawr o'r siaradwyr Cymraeg sy'n mewnfudo'n amlwg. Gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2001 gallwn amcangyfrif bod 3,600 o siaradwyr Cymraeg wedi mewnfudo i Gymru yn ystod y 12 mis cyn y Cyfrifiad—yn bennaf, mae'n debyg, myfyrwyr Cymraeg yn dychwelyd i Gymru ar ôl astudio mewn prifysgol yn Lloegr.¹⁸⁶ Ond fel y'i trafodir yn yr adran nesaf, gallwn ddisgwyl bod allfudiad net o siaradwyr Cymraeg, hynny yw, mae mwy o siaradwyr Cymraeg yn symud o Gymru nac sy'n symud yn ôl.

Hyd yn oed pe bai'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg yn sefydlog, un canlyniad mewnfudo fyddai bod y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn gostwng. Mae Map 13 yn dangos y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2001 ar sail y rhai oedd wedi eu geni yng Nghymru. Gellir ei gymharu â Map 2.

¹⁸⁶ Cyfrifiad 2001, tabl S146. Ar sail y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg ymhlith y rhai dros 15 oed.

Map 13: Pobl a anwyd yng Nghymru: % yn gallu siarad Cymraeg (3 oed a throsodd), 2001



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, tabl T39



13.5 Allfudo

Mae'n fwy anodd amcangyfrif faint o siaradwyr Cymraeg sy'n allfudo. Yn y 12 mis cyn Cyfrifiad 2001 hwyrach fod 5,200 o siaradwyr Cymraeg wedi allfudo.¹⁸⁷ Gan ddefnyddio'r amcangyfrif am y rhai a fewnfudodd a roddwyd yn y paragraff blaenorol, byddai hynny'n awgrymu fod ychydig dros 30% yn allfudo a ddim yn dychwelyd.

Mae rhywfaint o gefnogaeth bod y ffigur yna tua'r maint cywir o ddadansoddiad o Astudiaeth Hydredol y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Dangoswyd bod 19.4% o'r plant oedd rhwng 3 a 14 oed yn 1971 wedi symud ac yn byw yn Lloegr erbyn 2001. Ffigur tebyg a gafwyd am blant yr un oed yn 1981: roedd 20.7% ohonynt yn byw yn Lloegr erbyn 2001.¹⁸⁸ Ceir mwy o dystiolaeth bod allfudo ar gynnydd o ddadansoddiad o blant 15 oed (Tabl 14).

¹⁸⁷ Wedi ei seilio ar y niferoedd symudodd i Loegr yn y flwyddyn cyn Cyfrifiad 2001 (Cyfrifiad 2001, tabl S008) a'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl oed ond ar gyfer oeddrannau dan 16, defnyddio'r ganran sy'n rhugl, yn ôl Cyfrifiad Ysgolion Ionawr 2003.

¹⁸⁸ H. Jones (2010), t. 127.

Tabl 14: Siaradwyr Cymraeg 15 oed: allfudo i Loegr rhwng 1971–81, 1981–91, 1991–01

	Siaradwyr Cymraeg 15 oed yn y sampl	% y Siaradwyr Cymraeg 15 oed yn ymfudo o Gymru i Loegr	
		Amcangyfrif pwynt	Cyfwng hyder 95%
1971–81	66	7.6	3.3–16.5
1981–91	72	18.1	10.9–28.5
1991–01	83	37.3	27.7–48.1

Ffynhonnell: Astudiaeth Hydredol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, dadansoddiad yr awdur.

Mae peth tystiolaeth, o'r un ffynhonnell, bod cyfraddau allfudo'r poblogaethau Cymraeg a di-Gymraeg yn wahanol.¹⁸⁹

Beth bynnag yw maint yr allfudo net, y peth arwyddocaol o ran cynaladwyedd y Gymraeg ymhlith poblogaeth Cymru yw bod allfudiad net. Golyga hynny bod yn rhaid, os am gynnal niferoedd presennol y siaradwyr, atgynhyrchu (trwy drosglwyddiad iaith rhwng y cenedlaethau) neu gynhyrchu (trwy addysg) mwy o siaradwyr Cymraeg bob blwyddyn nag sy'n marw, dim ond er mwyn cadw'r ddysgl yn wastad.

13.5.1 Y diaspora Cymraeg

Canlyniad allfudo yw bod 'Cymry ar wasgar', hynny yw, bod poblogaeth o Gymru'n byw mewn gwledydd eraill a bod rhai ohonynt wrth reswm yn gallu siarad Cymraeg. Cymharol ychydig o wledydd sy'n cynnwys cwestiynau am ieithoedd yn eu cyfrifiadau ac os nad oes cwestiwn yn cael ei ofyn, rhaid dibynnu ar amcangyfrifon. Dyna sydd yn rhaid ei wneud yn achos Lloegr. Yn achos Canada, Awstralia, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau – rhai o'r gwledydd pwysicaf o ran allfudo o Gymru – mae peth tystiolaeth ar gael o'u cyfrifiadau. Ac eithrio Lloegr, niferoedd bychain o siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn y gwledydd eraill ac nid ydynt yn ddigon mawr i'w hystyried fel poblogaethau a allai effeithio'n sylweddol ar ddemograffi Cymru wrth i siaradwyr, neu eu disgynyddion, ddychwelyd i Gymru ar ryw adeg. Er hynny, mae'n werth nodi rhai o'r ffeithiau sydd ar gael.

13.5.1.1 Patagonia

Nid oes data cyfrifiad ar gael o'r Ariannin ac felly nid oes amcangyfrif cadarn o faint sy'n siarad Cymraeg yn Y Wladfa ym Mhatagonia. Mae'r amcangyfrif o 25,000 a ddyfynnir yn Ethnologue yn annhebygol o uchel.¹⁹⁰ Amcangyfrif arall oedd bod o gwmpas 5,000 o siaradwyr yno yn ail ddegawd yr ugeinfed ganrif.¹⁹¹

13.5.1.2 UDA

Roedd 2,655 o bobl (5 oed neu drosodd) yn siarad Cymraeg gartref yn Unol Daleithiau America, yn ôl Cyfrifiad 2000 y wlad.¹⁹²

¹⁸⁹ Jones (2010).

¹⁹⁰ http://www.ethnologue.com/show_language.asp?code=cym

¹⁹¹ P. W. Birt (2005).

¹⁹² U.S. Census Bureau (2000).

13.5.1.3 Awstralia

Yng Nghyfrifiad 2001 Awstralia gofynnwyd am yr iaith a siaredid gartref. Dywedodd 1,060 eu bod yn siarad Cymraeg gartref (565 o wrywod, 495 o fenywod) a olygai fod mwy'n siarad Cymraeg gartref na nifer o ieithoedd brodorol Awstralia.

13.5.1.4 Canada

Yn ôl Cyfrifiad 2006 Canada, roedd 1,645 o bobl oedd â'r Gymraeg yn famiaith iddynt ond dim ond 90 o bobl fyddai'n siarad Cymraeg gartref yn rheolaidd ac o'r rheini, byddai 65 ohonynt hefyd yn siarad Saesneg gartref yn rheolaidd.^{193,194} Roedd 2,160 o bobl yn gallu cynnal sgwrs yn Gymraeg.¹⁹⁵

13.5.1.5 Seland Newydd

Roedd 840 o bobl yn gallu siarad Cymraeg yn Seland Newydd yn 1996, 1,158 yn 2001 a 1,077 yn 2006, yn ôl cyfrifiadau'r wlad yn y blynyddoedd hynny.¹⁹⁶ Yn 1996 roedd 9,963 wedi dweud mai Cymry oeddynt o ran ethnigrwydd, ond erbyn 2001 dim ond 3,414 oedd—ond ar sail wahanol.

13.5.1.6 Lloegr

Mae nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn Lloegr yn bwnc o ddi-ddordeb gan mai nhw, mae'n rhaid, fydd y rhan fwyaf o'r Cymry Cymraeg ar wasgar. Bu cryn ddyfalu ynghylch eu niferoedd.

Mae amcangyfrif bod 110 mil o bobl oedd yn preswyllo yn Lloegr yn 2001 yn gallu siarad Cymraeg yn rhesymol. Byddai nifer o'r fath—ynghyd â mil arall yn yr Alban a Gogledd Iwerddon—yn golygu bod cyfanswm o fwy na 690 mil o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn y DU a bod tua 17% ohonynt yn byw y tu allan i Gymru rywle arall yn y DU. Cynhyrchodd arolygon BARB am y ddwy flynedd at ddiwedd Mehefin 2006 ar gyfer S4C amcangyfrif o 158 mil o siaradwyr Cymraeg (4 oed a throsodd) yn byw y tu allan i Gymru, gyda 153 mil ohonynt yn Lloegr.

Mae'n debyg y daw amcangyfrif mwy sicr ar gael maes o law gan i gwestiwn newydd am iaith gael ei ofyn yn Lloegr yng Nghyfrifiad 2011.

¹⁹³ Statistics Canada (2006a).

¹⁹⁴ Statistics Canada (2006b).

¹⁹⁵ Statistics Canada (2006c).

¹⁹⁶ Statistics New Zealand (2006).

14 Edrych tua'r dyfodol

Wedi craffu ar ddadansoddiadau manwl o'r sefyllfa hanesyddol a chyfoes, beth am y dyfodol? Ystyriwn dystiolaeth arall am sut mae'r sefyllfa wedi newid ers 2001 cyn ceisio dyfalu beth a allai Cyfrifiad 2011, a rhai ar ôl hynny, os bydd rhai, ei ddangos.

14.1 Tystiolaeth arolygon diweddar

Mae dwy gyfres o arolygon sydd â samplau sylweddol eu maint y gallwn droi atynt. Rydym wedi cyfeirio at Arolwg Blynyddol y Boblogaeth/Arolwg y Llafurlu eisoes. Mae'r sampl yn Nghymru'n fawr, bron 50 mil yn 2001/02 er tipyn yn llai mewn blynyddoedd diweddarach. Yr un arall yw Arolwg Byw yng Nghymru a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru am 5 mlynedd o 2004 hyd at 2008.¹⁹⁷ Tua 12,000 o gyfeiriadau ymhob blwyddyn oedd maint ei sampl. Mae Ffigur 74 yn cymharu canlyniadau'r ddau arolwg hyn â chanlyniad Cyfrifiad 2001 ymhob awdurdod lleol ac yng Nghymru gyfan (y siart olaf yn y ffigur). Mae dau beth yn sefyll allan. Yn gyntaf, bod y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2001 a roddir gan Arolwg y Boblogaeth yn uwch na chanlyniad y cyfrifiad ymhob awdurdod. Ymchwiliodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol i'r broblem yn 2003 ond ni ddaethpwyd i gasgliad pendant, dim ond bod nifer o wahaniaethau methodolegol a allai fod wedi achosi'r gwahaniaeth.¹⁹⁸ Yn ail, nad oes tuedd i fyny amlwg dros y cyfnod cyfan o 2001 i 2010 yn cael ei dangos gan y naill arolwg na'r llall. Yn ôl Arolwg Blynyddol y Boblogaeth roedd 29.1% yn gallu siarad Cymraeg yn 2001 a 24.8% yn 2010.¹⁹⁹ Cymedr amcangyfrifon Arolwg Byw yng Nghymru am y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg rhwng 2004–2008 oedd 21.2%.

Yng ngoleuni'r drafodaeth flaenorol am ddemograffi, dylai fod yn amlwg nad oes fawr o le i gredu y bydd nifer y rhai yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl wedi cynyddu rhwng 2001 a 2011. Ond holi am y gallu i siarad Cymraeg y mae cwestiwn y cyfrifiad—a'r ddau arolwg dan sylw yma—heb sôn am ruglder. Mae'r ddau arolwg wedi amcangyfrif yn gyson fod canran y siaradwyr yn uwch na'r 20.8% a gynhyrchwyd gan Gyfrifiad 2001. Mae'n bosibl y bydd canlyniad Cyfrifiad 2011 yn uwch na 20.8% hefyd ond os bydd, mae'n debyg y bydd hynny'n adlewyrchu newid agwedd neu newid yn y ddisgwr, ac effaith dysgu Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgolion yn ddylanwad y tu ôl i hynny.

14.2 Amcanestyniadau

Ystyrir nesaf sut y gallai nifer a chanran y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg (fel yr adroddir gan y cyfrifiad) fod wedi newid ers 2001 a sut y gallant newid yn y dyfodol. Mae sawl ffordd o gyfrifo amcanestyniadau.²⁰⁰ Ceir amlinelliad o'r dull a ddefnyddiwyd yma yn yr atodiad.

¹⁹⁷ Llywodraeth Cymru (2004–8).

¹⁹⁸ L. Haselden (2004).

¹⁹⁹ StatsWales 005502.

²⁰⁰ J. Wyburn a J. Hayward (2008, 2009), Kandler et al. (2010), D. Sankoff (2008).

Ffigur 74: % yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl ardal, 2001–10, yn ôl ffynhonnell yr ystadegau




ABB: Arolwg Blynyddol y Boblogaeth
 Byw: Arolwg Byw yng Nghymru
 Cyf: Cyfrifiad 2001

Mae Tabl 15 yn dangos y canlyniadau. Mae Ffigur 75 a Ffigur 76 yn siartio'r rhain ond yn dangos hefyd yr amcanestyniadau a gyfrifwyd drwy ddefnyddio'r tybiaethau gwahanol am y raddfa drosglwyddo. Mae'r rheini'n rhoi rhyw syniad am sensitifrwydd yr amcanestyniadau i'r tybiaethau. Eu prif werth efallai yw dangos sut y gallai pethau gwella pe bai'r trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth yn gwella. Ni ddylid dibynnu arnynt mewn unrhyw ffordd. Cynnyrch defnyddio set o dybiaethau wedi eu seilio ar batrymau'r gorffennol ydynt ac nid yw patrymau'r gorffennol yn debyg iawn o gael eu hailadrodd.

Tabl 15: Amcanestyniadau: % a nifer yn gallu siarad Cymraeg, 2011, 2021, 2031


	Blwyddyn			
	2001	2011	2021	2031
Pawb, 3 oed a throsodd:				
% yn gallu siarad Cymraeg	20.8	20.0	20.0	20.3
Nifer yn gallu siarad Cymraeg	582,000	583,000	617,000	654,000
Plant 3 oed:				
% yn gallu siarad Cymraeg	14.9	15.4	16.2	16.3

Yn ôl yr amcanestyniadau hyn, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn 2011 heb newid bron er 2001. Gallai'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg fod ychydig yn is nag oedd yn 2001. Dylai'r ddogfen hon fod wedi rhoi digon o gefndir fel nad yw'r canlyniadau hyn yn achosi syndod. Ar ôl 2011 mae'r amcanestyniadau'n awgrymu y gallai nifer y siaradwyr gynyddu'n fwy sylweddol erbyn 2021. Er hynny, oherwydd mewnfudo, nid ydynt yn dangos cynnydd yn y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg dros yr un cyfnod.

Ffigur 75: Amcanestyniadau: nifer yn gallu siarad Cymraeg, 2001–33



Ffigur 76: Amcanestyniadau: % yn gallu siarad Cymraeg, 2001–33



14.3 Crynodeb

Nid yw canlyniadau arolygon diweddar na'r amcanestyniadau a gyfrifwyd yn awgrymu y gwelir cynnydd sylweddol yn y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn y dyfodol agos. Mae'r ffactorau demograffig wedi eu trafod yn helaeth mewn adrannau blaenorol, fel y mae addysg. Mae maint llif y bobl sy'n mudo i mewn ac allan o Gymru yn gallu newid yn gymharol sydyn a gall hynny effeithio ar natur y boblogaeth yn sylweddol. Fodd bynnag, mae ffactorau eraill—newid naturiol oherwydd genedigaethau a marwolaethau, ac addysg—yn dueddol o newid yn gymharol araf. Yn genedlaethol, o ganlyniad, yn gymharol araf y mae'r nifer a chanran y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg yn newid.

Er bod y ddogfen hon wedi cyflwyno rhai manylion ar lefel awdurdod lleol, nid yw prin wedi cyffwrdd ag ardaloedd llai eu maint. Ac eithrio ym maes addysg plant, ychydig o dystiolaeth ystadegol gyfoes sydd ar gael am ardaloedd bychain. Mae dadansoddiadau o ganlyniadau Cyfrifiad 1991 a 2001 yn y ddogfen hon wedi meintoli sut y newidiodd dosbarthiad daearyddol siaradwyr Cymraeg dros y cyfnod hwnnw. Bydd modd adeiladu ar y gwaith hwnnw pan gyhoeddir canlyniadau Cyfrifiad 2011. Hyd yn oed heb foddelu mathemategol o gwbl, o ystyried y tueddiadau demograffig, gallwn fod yn weddol siŵr y bydd yr ardaloedd lle mae dros 70% yn gallu siarad Cymraeg wedi crebachu eto. Mae'n debygol hefyd y bydd llai o siaradwyr Cymraeg yn byw mewn ardaloedd lle mae canran uchel yn siarad Cymraeg. Ar y llaw arall, bydd rhai ardaloedd â chanrannau uwch o'r boblogaeth, yn arbennig o bobl ifanc, yn gallu siarad Cymraeg nag ers degawdau.

15 Diweddglo

Mae ystadegau'r gyfrol hon yn darlunio sefyllfa gymhleth. Mae rhai datblygiadau, mewn addysg yn bennaf, yn addo'n dda i'r dyfodol o ran nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ond mae tueddiadau eraill sy'n anffafriol.

Er cyflwyno cymaint o ystadegau yn y gyfrol hon, ni thrafodwyd sawl agwedd ar ddefnydd y Gymraeg. Ni chynhwyswyd dim am y rhan fwyaf o'r cyfryngau er enghraifft, na'r celfyddydau. Er i'r gweithle gael rhywfaint o sylw, prin cyffwrdd ag ef a wnaed mewn gwirionedd ac ni soniwyd am weithgareddau'r sector gwirfoddol na byd chwaraeon chwaith. Rhoddwyd blaenoriaeth yn lle i'r ffactorau sydd â'r cysylltiad mwyaf uniongyrchol â chynnaladwyedd y gymdeithas Gymraeg. Mae'r meysydd eraill yn bwysig er hynny gan eu bod yn ffurfio isadeiledd ehangach yr iaith. Maent yn darparu—neu, mewn rhai achosion, fe allent ddarparu, drwy ddatblygu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg—cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Sicrhau cynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael yw un o'r heriau i'r dyfodol. Mae'r ystadegau a gyflwynwyd wedi amlygu rhai gwendidau o ran sgiliau Cymraeg unigolion o hyd a thrwy arfer sgiliau y mae eu gwella. Heb gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn y byd y tu allan i'r cartref neu'r ysgol, ni fydd cynnydd yn y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg yn cael ei adlewyrchu ym maint defnydd yr iaith.

16 Llyfryddiaeth

- Aitchison, J. a Carter, H. (1985). *The Welsh Language: An Interpretative Atlas: 1961–1981*, Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru.
- (1994). *A Geography of the Welsh Language 1961–1991*, Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru.
- (2000). *Language, economy and society: the changing fortunes of the Welsh language in the twentieth century*, Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru.
- (2004). *Spreading the Word: The Welsh language 2001*, Talybont, Y Lolfa.
- Aldekoa, J. a Gardner N. (2002). 'Turning knowledge of Basque into use: normalisation plans for schools', *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 5, 6, 339–54.
- Alvarez Enparantza, José Luis ("Txillardegí") (2001). *Hacia una Socio-Lingüística Matemática*, Sortzen, Euskal Soziolinguistika Institutua Sortzen.
- Arad Consulting a Hywel Evans Cyf (2007). *Gwerthusiad o Iaith Pawb Cam 1*, Caerdydd, Llywodraeth Cymru, <http://wales.gov.uk/depc/research/firstiaithpawb/w.pdf>, cyrchwyd 2 Rhagfyr 2011.
- Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (2011). *Arolwg Hydredol Ymadawyr 2006/07*. BARB. www.barb.co.uk.
- Beaufort Research (2000). *Sefyllfa'r Iaith Gymraeg*, Caerdydd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- (2004). *Asesu Hyfedredd mewn Darllen ac Ysgrifennu Cymraeg: Adroddiad Ysgrifenedig ar y Canfyddiadau*, Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, <http://www.arsyllfadydysgu.com/uploads/publications/582.pdf>, cyrchwyd 1 Rhagfyr 2011
- (Ebrill 2005). *Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg*, Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- (2006). *Astudiaeth ar Fyw Bywydau trwy Gyfrwng y Gymraeg: Adroddiad Cryno, S4C*, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor Celfyddydau Cymru, http://www.s4c.co.uk/abouts4c/corporate/pdf/c_WelshLivesSummaryReport.pdf, cyrchwyd 22 Tachwedd 2011.
- (Mawrth 2007). *Arolwg Cwmnibws*, Caerdydd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Bianchi, T. (2008). *Arolwg o'r Wasg Brintiedig Cyfrwng Cymraeg*, Caerdydd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Birt, P. W. (2005). 'The Welsh Language in Chubut Province, Argentina' yn D. Ó Néill (gol.), *Rebuilding the Celtic Languages*, Tal-y-bont, Y Lolfa.
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2003). *Trosglwyddo'r iaith o Fewn y Teulu. Dadansoddiad Ystadegol*, Caerdydd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- (2004). *Cyfrifiad 2001: Cyfansoddiad Ieithyddol Cartrefi Cymru*, Caerdydd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- (2008). *Arolygon Defnydd Iaith 2006–2008*, Caerdydd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- (2009). *Trosglwyddo'r iaith: dadansoddiad o'r sefyllfa yng Nghymru, yr Alban ac Iwerddon*, Caerdydd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Canolfan Ymchwil Ewrop, Cymru (2007). *Dangosyddion Defnydd Iaith: Adroddiad Terfynol*, Caerdydd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- CBAC (2010). *Bwletin Arholiadau Cymraeg i Oedolion*, Caerdydd, CBAC.
- (2011). *Canlyniadau Rhagarweiniol Haf 2011: TGAU (cwrs llawn)*, Caerdydd, CBAC. <http://www.cbac.co.uk/uploads/publications/13930.pdf>, cyrchwyd 22 Tachwedd 2011.
- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (2011). *Crynodeb Ystadegau Blynyddol*, Caerdydd, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, http://www.gtcw.org.uk/gtcw/images/stories/downloads/Annual%20Statistics%20Digest/Annual_Stats_11_W.pdf, cyrchwyd 13 Rhagfyr 2011.

- Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru (2008). *Arolwg o Hamdden yn yr Awyr Agored yng Nghymru*, <http://www.cccgc.gov.uk/enjoying-the-country/idoc.ashx?docid=b130f808-9184-4dc9-b245-00dd0fe39de5&version=-1>, cyrchwyd 22 Tachwedd 2011.
- Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru (1994). *Adroddiad y Cyd-Grŵp Adolygu Cymraeg i Oedolion*, Caerdydd, Cyngorau Cyllido Cymru.
- Fishman, J. (1972), 'The sociology of language: an interdisciplinary social science approach to language' yn *Society*, Newbury House Publishers.
- (1991). *Reversing Language Shift: Theoretical and Empirical Foundations of Assistance to Threatened Languages*, Clevedon, England, Multilingual Matters.
- Gillie, C. ac Allen, G. (1996). *Nursery Education and Grant-maintained Schools Bill [Bill 41 of 1995/96]*, Research Paper 96/8, House of Commons Library, <http://www.parliament.uk/briefing-papers/RP96-8.pdf>, cyrchwyd 22 Tachwedd 2011.
- Hansen, K. a Joshi, H. (gol.) (2008). *Millennium Cohort Study Third Survey: A User's Guide to Initial Findings*, Centre for Longitudinal Studies, Institute of Education, University of London, http://www.cls.ioe.ac.uk/core/documents/download.asp?id=1083&log_stat=1, cyrchwyd 22 Tachwedd 2011.
- Haselden, L. (2004). *Gwahaniaethau mewn Amcangyfrifon sy'n Ymwneud â Sgiliau yn yr Iaith Gymraeg*, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, <http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/census-2001/data-and-products/data-and-product-catalogue/reports/report-on-the-welsh-language/gwahaniaethau-mewn-amcangyfrifon-sy-n-ymwneud---sgiliau-yn-yr-iaith-gymraeg.pdf>, cyrchwyd 23 Rhagfyr 2011.
- Higgs, G., Williams, C. a Dorling, D., (2004). 'Use of the Census of Population to discern trends in the Welsh language: an aggregate analysis', *Area*, 36, 187–201.
- Jenkins, G. (1999). 'A gafodd Cymru chwareu teg?', yn *Cyfrifiad 1891 a'r Iaith Gymraeg, Y llyfr yng Nghymru=Welsh Book Studies*, 2, 1–21.
- Joint Council for Qualifications (JCQ) (2011). GCSE, Applied GCSE and Entry Level Certificate Results, Summer 2011, <http://www.jcq.org.uk/attachments/published/1589/GCSE%20RESULTS.pdf>, cyrchwyd 1 Rhagfyr 2011.
- Jones, H. (2005). 'Ability to speak Welsh in the Censuses of Population: a longitudinal analysis', *Population Trends Winter 2005 No. 122*, 83-86, Office for National Statistics. Palgrave MacMillan, <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/population-trends-rd/population-trends/no--122--winter-2005/population-trends.pdf>, cyrchwyd 23 Rhagfyr 2011.
- (2007). 'Goblygiadau newidiadau ym mhroffil oedran siaradwyr Cymraeg a'u dosbarthiad gofodol', *Gwerddon*, 1: 2, Hydref, 10–37, www.gwerddon.org.
- (2008). 'The changing social context of Welsh: a review of statistical trends', *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 11, 5 (September), 541–57.
- (2009). 'The intergenerational transmission of the Welsh language: an analysis of the 2001 Census results for Wales', papur a gyflwynwyd i gynhadledd flynyddol Cymdeithas Brydeinig dros Astudiaethau Poblogaeth 2009, Caerdydd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- (2010). 'Welsh speakers: the relationship between their age profile and out-migration', yn D. Morris (gol.), *Welsh in the Twenty-first century*, Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru.
- Kandler, A., Unger, R. a Steele, J. (2010). 'Language shift, bilingualism and the future of Britain's Celtic languages', *Phil. Trans. R. Soc. B* (2010), 365, 3855–64.
- Kruger, J. a Dunning, D. (1999). 'Unskilled and unaware of it: how difficulties in recognizing one's own incompetence lead to inflated self-assessments'. *Journal of Personality and Social Psychology*, 77, 6, 1121–34.

- Office for National Statistics (2004). *Cyfrifiad 2001 Adolygiad a Gwerthusiad, Adroddiad Cyffredinol ar Gyfrifiad 2001 yng Nghymru*, <http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/census-2001/design-and-conduct/review-and-evaluation/evaluation-reports/a-report-on-the-2001-census-in-wales/general-report-on-the-2001-census-in-wales---welsh.pdf>, cyrchwyd 3 Ionawr 2012.
- Office for National Statistics (2005). *Census 2001 Quality report for England and Wales*, <http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/census-2001/design-and-conduct/review-and-evaluation/evaluation-reports/quality-report/census-2001-quality-report.pdf>, cyrchwyd 17 Tachwedd 2011.
- Office for National Statistics (2007). *Mortality Statistics: Deaths registered in England and Wales by area of usual residence - Deaths: numbers by age and sex, 2007*, <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/vsob1/deaths-registered-area-usual-residence/2007/table-1---deaths--numbers-by-age-and-sex--2007-.xls>, cyrchwyd 1 Rhagfyr 2011.
- (2010). *Birth summary tables, England and Wales, 2010*, <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/vsob1/parents--country-of-birth--england-and-wales/2010/parents--country-of-birth--england-and-wales---parents--birthplace.xls>, cyrchwyd 1 Rhagfyr 2011.
- OPCS (1993). *1991 Census Cyfrifiad 1991 Report for Wales (Part 1) Adroddiad Cymru (Rhan 1)*, Llundain, HMSO.
- (1994). *1991 Census Cyfrifiad 1991 Welsh Language/Cymraeg Wales/Cymru*, Llundain, HMSO.
- Phillips, J. (2008). 'Effaith newidiadau diweddar ar hynodrwydd ieithyddol y Gymraeg', *Gwerddon*, 2: 3, Mai, 10–37, www.gwerddon.org.
- Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg (1993). *Y Gymraeg a'r Blynyddoedd Cynnar*, Caerdydd, Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg.
- R Development Core Team (2011). *R: A language and environment for statistical computing.*, Vienna, Austria, R Foundation for Statistical Computing, www.R-project.org.
- Sankoff, D. (2008). 'How to predict the evolution of a bilingual community', yn Meyerhoff, M. and Nagy, N. (eds.), *Social Lives in Language – Sociolinguistics and Multilingual Speech Communities Celebrating the Work of Gillian Sankoff*, University of Edinburgh/University of Toronto.
- Seliger, H. a Vago, R. (gol.) (1991). *First Language Attrition*, Cambridge, Cambridge University Press.
- Shuttleworth, I., Lloyd, C. a Martin, D. (2011). 'Exploring the implications of changing census geographies for the measurement of residential segregation: the example of Northern Ireland 1991-2001', *J. R. Statist. Soc.A*, 174, Part 1, pp. 1-16.
- Siencyn, S. W. (gol.) (2010). *Y Cyfnod Sylfaen: Athroniaeth, Ymchwil ac Ymarfer*, Caerfyrddin: Cyhoeddiadau Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant.
- Statistics Canada (2006a). 2006 Census of Canada: Topic-based tabulations. Detailed Mother Tongue, www.statcan.gc.ca.
- (2006b). *Detailed Language Spoken Most Often at Home*, <http://www12.statcan.gc.ca/census-recensement/2006/dp-pd/tbt/Rp-eng.cfm?LANG=E&APATH=3&DETAIL=0&DIM=0&FL=A&FREE=0&GC=0&GID=0&GK=0&GRP=1&PID=94817&PRID=0&PTYPE=88971,97154&S=0&SHOWALL=0&SUB=702&Temporal=2006&THEME=70&VID=0&VNAMEE=&VNAMEF=>, cyrchwyd 1 Rhagfyr 2011.

- (2006c). *Various Languages Spoken*, <http://www12.statcan.gc.ca/census-recensement/2006/dp-pd/tbt/Rp-eng.cfm?LANG=E&APATH=3&DETAIL=0&DIM=0&FL=A&FREE=0&GC=0&GID=0&GK=0&GRP=1&PID=89189&PRID=0&PTYPE=88971,97154&S=0&SHOWALL=0&SUB=705&Temporal=2006&THEME=70&VID=0&VNAMEE=&VNAMEF=>, cyrchwyd 1 Rhagfyr 2011.
- Statistics New Zealand (2006). 2006 Census Data. QuickStats about Culture and Identity. Table 16, <http://www.stats.govt.nz/~media/Statistics/Census/2006-reports/quickstats-subject/Culture-Identity/quickstats-about-culture-and-identity-tables.xls>, cyrchwyd 1 Rhagfyr 2011.
- StatsWales. www.statswales.wales.gov.uk.
- Thomas, R. (2010). *Gwasaniaithau, Defnyddwyr a'r Iaith Gymraeg*, Caerdydd, Llais Defnyddwyr Cymru.
- U.S. Census Bureau (2000). *Census 2000 Special Tabulation 224. Detailed Language Spoken at Home for Population 5 Years and Over*, <http://www.census.gov/hhes/socdemo/language/about/STP224.xls>, cyrchwyd 1 Rhagfyr 2011.
- Vidler, G. (2001). *The 2001 Census of Population, Research Paper 01/21*, House of Commons Library, <http://www.parliament.uk/briefing-papers/RP01-21.pdf>, cyrchwyd 4 Ionawr 2012.
- Vision of Britain. <http://www.visionofbritain.org.uk/>.
- Wickham, H. (2009). *ggplot2: Elegant Graphics for Data Analysis*, New York, Springer.
- Williams, C. ac Evas, J. (1997). *Y Cynllun Ymchwil Cymunedol*, Caerdydd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Williams, J. a Kinnaird, R. (2004). *Yr Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Sylfaenol Oedolion yng Nghymru*, British Market Research Bureau, <http://www.arsyllfadysgu.com/uploads/publications/1944.pdf>, cyrchwyd 1 Rhagfyr 2011.
- Woods, A. (2007). *Prynu a darllen llyfrau Cymraeg. Dadansoddiad o ymchwil marchnata i Gyngor Llyfrau Cymru*, <http://www.cllc.org.uk/1364.file.dld>, cyrchwyd 1 Rhagfyr 2011.
- Wyburn, J. a Hayward, J. (2008). 'The future of bilingualism: an application of the Baggs and Freedman model', *J. Math. Soc.* 32, 267–84. (doi:10.1080/00222500802352634).
- (2009). 'OR and language planning: modelling the interaction between unilingual and bilingual populations', *J. Operat. Res. Soc.* 60, 626–36. (doi:10.1057/palgrave.jors.2602600).
- Y Swyddfa Gymreig (1978). *Statistics of Education in Wales, No.3, 1978*, Caerdydd, Y Swyddfa Gymreig.
- (1995). *Arolwg Cymdeithasol Cymru 1992 Adroddiad ar yr Iaith Gymraeg*, Caerdydd, Y Swyddfa Gymreig.
- Y Swyddfa Ystadegol Gwladol (2004a). *Cyfrifiad 2001 Adroddiad ar yr iaith Gymraeg*, Llundain, TSO.
- (2004b). *Ffocws ar Gymru*, Y Swyddfa Ystadegol Gwladol, <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/social-trends-rd/focus-on-wales--its-people/focus-on-wales--its-people/rep-fow-summary-report.pdf>, cyrchwyd 23 Rhagfyr 2011.

17 Atodiad: Methodoleg cyfrifo amcanestyniadau

Mae modd defnyddio amcanestyniadau'r Llywodraeth o'r boblogaeth fel man cychwyn. Mae'r amcanestyniadau'n cael eu cynhyrchu ar gyfer oedrannau penodol. Yr hyn sydd rhaid ei wneud yw bwrw amcan o'r ganran a fydd yn gallu siarad Cymraeg, fesul oedran. Yn fras, gellir cymryd y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg ymhlith oedran benodol, er enghraifft 30 oed, un flwyddyn fel amcanestyniad o'r ganran fydd yn gallu siarad Cymraeg yn y grŵp oedran nesaf, 31 oed, y flwyddyn nesaf, neu 32 oed y flwyddyn wedyn, ac yn y blaen. I gael amcanestyniad o'r nifer fydd yn gallu siarad Cymraeg, cymerir y ganran a'i lluosu gan yr amcanestyniad o'r boblogaeth.

I gychwyn, cymerir y canrannau oedd yn gallu siarad Cymraeg adeg Cyfrifiad 2001, fesul oedran.

Cymerir y boblogaeth, fesul oedran, bob blwyddyn o 2001 i 2008 (amcangyfrifon ganol blwyddyn), ac amcanestyniadau o'r boblogaeth o 2009 tan 2033.^{201,202}

Mae tri chymhlethdod:

Sut i amcangyfrif y ganran sy'n siarad Cymraeg yn 2 oed bob blwyddyn;

Sut i amcangyfrif y ganran ymhlith y plant 3 oed ac yn hŷn; a

Sut i benderfynu ar ba oed ymlaen, os o gwbl, y mae'n rhesymol meddwl na fydd y ganran yn newid yn sylweddol o flwyddyn i flwyddyn?

Tair oed yw'r oedran ieuengaf y cyhoeddir y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg amdano o Gyfrifiad 2001. Rhaid penderfynu pa ganran fydd yn gallu siarad Cymraeg yn 3 oed y flwyddyn ganlynol. I wneud hynny, amcangyfrifir canran ar gyfer y rhai 2 oed yn 2001: y ganran o blant 3 oed oedd yn gallu siarad Cymraeg ac a oedd yn byw mewn cartref cyfan gwbl Gymraeg, o ran yr oedolion oedd yn byw yn y cartref. Ond rhaid amcangyfrif y ganran o blant 2 flwydd oed bob blwyddyn. I wneud hynny, adeiladir adborth i mewn i'r model. Dibynna canran y rhai 2 oed ar y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg ymhlith y to sy'n magu plant a chyfradd drosglwyddo'r iaith o'r to hwnnw. Cymerir mai'r to priodol yw'r rhai 20 i 49 oed.

I amcangyfrif canran y rhai 3 oed y flwyddyn nesaf, cymerir amcangyfrif y rhai 2 oed a'i addasu i adlewyrchu'r newid rhwng 2 a 3 oed yn 2001, hynny yw, cymerir y bydd addysg rhwng yr un flwyddyn a'r nesaf yn cael yr un effaith ag y cafodd yn 2001. Gwneir hyn am bob oed o 3 i 21. Yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2001 roedd y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg yn cynyddu o un oedran i'r nesaf bron nes cyrraedd 45.9% ymhlith y rhai 14 oed ond roedd y gymhareb rhwng canran un oedran a'r nesaf yn mynd yn llai ac yn llai, eto bron yn ddiethriad, o 3 oed tan 18 oed.

²⁰¹ Cynhyrchwyd gan y SYG ac a gyhoeddwyd ar 13 Mai 2010, o StatsWales tabl 016889.

²⁰² Cynhyrchwyd gan y SYG, wedi eu seilio ar amcangyfrifon 2008. Defnyddiwyd y prif amcanestyniadau. Cyhoeddwyd amcanestyniadau sail 2010 ar ôl i'r gwaith hwn gael ei wneud.

Er y gellir priodoli'r cynnydd o un oed i'r llall tan 14 oed i effaith addysg, mae'n debyg fod dau brif achos i'r gostyngiad o un oed i'r llall o 14 oed tan 21 oed: lleihad yn y ganran sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith ymhlith disgyblion ysgol hyd at 16-19 oed, ac allfudo a mewnfudo o 18 oed ymlaen.

Yn ôl amcanestyniadau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol, gwelir mewnfudiad net sylweddol o 17 i 20 oed, ac allfudiad sylweddol o 20 i 24 oed. Mae'n debyg y bydd y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn uwch o lawer ymhlith y rhai sy'n allfudo nag ymhlith y rhai sy'n mewnfudo, yn arbennig ymhlith y rhai 17 i 20 oed. Wrth gymryd y bydd y ganran yn newid o 14 i 21 oed mewn ffordd gyffelyb i'r hyn a welwyd yn 2001, tybir bod y patrwm o fudo'n debyg o 2002 ymlaen. Wrth gymryd o oed 21 ymlaen na fydd y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn newid, anwybyddir effaith mudo.

Dyma'r tybiaethau eraill. Am *drosglwyddo*, cymerir ar gyfer 2001 mai 6.97% o blant 2 oed oedd yn gallu siarad Cymraeg ar y sail bod plant 3 oed oedd yn gallu siarad Cymraeg ac yn byw mewn cartref lle roedd y ddau riant neu'r unig riant yn gallu siarad Cymraeg yn 6.97% o'r holl blant 3 blwydd oed. Yn y blynyddoedd eraill, cymerir mai oedolion 20 i 49 oed yw'r rhai sy'n trosglwyddo. Ar gyfartaledd, 15.5% o'r rhai 20 i 49 oed oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2001.

Rhydd y ffigurau hynny gymhareb o 0.449 y gellir ei chymryd fel y gyfradd drosglwyddo ymhob blwyddyn. Wrth i'r canrannau sy'n gallu siarad Cymraeg ymhlith yr oedrannau 20 i 49 gynyddu mae'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg ymhlith y rhai 2 oed hefyd yn cynyddu felly.

Yn ail, i ddangos sensitifrwydd yr amcanestyniadau i'r dybiaeth ynglŷn â'r gyfradd drosglwyddo defnyddir dwy gyfradd arall: sef 0.25 a 0.9, y naill yn cynrychioli senario lle mae'r nifer o blant 2 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn ganran is o'r nifer 20 i 49 oed, a'r llall lle mae'n ganran uwch

Fel tybiaeth am *addysg*, cymerir y patrwm o newid yn 2001 o un oedran i'r nesaf rhwng 3 ac 21 oed yn ddigyfnewid.^{203,204}

²⁰³ Cymarebau ods.

²⁰⁴ Mae'r ddwy dybiaeth hyn wedi eu seilio ar y tybiaethau a ddefnyddir gan Sankoff heblaw bod yr oedran 3 i 21 a ddefnyddir yn lletach na'r rhychwant y mae ef yn ei ddefnyddio, ac yn efelychu nid yn unig patrymau addysg ysgol ond hefyd effaith net mudo yn 2001. Mae hyn yn dyngedfennol. Dyma'r unig le y cynhwysir effaith mewnfudo ac allfudo yn yr amcanestyniadau hyn. Mae hyn yr un fath â chymryd, o ran y rhai dros 21 oed, na fydd mewnfudo nac allfudo ar ôl 21 oed. Mae'r amcanestyniadau o'r niferoedd wedi eu cyfrifo trwy gymryd y ganran berthnasol o amcanestyniad poblogaeth y Llywodraeth (sail 2008) (StatsWales 010879). Mae'r amcanestyniadau hynny'n cynnwys effaith mewnfudo ac allfudo. At ddiben cyfrifo amcanestyniad o'r boblogaeth dim ond yr effaith net sy'n bwysig ond nid yw hynny'n wir wrth geisio cyfrifo amcanestyniad o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae'n annhebyg y bydd yr un ganran o siaradwyr Cymraeg ymhlith y bobl sy'n mewnfudo ag y ceir ymhlith y rhai sy'n allfudo. (Rhan amlaf bydd y ganran yn is.) Os bydd, e.e., 20% yn gallu siarad Cymraeg ymhlith y rhai 22 oed, mae effaith net mudo'n debyg o olygu y bydd llai nag 20% yn gallu siarad Cymraeg ymhlith y rhai 23 oed y flwyddyn ganlynol. Mae'r amcanestyniadau o'r canrannau'n anwybyddu hyn. Yn yr enghraifft hon, maent yn cymryd mai 20% o'r rhai 23 oed fydd yn gallu siarad Cymraeg o hyd.